



Cyfarfod

PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 24AIN MEDI, 2015

Lleoliad

Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

(Dosbarthwyd: 17/9/15)

PWYLLGOR ARCHWILIO

AELODAETH (19)

Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Charles Wyn Jones
W. Tudor Owen

E. Selwyn Griffiths
Dilwyn Morgan
Gethin Glyn Williams

Sian Gwenllian
Michael Sol Owen
John Wyn Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards
John Brynmor Hughes
Angela Russell

Thomas G. Ellis
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Aeron M. Jones

Robert J. Wright

Llafur (2)

Y Cynghorwyr

Sion W. Jones

Glyn Thomas

Aelod Lleyg (1)

John Pollard

Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

1 - 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2015, fel rhai cywir.

5. CYFRIFON TERFYNOL 2014/15

5 - 162

Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2014/15.

- a) Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig gan y Pennaeth Cyllid am gymeradwyaeth y pwyllgor (copi yma – papur **gwyn**)
- b)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" i'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiadau Cyfrifon 2014/15 Cyngor Gwynedd (copi yma – papur **llwyd**)
- b)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ar ran y Pwyllgor Archwilio, sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt cymeradwyo datganiadau ariannol statudol y Cyngor (copi yma fel Atodiad 1 i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru sy'n (b)(i) uchod)
- c)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" i'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiadau Cyfrifon 2014/15 y Gronfa Bensiwn (copi yma – papur **lelog**)
- c)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ar ran y Pwyllgor Archwilio, sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt cymeradwyo datganiadau ariannol statudol y Gronfa Bensiwn (copi yma fel Atodiad 1 i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru sy'n (c)(i) uchod).

6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 163 - 174

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir weithgarwch benthyg a buddsoddi'r Cyngor hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol

(copi yma – papur **glas**)

7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU 175 - 188

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Gweithgor ar 20 Awst 2015 (copi yma – papur **pinc**).

8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 189 - 206

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 11 Medi 2015 (copi yma – papur **gwyrdd**).

9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16 207 - 212

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2015/16 (copi yma – papur **eog**).

PWYLLGOR ARCHWILIO 16/7/15

Yn bresennol: Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Trevor Edwards, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Angela Russell a John Wyn Williams.

Hefyd yn Bresennol: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol – ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 5 a 6 ar y rhaglen), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad – ar gyfer Eitem 9 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Michael Sol Owen a Glyn Thomas ynghyd a Mr John Pollard.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. MATERION BRYS

Tynnodd aelod sylw at fater a nododd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor o ran sut y penodir ymgynghorwyr, eu perthynas â swyddogion a sicrhau bod y drefn benodi yn cydymffurfio â safonau OJEC. Nododd ei fod wedi derbyn gwybodaeth bellach o ran un achos o ddefnyddio ymgynghorydd yn yr Adran Addysg, yng nghyswllt y posibilrwydd o ddwy ysgol uwchradd yn rhannu Pennaeth, oedd yn peri pryder iddo.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd fod Archwilio Mewnol eisoes yn edrych i mewn i'r mater o gyflogi ymgynghorwyr a darperir ymateb erbyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Tynnodd yr aelod sylw at fater arall oedd yn peri pryder iddo, sef prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle Cyf.

Awgrymodd y Cadeirydd y gellir gwahodd y swyddogion perthnasol o'r gwasanaethau Economi ac Eiddo i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau i drafod y mater gyda'r aelod yn bresennol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015, fel rhai cywir.

4. DATGANIAD O GYFRIFON 2014/15

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Pennaeth Cyllid. Tynnwyd sylw mai cyfrifon drafft heb eu harchwilio a gyflwynir yma er gwybodaeth, gyda'r fersiwn terfynol i'w gyflwyno er cymeradwyaeth y Pwyllgor yng nghyfarfod 24 Medi 2015.

Tywysodd yr Uwch Reolwr Cyllid yr aelodau drwy'r cyfrifon, gan nodi byddai'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn cael ei gynnwys hefyd gyda'r cyfrifon i ffurfio un ddogfen gyfansawdd gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Adroddwyd bod cyfrifon llynedd wedi derbyn oddeutu 800 o ymweliadau ar y wefan a bod hyn yn galonogol.

Llongyfarchwyd yr adrannau am eu gwaith rheoli cyllidebau, gan fod tanwariant yn cynrychioli dim ond 0.18% (pwynt un wyth o un y cant) o'r cyfanswm gwariant.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid sylw at ffigwr yng nghyswllt 'Ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net' o £70,697 miliwn ar dudalen 9 o'r cyfrifon. Eglurodd nad oedd y sefyllfa ymrwymadau pensiwn wedi newid llawer, ond defnyddir dull rhagdybiaeth actiwaraid gyda phris heddiw yn cael ei roi ar rai ymrwymadau pensiwn 60 mlynedd yn y dyfodol. Nododd bod rheolau cyfrifo yn mynnu defnydd o'r gyfradd dychweliadau ar bondiau fel y gyfradd ddisgowntio, sy'n golygu bod symudiad mawr rhwng blynyddoedd yng ngwerth tybiannol yr ymrwymadau pensiwn, ond sydd ddim yn newid go iawn mewn termau arian parod, a gallai rhoi camargraff o'r sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed costau ymddeoliadau mewn adeg o doriadau, nododd y Pennaeth Cyllid bod y gost ychwanegol yn cael ei adnabod pan wneir ceisiadau am ymddeoliad a gaiff ei gyllido gan gyfraniad gan yr Adran a/neu'r Gronfa Diswyddo Gorfforaethol. Atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi ystyried penderfyniad Cabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015 i drosglwyddo £2,986,685 i'r Gronfa Ddiswyddo yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nodwyd na ellir rhagweld union gyfanswm y gost, ond bod darpariaeth yn y Gronfa Ddiswyddo yn cael ei adolygu yn gyson ar gyfer cyfarch y costau.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, nodwyd bod yr actiwari wedi cymryd i ystyriaeth y newid oed pensiwn o 65 i 67 mlynedd.

Cyfeiriodd aelod at falansau ysgolion o dan 'Nodyn 10 – Trosglwyddiad i/o Gronfeydd/Reserfau a glustnodwyd' ar dudalen 26, nododd y dylid parhau i annog ysgolion i ostwng eu balansau. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid yr anogir ysgolion i ddefnyddio balansau ar gyfer addysg y disgyblion, a bod yr Adran Addysg yn sicrhau eglurhad yn flynyddol o ran bwriad yr ysgolion i ymdrin â'r arian.

Yng nghyswllt balansau ysgolion, awgrymodd aelod fod angen ail-edrych ar y fformiwla cyllido ysgolion.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Pennaeth Cyllid fod y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2014 wedi tanlinellu penderfyniad blaenorol i beidio buddsoddi arian y Cyngor ei hun yn Israel. O ran buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, byddai wedi golygu proses hir a chostus o ail-gytundebu efo Rheolwyr Buddsoddi'r Gronfa i sicrhau na fuddsoddir yn Israel. Nododd bod swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn ceisio dylanwadu ar Reolwyr Buddsoddi'r cwmnïau, sydd yn buddsoddi ar ran y Gronfa, ar sut y buddsoddir yr arian, ac hefyd yn ceisio dylanwadu trwy'r Fforwm Gronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol. Ychwanegodd bod penderfyniadau buddsoddi, er mwyn diogelu buddiannau aelodau'r cynllun yn gorfod cael eu gwneud ar rinwedd y cwmnïau a'r enillion a dderbynnir.

Cyfeiriodd aelod at gostau eraill cyflogwr o dan 'Nodyn 31 – Taliadau i Swyddogion' ar dudalen 56 yng nghyswllt ymddeoliadau Uwch Swyddogion. Nododd yr Uwch Reolwr Cyllid bod y ffigyrau yn adlewyrchu costau ychwanegol i'r Cyngor ac nad oeddynt yn daliadau unionyrchol.

Diolchwyd i'r holl staff ynghlwm â pharatoi'r cyfrifon a holl staff y Cyngor sy'n ymwneud â chyllidebau'r Cyngor am eu gwaith caled a manwl.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2014/15.

5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2014/15, o'i gymharu yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno ym mis Chwefror 2014. Manylwyd ar y cefndir economaidd, y gofyn benthyca a rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus.

Cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi bu gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd, a ni fu methiant i dalu na diffyg hylifedd gan unrhyw gwrthbartion roedd y Cyngor wedi defnyddio yn ystod 2014/15.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

6. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2015

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2015. Nodwyd bod 7 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

Nododd aelod yng nghyswllt yr archwiliad 'Taliadau Cymorth Cyntaf', yr angen i aelodau'r Cyngor dderbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

PENDERFYNWYD:

- (a) **derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Mehefin 2015 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**
- (b) **bod yr aelodau a benodwyd i wasanaethu ar y Gweithgor Gwella Rheolaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Mehefin yn ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' yn y cyfnod yma yn ogystal.**
- (c) **mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol wedi rhagori targed chwarter 1 gyda 7 adroddiad terfynol wedi ei rhyddhau, sef 11.1% o archwiliadau'r cynllun o gymharu â'r targed o 8%.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16.

8. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad o ran yr adroddiadau archwilio allanol a dderbyniwyd gyda'r atodiad yn manylu ar yr adroddiadau, y camau gweithredu a'r trefniadau craffu.

Nododd aelod yng nghyswllt asesu archwiliadau gofal, yr angen i aelodau dderbyn hyfforddiant i'w harfogi i ddelio efo materion gofal. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad y byddai'n codi'r mater efo'r Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd.

PENDERFYNWYD:

- (i) derbyn yr adroddiad gan nodi bod y Pwyllgor wedi ei fodloni bod argymhellion archwilwyr allanol yn derbyn sylw digonol.
- (ii) bod y Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn codi'r mater o ran hyfforddiant ar gyfer aelodau i'w harfogi i ddelio efo materion gofal gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

9. YMATEB I BWYSAU ARIANNOL

Adroddwyd y cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn Ebrill 2015 yn datgan fod "cynghorau yng Nghymru wedi ymateb yn dda i bwysau ariannol sylweddol, [ond fod] angen iddynt wella eu prosesau rheoli a chynllunio ariannol er mwyn ateb yr heriau ariannol cynyddol sydd i ddod".

Nodwyd bod rhai Trysoryddion yng Nghymru yn ystyried bod yr adroddiad braidd yn arwynebol, gyda thystiolaeth annigonol i gefnogi rhai casgliadau, a diffyg cyfeiriad at arfer da yng Nghymru, oherwydd methiant i ymgysylltu yn effeithiol gydag adrannau cyllid mewn awdurdodau lleol ar y gwaith.

Tywysodd y Pennaeth Cyllid yr aelodau trwy'r atodiad a oedd yn manylu ar argymhellion SAC ac ymateb/gweithrediad y Cyngor.

Gwnaed sylwadau gan aelodau parthed Argymhelliad 6 o ran cynhyrchu incwm, sef:

- Bod angen bod yn ofalus na sathrir ar draed y sector breifat;
- Y dylid ystyried y sefyllfa o ran meysydd parcio staff y Cyngor;
- Y dylid edrych ar godi rhyw fath o dal ar feysydd carafanau i gynhyrchu incwm.

Nododd aelod bod angen i adroddiadau archwilio allanol, o ystyried y sefyllfa argyfyngus ariannol presennol, roi cymorth i Awdurdodau Lleol o ran cyfleoedd i ostwng gwariant a chynhyrchu incwm.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed Argymhelliad 9 o ran hyfforddiant i arfogi aelodau er mwyn gwneud y gorau i drigolion Gwynedd, cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y seminarau cyllidebol cynhaliwyd yn ystod Chwefror 2015, cyn nodi os dymunai aelodau hyfforddiant ar rywbeth arall penodol gofynnir iddynt gysylltu â'r Adran Cyllid.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm

CADEIRYDD

| | |
|--------------|--|
| CYFARFOD | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD | 24 Medi 2015 |
| TEITL | Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac Archwiliad perthnasol |
| PWRPAS | Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;• Adroddiadau 'ISA260' Swyddfa Archwilio Cymru;• Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1). |
| ARGYMHELLIAD | Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyrau. |
| AWDUR | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |

1. CYFRIFON 2014/15

Bydd aelodau yn cofio cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon 2014/15 (cyn archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio ar 16 Gorffennaf 2015, pryd bu craffu priodol.

2. ARCHWILIAD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiadau 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2014/15

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2014/15. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u amlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer:
 - Cyngor Gwynedd
 - Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2014/15 (ôl- archwiliad)

5. LLYTHYRAU CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyrau Cynrychiolaeth wedi'u hardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, ac wedi i Swyddfa Archwilio Cymru ddatrys y gwrthwynebiad gan aelod o'r cyhoedd, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

Mae'r dudalen yma wedi ei gadael yn fwriadol wag

**DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2014/15**

MYNEGAI

| | Tudalen |
|--|----------------|
| Rhagymadrodd Eglurhaol | 2 - 6 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 7 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 8 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 9 |
| Y Fantolen | 10 |
| Datganiad Llif Arian | 11 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 12 – 73 |
| Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r Nodiadau | 74 – 104 |
| Adroddiad yr Archwilwyr – Cyngor Gwynedd | 105 – 106 |
| Atodiad A – Dadansoddiad Cyfrif Incwm a Gwariant | 107 – 108 |
| Atodiad B – Y Gronfa Degwm | 109 |
| Atodiad C – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 110 |
| Atodiad Ch – Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 111 – 126 |

RHAGYMDRODD EGLURHAOL

RHAGARWEINIAD

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2014/15 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 108.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw y Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol derbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Y Fantolen** - sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2015.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2014/15 at ddibenion refeniw a chyfalfaf.
- **Cyfrifon a Mantolen Cronfa Bensiwn Gwynedd.**
- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

GWARIANT REFENIW YN 2014/15

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant referniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £350m yn ystod 2014/15, gyda'r sefyllfa net yn £227m.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2014/15 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2015. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet danwariant net gwasanaethau o £447k i'w cario drosodd am y flwyddyn.

TABL I - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl I yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | Cyllideb | Gwir | Gwahaniaeth |
|--|-----------------|--------------|--------------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant Net ar Weithgareddau | 243,061 | 243,049 | (12) |
| Swm Adrannol i'w gario drosodd ar ddiwedd blwyddyn | 0 | 447 | 447 |
| | 243,061 | 243,496 | 435 |
| Ariannwyd gan - | | | |
| Incwm y Dreth Cyngor | (68,090) | (68,525) | (435) |
| Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol | (38,991) | (38,991) | 0 |
| Grantiau Llywodraeth Cyffredinol | (135,980) | (135,980) | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |

- Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 a 9 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o’r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a’r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i’r fformat Incwm a Gwariant sydd yn adlewyrchu y Strwythur Rheolaethol Adrannol.

| Adran | Adroddiad | Addasiad | Datganiad |
|--|-------------|--------------|------------------|
| | Perfformiad | Trawsddodiad | Incwm a Gwariant |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 31 | 0 | 31 |
| Addysg | 92,758 | (345) | 92,413 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Chanolbarth Cymru | 16 | (86) | (70) |
| Cyllid | 1,360 | 87 | 1,447 |
| Economi a Chymuned | 14,118 | (439) | 13,679 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 50,940 | 50 | 50,990 |
| Plant a Theuluoedd | 14,353 | (100) | 14,253 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 26,816 | (1,645) | 25,171 |
| Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 11,760 | 120 | 11,880 |
| Strategol a Gwella | 730 | 11 | 741 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 1,236 | (10) | 1,226 |
| Tim Rheoli Corfforaethol | 621 | 0 | 621 |
| Corfforaethol | 14,262 | 448 | 14,710 |
| Cronfeydd | 281 | 0 | 281 |
| Cost Gwasanaethau | 229,282 | (1,909) | 227,373 |
| Erail (Yn cynnwys addasiad Canolog a Chorfforaethol) | 14,214 | 1,909 | 16,123 |
| Cyfanswm | 243,496 | 0 | 243,496 |

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ag o reserfau a'r addasiadau angenrheidiol yn ymwneud ag yswiriant.

- Gweler dadansoddiad fformat safonol llawn Incwm a Gwariant ar dudalen 9.
- Gweler dadansoddiad llawn o symiau adroddwyd ar gyfer penderfyniadau dyrannu adnoddau yn Nodyn 28, tudalen 52.
- Gweler dadansoddiad ar sail Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) yn Atodiad A.
- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- Newid o £74m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net, yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actwari Cyngor Gwynedd (Nodyn 24).
- Cynnydd net o £28m yn dilyn ailbrisiad llawn o Dir ac Adeiladau'r Cyngor ar 1 Ebrill 2014 (Nodyn 15 & 24).
- Lleihad o £11m yng ngwerth amhariad asedau, cysylltiedig â lefel y gwariant at gynlluniau cyfalaf yn 2014/15 o'i gymharu â 2013/14 (Nodyn 15).

- **Effaith yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol**

Bu problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol fyd-eang yn y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Awdurdod gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o falansau a reserfau.

GWARIANT CYFALAF YN 2014/15

Yn 2014/15 gwariodd y Cyngor £32.4m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

| CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU | |
|--|----------------|
| 2013/14 | 2014/15 |
| £'000 | £'000 |
| 35 Adnoddau Dynol | 3 |
| 8,630 Addysg | 4,905 |
| 38 Cyllid | 788 |
| 5,199 Economi a Chymuned | 4,746 |
| 8,536 Gofal Cwsmer | 0 |
| 3,377 Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | 0 |
| 0 Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,355 |
| 8,690 Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,164 |
| 6,360 Rheoleiddio | 10,993 |
| 14 Strategol a Gwella | 0 |
| 582 Ymgynghoriaeth Gwynedd | 464 |
| 41,461 | 32,418 |
| ARIANNWYD GAN - | |
| 10,664 Benthyciadau | 8,594 |
| 18,904 Grantiau a Chyfraniadau | 15,520 |
| 1,377 Derbyniadau Cyfalaf | 1,873 |
| 10,516 Refeniw a Chronfeydd Eraill | 6,431 |
| 41,461 | 32,418 |

Bu newidiadau i strwythur Adrannau rhwng 2013/14 a 2014/15, ac felly o ganlyniad bu newid i ddadansoddiad ffigyrau cymharol er mwyn adlewyrchu'r Adrannau cyfredol

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £4,832,784 yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwariant ar Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu oedd £27,427,780 fel a ddangosir yn Nodyn 15 a 20 ar dudalennau 33 i 35 a 45.
- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2015 yn £112m – gostyngiad o £1.1m (o £113.1m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £1.18m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol o £6.3m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £12.3m, reserfau eraill a glustnodwyd o £48.6m a balansau ysgolion o £3.5m. Cyfanswm y rhain oedd £70.7m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau'r Gronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cyngor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £77m i £248.7m yn 2014/15. Gweler Nodyn 40 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn cael ar y Gronfa Bensiwn.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dengys cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (tudalennau 74 i 104) gynnydd yn ystod y flwyddyn o £187.8m ar werth y farchnad yn asedau net y Gronfa i £1,497.4m. Roedd gwerth llyfr yr Asedau net ar 31 Mawrth 2015 yn £1,077.7m (2014: £994.4m).

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon ar dudalen 12.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Nid oedd yna unrhyw newidiadau sylweddol i bolisiau cyfrifeg yn ystod 2014/15.

GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.gov.uk.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol
01286 679133

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB YR AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw. Cyfrifoldeb yr awdurdod hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

24 Medi 2015

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côt Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd a'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2015, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



16 Medi 2015

Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiady' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas gosod treth y cyngor a rhenti. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyngor.

| Nodyn | Balans Cronfa Gyffredinol £'000 | Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm Balansau Ysgolion £'000 | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000 | Cyfanswm Reserfau Defnyddiady £'000 | Reserfau na ellir eu defnyddio £'000 | Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod £'000 |
|--|------------------------------------|--|-------------------------------------|-----------------------------|-------------------------------------|--|--|---|---------------------------------------|
| Balans 31 Mawrth 2013 a ddygwyd ymlaen | (8,051) | (49,894) | (3,813) | (1,727) | (2,240) | (1,890) | (67,615) | (35,236) | (102,851) |
| Symudiad mewn reserfau yn 2013/14 | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 1,419 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,419 | 0 | 1,419 |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (1,679) | (1,679) |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 1,419 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,419 | (1,679) | (260) |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | 9 62 | 0 | 0 | 0 | (167) | (2,363) | (2,468) | 2,468 | 0 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd | 1,481 | 0 | 0 | 0 | (167) | (2,363) | (1,049) | 789 | (260) |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | 10 (1,832) | 69 | 36 | 1,727 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn 2013/14 | (351) | 69 | 36 | 1,727 | (167) | (2,363) | (1,049) | 789 | (260) |
| Balans 31 Mawrth 2014 a ddygwyd ymlaen | (8,402) | (49,825) | (3,777) | 0 | (2,407) | (4,253) | (68,664) | (34,447) | (103,111) |
| Symudiad mewn reserfau yn 2014/15 | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 3,964 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,964 | 0 | 3,964 |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 47,154 | 47,154 |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 3,964 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,964 | 47,154 | 51,118 |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | 9 (382) | 0 | 0 | 0 | (321) | 1,676 | 973 | (973) | 0 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd | 3,582 | 0 | 0 | 0 | (321) | 1,676 | 4,937 | 46,181 | 51,118 |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | 10 (1,530) | 1,249 | 281 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn 2014/15 | 2,052 | 1,249 | 281 | 0 | (321) | 1,676 | 4,937 | 46,181 | 51,118 |
| Balans 31 Mawrth 2015 a ddygwyd ymlaen | (6,350) | (48,576) | (3,496) | 0 | (2,728) | (2,577) | (63,727) | 11,734 | (51,993) |

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2014/15

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

| 2013/14 | | | 2014/15 | | | | |
|----------------|------------------|----------------|--|-------|----------------|------------------|----------------|
| Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | | Nodyn | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| £'000 | £'000 | £'000 | | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 17,598 | (7,203) | 10,395 | Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig | | 17,682 | (7,474) | 10,208 |
| 28,711 | (10,501) | 18,210 | Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddio | | 26,688 | (9,372) | 17,316 |
| 16,245 | (11,660) | 4,585 | Gwasanaethau Cynllunio | | 10,531 | (5,486) | 5,045 |
| 125,423 | (22,033) | 103,390 | Gwasanaethau Plant ac Addysg - Addysg | | 112,039 | (19,358) | 92,681 |
| 18,050 | (2,412) | 15,638 | Gwasanaethau Plant ac Addysg - Gofal Cymdeithasol Plant | | 21,550 | (4,944) | 16,606 |
| 28,817 | (10,980) | 17,837 | Priffyrdd, Ffyrdd a Thrafnidiaeth | | 32,912 | (14,325) | 18,587 |
| 43,063 | (38,123) | 4,940 | Gwasanaethau Tai (Cronfa'r Cyngor) | | 42,982 | (38,325) | 4,657 |
| 61,650 | (15,399) | 46,251 | Gofal Cymdeithasol Oedolion | | 62,671 | (16,907) | 45,764 |
| 12,096 | (2,311) | 9,785 | Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd | | 12,698 | (1,709) | 10,989 |
| 8,433 | (3,865) | 4,568 | Corfforaethol a Democraidaidd Craidd | | 9,136 | (4,279) | 4,857 |
| 308 | 0 | 308 | Costau Heb eu Dosrannu | | 663 | 0 | 663 |
| 360,394 | (124,487) | 235,907 | Cost Gwasanaethau | | 349,552 | (122,179) | 227,373 |
| 19,144 | (288) | 18,856 | Gwariant Gweithredol Arall | 11 | 19,842 | 0 | 19,842 |
| 14,238 | (651) | 13,587 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 12 | 13,960 | (474) | 13,486 |
| 0 | (266,931) | (266,931) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 13 | 0 | (256,737) | (256,737) |
| 393,776 | (392,357) | 1,419 | (Gwarged)/Diffyg ar ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | | 383,354 | (379,390) | 3,964 |
| | | 1,429 | (Gwarged)/Diffyg yn deillio o Ailbrisio Asedau Sefydlog | 24 | | | (23,518) |
| | | 0 | (Gwarged)/Diffyg ar yn deilio o Ailbrisio Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 24 | | | (25) |
| | | (3,108) | Ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net | 24 | | | 70,697 |
| | | (1,679) | Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | | | 47,154 |
| | | (260) | Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | 51,118 |

Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2015

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan yr awdurdod. Adroddir ar y reserfau mewn dau categori. Y categori cyntaf o reserfau yw reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail categori o reserfau yw'r rhai hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbriso), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifeg a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| 31 Mawrth 2014 | Nodyn | 31 Mawrth 2015 |
|---------------------------|---|---------------------------|
| £'000 | | £'000 |
| 378,869 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | 412,453 |
| 111 | Asedau Treftadaeth | 110 |
| 100 | Eiddo Buddsoddi | 247 |
| 2,526 | Asedau Gweddilliol | 2,644 |
| 77 | Buddsoddiadau Tymor Hir | 1,190 |
| 4,449 | Dyledwyr Tymor Hir | 4,862 |
| 386,132 | Asedau Tymor Hir | 421,506 |
| 27,083 | Buddsoddiadau Tymor Byr | 37,236 |
| 2,488 | Asedau ar gael i'w Gwerthu | 1,040 |
| 1,455 | Stoc | 1,467 |
| 52,134 | Dyledwyr Tymor Byr | 42,357 |
| 20,886 | Arian a Chyfwertioedd Arian | 18,480 |
| 104,046 | Asedau Cyfredol | 100,580 |
| (19,496) | Gorddrafft Banc | (21,397) |
| (1,884) | Benthyciadau Tymor Byr | (904) |
| (63,291) | Credydwyr Tymor Byr | (66,353) |
| (479) | Darpariaethau Tymor Byr | (2,954) |
| (1,775) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw | (2,881) |
| (86,925) | Ymrwymiadau Cyfredol | (94,489) |
| (100) | Credydwyr Tymor Hir | (49) |
| (10,824) | Darpariaethau Tymor Hir | (9,350) |
| (111,215) | Benthyciadau Tymor Hir | (111,108) |
| (171,689) | Ymrwymiad Pensiwn Net | (248,721) |
| (2,372) | Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol | (2,253) |
| (3,942) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw | (4,123) |
| (300,142) | Ymrwymiadau Tymor Hir | (375,604) |
| 103,111 | Asedau Net | 51,993 |
| (68,664) | Reserfau Defnyddiadwy | (63,727) |
| (34,447) | Reserfau na ellir eu defnyddio | 11,734 |
| (103,111) | Cyfanswm Reserfau | (51,993) |

DATGANIAD LLIF ARIAN – 2014/15

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

| 2013/14 £'000 | | Nodyn | 2014/15 £'000 |
|------------------|--|-----------|------------------|
| 1,419 | (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | 3,964 |
| (32,017) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | 25a | (48,235) |
| 1,514 | Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | 25b | 2,190 |
| (29,084) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (42,081) |
| 28,063 | Gweithgareddau Buddsoddi | 26 | 45,188 |
| 935 | Gweithgareddau Ariannu | 27 | 1,200 |
| (86) | (Cynnydd) / Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian | | 4,307 |
| (1,304) | Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 19 | (1,390) |
| (1,390) | Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 19 | 2,917 |

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2014/15 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2015. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014/15* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2014/15*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2014.

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y referniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a pan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd referniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau yn ogystal â llog fydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol i'r erfyn cyllidol perthnasol yn hytrach nac i'r llif arian sydd wedi eu sefydlogi neu wedi'i bennu gan y cytundeb.
- Ble mae referniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif referniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyferthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cyferthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chyferthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

I.4 Ymrwymadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon.

I.5 Corfforaethol a Democrataidd Craidd

Mae'r pennawd Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys eitemau sydd yn berthnasol i'r Gynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth a Rheolaeth Corfforaethol. Mae'r Gynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth yn

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

cynnwys ffurfio polisiau corfforaethol a gweithgareddau aelodau tra mae Rheolaeth Corfforaethol yn cynnwys costau sydd yn gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod.

1.6 Buddiannau Gweithwyr

1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Awdurdod. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cronriad yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad Symudiadau mewn Reserfau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronriad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Costau Heb eu Dosrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all yr Awdurdod dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Awdurdod yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi yn eu lle y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymf-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Awdurdod. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar sail actiwaiaid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 3.2% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar y buddion diffiniedig/(asedau) net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydu a'r debydu damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydu am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Gronfa Bensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Adrodd Rhyngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gyngorau lleol yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion IAS19.

1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.9 Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Felly, mae'r term offeryn ariannol yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol.

Mewn cydymffurfriad gyda'r gofynion adolygwyd asedau ac ymrwymadau ariannol y Cyngor er mwyn eu categoreiddio a phenderfynu ar y driniaeth gywir. Adnabuwyd yr offerynnau canlynol wrth wneud yr adolygiad hwn:

Ymrwymadau ariannol

- Credydwy'r masnachol a chredydwy'r eraill.
- Benthyciadau tymor hir gan gynnwys premiymau a disgowntiau ar setliad cynnar benthyciadau sydd wedi eu gohirio.
- Gwarantau ariannol.

Asedau ariannol

- Adnau banc
- Dyledwy'r masnachol
- Benthyciadau derbyniadwy
- Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn prasio ei ymrwymadau ariannol ar gost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cyfrifir llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Oherwydd bod benthyciadau tymor hir y Cyngor i gyd ar gyfraddau sefydlog, telir y llog cronedig am y flwyddyn.

Mae enillion neu golledion sydd yn codi ar ad-daliad cynnar yn cael eu trin fel eu bod yn diddymu'r ymrwymiad ariannol oni bai eu bod yn cwrdd ag amodau caeth lle bo modd trin y trafodyn fel addasiad o amodau'r benthyciad presennol ac addasu gwerth y benthyciad newydd gydag unrhyw enillion neu golledion.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Dosbarthir mwyafrif asedau ariannol y Cyngor fel benthyciadau neu ddyledwyr ac felly eu prisio ar sail cost wedi ei amortieiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categorieiddio fel cywerthyddion arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthydd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

Mesurir Credydwyr a Dyledwyr tymor byr sydd heb gyfradd llog datganedig ar sail swm yr anfoneb wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddyledwyr a chredydwyr masnachol.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ariannu a Chyfrifo am Gyfalaf) (Cymru) (Diwygiedig) 2007 yn caniatáu i effaith ailddatgan offerynnau ariannol gael ei addasu trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau. Caiff yr addasiadau canlyniadol eu dangos yn y Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol a'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen. Mae'r addasiad a ganiateir o dan statud yn golygu bod yr effaith net ar falansau'r Cyngor yn gyfatebol i'r trosglwyddiad o dan y polisi yma.

1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail cronïadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r awdurdod wedi ei fodloni.

Oherwydd y gofyn i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r awdurdod yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.11 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Llundiau a Phaentiadau
- Teyrnlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Oriolau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Cyflogodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de-minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.12 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y fantolen ar sail yr isaf o gost neu wir werth, yn unol â darpariaethau'r Côt Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost cyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

1.13 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

1.14 Prydlesau

Caiff prydlesau eu hystyried yn brydlesi cyllidol pan fo telerau trosglwyddiad y brydles a'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu hystyried yn brydlesi gweithredol.

Yr Awdurdod fel Prydlesai:

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisiau arferol, a chaiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

Yr Awdurdod fel Prydleswr:

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod unrhyw Brydlesi Cyllidol ble mae'r Awdurdod yn brydleswr.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

1.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol yr Awdurdod eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol.

1.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

Yr unig gostau a adewir heb eu dyrannu yw costau rheolaeth corfforaethol a chostau cefnogol nad oes rhaid eu dosrannu yn ôl darpariaethau'r Côt Ymarfer. Mae'r dosraniad yn cydymffurfio gyda'r Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2014/15.

1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob 5 mlynedd. Mae hyn yn unol â'r Côt a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r gwerthusiad cyflawn diwethaf yn effeithiol o'r 1af Ebrill 2014.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (DRC) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol (a ddibrisiwyd) ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar bris hanesyddol.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisiau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer tir ac adeiladau gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

Amhariad a Dibrisiant

Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Adrodd Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu eu hasedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd positif ar gyfer pris ased o fewn y Reserf Ailbrisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronodig)
- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbrisio neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Prif elfen IAS 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o eiddo, offer a chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. (£1.83m yw'r trothwy ar gyfer 2014/15, sef 1% o werth yr holl adeiladau). Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de-minimus ydi:

- a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianeg, ac
- b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (DRC), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol byr e.e. boileri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianeg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

- (i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifedig (3 – 15 mlynedd)
- (ii) Dibrisir Is-adeiladwaith dros 40 mlynedd
- (iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
- (iv) Ni ddibrisir Tir
- (v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddiol gweddilliol amcangyfrifedig (5 – 80 mlynedd)
- (vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg)(Cymru)(fel y'i diwygiwyd) 2008 [OS 2008/588 (W.59)] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn MRP sydd ar gael:

- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull CFR
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

MRP yn 2014/15: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Non-HRA) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad MRP i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2014/15. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr MRP yng nghyswllt lesau a chynlluniau PFI a brynwyd ar y Fantolen dan y Côt Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar yr IFRS yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Côt Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddsbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

1.18 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth yn unol â Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2014/15. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu Dosrannau ac yn cynnwys cost buddiannau dewisol ddyfarnwyd i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad ar asedau ar gael i'w gwerthu.

1.19 Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.20 Reserfau (a Balansau)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cyngor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") yr Awdurdod, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.
- Nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r Strategaeth Ariannol tymor canol, bydd y Cyngor

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a chronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.

- Cedwir rhai reserfau eraill sef 'Reserfau na ellir eu defnyddio' i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy yr Awdurdod.

1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae Deddfwriaeth yn caniatáu peth gwariant i gael ei gategoreiddio fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw yn creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y fantolen ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.22 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

1.23 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifwaith. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.24 Dyrannu Llog Derbyniadwy

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at ddwy flynedd a thelir y llog i Gronfa Gyffredinol y Sir, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

1.25 Costau Benthycia

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthycia sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côt.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Yng nghyfrifon yr Awdurdod, caiff buddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill eu hadrodd fel asedau ariannol ar gost gwreiddiol, llai unrhyw ddarpariaeth am golledion.

1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar yr isaf o'i werth i'w gario neu werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth aiddosbarthu.

1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi eu recordio ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir Asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

1.30 Cyfrifo am gostau'r Cynllun Ymrwymiad i Ostwng Carbon

Mae'r awdurdod yn rhan o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Ostwng Carbon (CRC). Mae'n ofynnol i awdurdodau sy'n rhan o'r cynllun bwrcasu ac ildio lwfansau, wedi'r digwyddiad ar hyn o bryd, ar sail allyriadau h.y. cynhyrchiad carbon deuocsid wrth ddefnyddio ynni. Roedd Cyngor Gwynedd yn is na'r trothwy perthnasol yn 2014/15.

1.31 Costau'n ymwneud â Hawliadau Cyflogau Anghyfartal

Mae darpariaeth wedi ei gynnwys yng Nghyfrifon yr Awdurdod yn ymwneud â chostau Hawliadau Tâl Cyfartal ac yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gost debygol ar 31 Mawrth 2015.

1.32 Cynllun Lwfans Tirlenwi

Mae'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi yn gweithredu o dan Reoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Clustnodir lwfans blynyddol i Awdurdodau Lleol o'r uchafswm o wastraff prydadwy bwrdeistrefol y gellir ei anfon i'w dirlenwi. Am bob tunnell o wastraff prydadwy bwrdeistrefol a anfonir i'w dirlenwi sy'n uwch na'r lwfans, gall yr Awdurdod Lleol fod yn agored i ddirwy o £200 y dunnell. Nid yw'n gynllun "cap and trade" gan nad yw'r lwfansau tirlenwi yn fasnachadwy yng Nghymru. Am y rheswm yma, nid yw lwfansau tirlenwi yn cael eu cydnabod fel ased ar y Fantolen. Roedd Cyngor Gwynedd o fewn ei lwfans tirlenwi yn 2014/15.

1.33 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Cynlluniau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth i'r Awdurdod dan gyfrifoldeb y contractwr PFI am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Awdurdod yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

1.34 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli ac Asedau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr asedau mae'n ei reoli ynghyd â'r ymrwymadau ar ei Fantolen, gan ddebydu a chredydu'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r gwariant a ddiodefir a'r gyfran incwm a enillir o weithgaredd y gweithrediad.

Mae asedau wedi eu cyd-reoli yn eitemau o eiddo, offer a chyfarpar a reolir ar y cyd gan yr Awdurdod a mentrwyr eraill. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cyfrifo am ei gyfran ef yn unig o'r asedau a gyd-reolir, yr ymrwymadau a'r costau a gyfyd ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill mewn perthynas â buddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a enillir o'r fenter.

1.35 Polisiau Eraill

Mae gan Cyngor Gwynedd bolisiau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15:

- Asedau Anniriaethol
- Asedau Dibynnol
- Trosiad Arian Tramor.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Nid oes unrhyw newidiadau i'r polisiau cyfrifo yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2014/15.

NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2014/15 wedi cyflwyno nifer o newidiadau i bolisiau cyfrifeg a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2015. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

SAARh 13 Mesuriad Gwerth Teg

Mae'r safon hwn yn rhoi diffiniad cyson o werth teg a gofynion datgeliad manwl. Bydd mabwysiadu'r safon hwn yn gofyn i asedau gweddilliol (asedau nad ydynt yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu fel naill ai eiddo buddsoddi neu asedau anghyfredol ar gael i'w gwerthu) gael eu hailbriso i werth y farchnad yn hytrach na'u gwerth defnydd presennol. Mae asedau gweithredol eiddo, offer a chyfarpar tu allan i gwmpas SAARh 13.

PDAARh 21 Lefiau

Mae'r safon hwn yn rhoi arweiniad ar lefiau a osodir gan y llywodraeth yn natganiadau ariannol yr endidau sy'n talu'r lefi. Mae'r PDAARh yn nodi'r digwyddiad anochel fel y weithgaredd sy'n sbarduno amseriad talu'r lefi. Gall y swm sy'n daladwy fod yn seiliedig ar wybodaeth sy'n ymwneud â chyfnod cyn bod y rhwymedigaeth i dalu yn codi, neu bod y lefi ond yn daladwy os cyrhaeddir y trothwy, neu'r ddau.

Gwelliannau Blynyddol i SAARh Cylch 2011-2013 – gwelliannau mân yw rhain, yn bennaf yn profi eglurhad.

Mae'n annhebygol y bydd y newidiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar Ddatganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd.

NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau yr asedau ac ymrwymadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafuniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiad proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbriso, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiau yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR (parhad)

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2015 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifeg a chysylltiedig. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynghorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac adeiladau yn cael eu hailbriso o leiaf bob 5 mlynedd, ac mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbriso ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt. Lle bo angen, bydd unrhyw oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15.
- **Darpariaethau** - Mae nifer o ddarpariaethau gwahanol, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, yn gynnwysedig yn y cyfrifon. Gweler Nodyn 22 am y manylion, gan gynnwys darpariaeth am eitemau megis Adolygiad Tâl, Safleoedd Tirlenwi ac ymrwymiad yswiriant. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu.
- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r gronfa pensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actwari'r Cyngor. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 39 a 40.
- **Amhariad Dyledion Drwg** – Mae lefel o amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon sydd yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd, ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o Incwm a Gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- Newid o £74m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net, yn y maes pensiwnau, yn unol ag asesiad Actwari Cronfa Pensiwn Gwynedd (Nodyn 24).
- Cynnydd net o £28m yn dilyn ailbrisiad llawn o Dir ac Adeiladau'r Cyngor ar 1 Ebrill 2014 (Nodyn 15 & 24).
- Lleihad o £11m yng ngwerth amhariad asedau, cysylltiedig â lefel y gwariant at gynlluniau cyfalaf yn 2014/15 o'i gymharu â 2013/14 (Nodyn 15).

NODYN 8 – DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen.

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| 2014/15 | Reserfau Defnyddiadwy | | | |
|---|------------------------------------|-------------------------------------|--|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol £'000 | Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000 | Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio £'000 |
| ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU | | | | |
| Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf: | | | | |
| <u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u> | | | | |
| Dibrisiant ac amhariad asedau tymor hir | (16,564) | 0 | 0 | 16,564 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio | 13,990 | 0 | 1,676 | (15,666) |
| Gwariant refeniw wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud | (4,833) | 0 | 0 | 4,833 |
| Swm yr asedau tymor hir wedi eu hysgrifennu i ffwrdd wrth waredu neu gwerthu fel rhan o'r cynnydd/ golled wrth werthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (229) | 0 | 0 | 229 |
| <u>Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na chredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u> | | | | |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,692 | 0 | 0 | (5,692) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 1,454 | 0 | 0 | (1,454) |
| Gwariant cyfalaf wedi ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT | 6,430 | 0 | 0 | (6,430) |
| Addasiadau yn ymwneud â'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf: | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 2 | (2,192) | 0 | 2,190 |
| Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu ad-dalu dyled | 0 | 1,873 | 0 | (1,873) |
| Ad-dalu dyled Prifswm | 0 | (2) | 0 | 2 |
| Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol: | | | | |
| Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 64 | 0 | 0 | (64) |
| Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn: | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 40) | (26,533) | 0 | 0 | 26,533 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 20,198 | 0 | 0 | (20,198) |
| Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig: | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (53) | 0 | 0 | 53 |
| Cyfanswm Addasiadau | (382) | (321) | 1,676 | (973) |

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU (parhad)

| 2013/14 | Reserfau Defnyddiadwy | | | |
|--|------------------------------------|-------------------------------------|--|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol £'000 | Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000 | Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio £'000 |
| ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU | | | | |
| Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf: | | | | |
| <u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u> | | | | |
| Dibrisiant ac amhariad asedau tymor hir | (25,426) | 0 | 0 | 25,426 |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi eu defnyddio | 21,352 | 0 | (2,363) | (18,989) |
| Gwariant refeniw wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud | (6,222) | 0 | 0 | 6,222 |
| Swm yr asedau tymor hir wedi eu hysgrifennu i ffwrdd wrth waredu neu gwerthu fel rhan o'r cynnydd/ golled wrth werthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 288 | 0 | 0 | (288) |
| <u>Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na chredydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u> | | | | |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,731 | 0 | 0 | (5,731) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 966 | 0 | 0 | (966) |
| Gwariant cyfalaf wedi ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT | 10,516 | 0 | 0 | (10,516) |
| Addasiadau yn ymwneud â'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf: | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 28 | (1,542) | 0 | 1,514 |
| Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu ad-dalu dyled | 0 | 1,377 | 0 | (1,377) |
| Cyfraniad o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau tymor hir | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu dyled Prifswm | 0 | (2) | 0 | 2 |
| Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol: | | | | |
| Swm ble mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 11 | 0 | 0 | (11) |
| Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn: | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 40) | (26,345) | 0 | 0 | 26,345 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 19,727 | 0 | 0 | (19,727) |
| Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig: | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (564) | 0 | 0 | 564 |
| Cyfanswm Addasiadau | 62 | (167) | (2,363) | 2,468 |

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

Balansau Ysgolion

Cynrychiolai'r swm yma yr elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

| 2014/15 | Balans | Trosglwyddiadau | | | Balans |
|-------------------|-------------------------------|-----------------------------|---------------|----------------|-------------------------------|
| | 31 Mawrth 2014 £'000 | rhwng cronfeydd £'000 | mewn £'000 | allan £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 |
| Balansau Ysgolion | 3,777 | 0 | 994 | (1,275) | 3,496 |
| Cyfanswm | 3,777 | 0 | 994 | (1,275) | 3,496 |

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2014/15.

NODYN 10 – TROSLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

Reserfau a Glustnodwyd

| 2014-15 | Balans | Trosglwyddiadau | | | Balans |
|---|---------------|-----------------|---------------|-----------------|---------------|
| | 31 | rhwng | | | 31 |
| | Mawrth | cronfeydd | mewn | allan | Mawrth |
| | 2014 | | | | 2015 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Reserfau Adnewyddu | 2,184 | 0 | 3,071 | (2,471) | 2,784 |
| Reserfau Cyfalaf | 10,064 | (88) | 1,783 | (749) | 11,010 |
| Reserfau Yswiriant | 3,463 | (1,348) | 789 | (846) | 2,058 |
| Cronfa Gwasanaethau | 4,973 | (1,571) | 1,838 | (960) | 4,280 |
| Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant | 1,111 | 0 | 0 | (313) | 798 |
| Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion | 2,434 | 2,928 | 60 | (1,141) | 4,281 |
| Hyfforddiant Canolog | 612 | (45) | 0 | (164) | 403 |
| Reserf Canolfan Gyswilt | 34 | 0 | 0 | (15) | 19 |
| Reserfau Gwasanaethau Addysg | 1,125 | 0 | 495 | (416) | 1,204 |
| Reserfau Economi a Chymuned | 138 | (55) | 21 | (9) | 95 |
| Reserfau Prifffyrdd a Bwrdeistrefol | 2,159 | (900) | 250 | (34) | 1,475 |
| Reserf Datblygiadau Gwastraff | 272 | 0 | 0 | (122) | 150 |
| Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd | 401 | 0 | 0 | (16) | 385 |
| Reserfau Rheoleiddio | 876 | (103) | 84 | (99) | 758 |
| Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol | 120 | 0 | 120 | (120) | 120 |
| Reserfau Eraill Gofal | 102 | 100 | 74 | (10) | 266 |
| Cronfa Ffordd Gwynedd | 244 | 0 | 54 | 0 | 298 |
| Cronfa Buddsoddi i Arbed | 2,534 | (2,569) | 166 | (131) | 0 |
| Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon | 1,145 | 0 | 14 | (590) | 569 |
| Cronfa Trawsffurfio | 7,185 | (6,146) | 154 | (1,193) | 0 |
| Cronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed | 0 | 11,371 | 0 | 0 | 11,371 |
| Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu ymrwymo | 311 | 0 | 140 | (158) | 293 |
| Cronfa Cyfalaf i Wireddu Arbedion | 209 | (209) | 0 | 0 | 0 |
| Reserf Tendro Contractau | 674 | 0 | 0 | (157) | 517 |
| Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai | 744 | 0 | 0 | (63) | 681 |
| Gwarant Amgylcheddol Tai | 480 | 0 | 0 | 0 | 480 |
| Cronfa Rhaglen Arbedion | 946 | (946) | 0 | 0 | 0 |
| Reserfau Technoleg Gwybodaeth | 374 | 0 | 41 | (321) | 94 |
| Cronfa Adfer | 346 | (250) | 0 | (96) | 0 |
| Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop | 150 | 0 | 0 | 0 | 150 |
| Cronfa Diffyg Pensiwn (Cyn Cyfrif Refeniw Tai) | 1,727 | 0 | 0 | 0 | 1,727 |
| Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol 2014/15 | 579 | (579) | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Maes Lles | 444 | (244) | 452 | 0 | 652 |
| Cronfa EDRMS | 288 | 0 | 0 | (96) | 192 |
| Trefniadau Partneriaethu | 0 | 514 | 360 | (176) | 698 |
| Amrywiol Reserfau Eraill | 1,377 | 140 | 764 | (1,513) | 768 |
| Cyfanswm | 49,825 | 0 | 10,730 | (11,979) | 48,576 |

Mae'r ffigyrau uchod yn adlewyrchu'r balansau terfynol a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2015, ond ddim yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

NODYN 10 – TROSLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- (i) Mae'r Reserf Adnewyddu yn cael ei ddefnyddio gan amrywiol adrannau o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.
- (ii) Mae'r Reserf Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i ariannu rhan o Raglen Gyfalaf y Cyngor.
- (iii) Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserf Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Gyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- (iv) Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl gan adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.
- (v) Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.
- (vi) Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.
- (vii) Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor.
- (viii) Reserf y Ganolfan Gyswllt - symiau a roddwyd o'r neilltu ar gyfer datblygu'r Ganolfan Gyswllt.
- (ix) Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol perthnasol efo gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.
- (x) Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.
- (xi) Mae Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn bennaf yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad (equalisation accounts) a gofynion tebygol contractau.
- (xii) Cronfa ar gyfer datblygiadau ac ymrwymadau perthnasol i'r maes gwastraff yw'r Reserf Datblygiadau Gwastraff gan gynnwys ein hymrwymiad i Bartneriaeth Gwastraff Gogledd Cymru.
- (xiii) Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd – cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant anwastad efo rhai gweithiau ynghyd â gofynion cyflogaeth posib yn dilyn newidiadau i raglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
- (xiv) Reserfau Rheoleiddio - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf a ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol.
- (xv) Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol – i gyfrannu tuag at gost gweithiau cynnal mawr ar ffyrdd sirol.
- (xvi) Reserfau Eraill Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.
- (xvii) Cronfa Ffordd Gwynedd - i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes, gwireddu arbedion a chynorthwyo cyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".
- (xviii) Cronfa Buddsoddi i Arbed – darpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol, a bellach yn rhan o'r Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed.

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- (xix) Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – rhannol ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd a chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.
- (xx) Cronfa Trawsffurfio – darpariaeth ar gyfer newid trefniadau mewnol y Cyngor i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac sydd bellach yn rhan o'r Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed.
- (xxi) Cronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed – ar gyfer newid trefniadau mewnol y Cyngor i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.
- (xxii) Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo - cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.
- (xxiii) Cronfa Cyfalaf i wireddu arbedion – darpariaeth ar gyfer cefnogi cynlluniau cyfalaf fyddai'n gwireddu arbedion cyllidol refeniw parhaol ac sydd bellach yn rhan o'r Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed.
- (xxiv) Reserf Tendro Contractau – ar gyfer ymateb i sefyllfaoedd gwariant anwastad o ganlyniad i'r broses tendro am gontractau.
- (xxv) Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai - swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud â threfniadau carthffosiaeth, pibellau dwr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.
- (xxvi) Gwarant Amgylcheddol Tai - neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud a chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.
- (xxvii) Cronfa Rhaglen Arbedion – darpariaeth ariannu strategol i gynorthwyo ac i roddi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Cyngor wrth ystyried y rhaglen arbedion angenrheidiol i'r dyfodol ac sydd bellach yn rhan o'r Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed.
- (xxviii) Reserfau Technoleg Gwybodaeth - cronfa adnewyddu berthnasol i alluogi ymateb i batrymau gwariant anwastad yn y dyfodol.
- (xxix) Cronfa Adfer – darpariaeth tuag at gost gwaith adfer yn dilyn difrod llifogydd i ffyrdd, pontydd, a.y.y.b..
- (xxx) Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop – darpariaeth tuag at gost rhagbaratoi achosion busnes i ddenu ffynonellau ariannu a grantiau Ewrop.
- (xxxi) Cronfa Diffyg Pensiwn (o'r cyn Gyfrif Refeniw Tai) - darpariaeth a neilltuwyd er mwyn lleihau'r ymrwymiad pensiwn anochel a etifeddwyd wrth drosglwyddo'r stoc tai.
- (xxxii) Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol 2014/15 - cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi'r strategaeth ariannol ar gyfer 2014/15.
- (xxxiii) Cronfa Maes Lles - darpariaeth ar gyfer ymdrin â phatrymau anwastad mewn gofynion perthnasol.
- (xxxiv) Cronfa System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electroneg (EDRMS) - darpariaeth ar gyfer y rhaglen waith perthnasol i bryniant, gweithredu a datblygu system rheoli dogfennau a chofnodion electroneg.
- (xxxv) Trefniadau Partneriaethu - yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.
- (xxxvi) Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymadau eraill.

NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| 2013/14 | | 2014/15 |
|---------------|---|---------------|
| £'000 | | £'000 |
| 1,507 | Praeseptau Cyngorau Cymuned | 1,599 |
| | Lefiau | |
| 10,908 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 11,305 |
| 5,508 | Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 5,588 |
| 1,153 | Parc Cenedlaethol Eryri | 1,053 |
| 68 | Byrddau Draenio Lleol | 68 |
| 17,637 | | 18,014 |
| (288) | (Enillion)/colledion ar waredu asedau anghyfredol | 229 |
| 18,856 | Cyfanswm | 19,842 |

NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| 2013/14 | | 2014/15 |
|---------------|--|---------------|
| £'000 | | £'000 |
| 6,476 | Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 6,591 |
| 7,556 | Llog net ar yr ymrwymadau (asedau) buddion diffiniedig net | 7,369 |
| (445) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (474) |
| 13,587 | Cyfanswm | 13,486 |

NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2013/14 | | Nodyn | 2014/15 |
|------------------|---|-------|------------------|
| £'000 | | | £'000 |
| (66,095) | Incwm Y Dreth Cyngor | 13a | (68,525) |
| (38,209) | Trethi Annomestig | 13b | (38,991) |
| (144,714) | Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi | 33 | (137,255) |
| (17,913) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | 33 | (11,966) |
| (266,931) | Cyfanswm | | (256,737) |

NODYN 13a - Y DRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:-

| CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2014/15 | | | |
|---|--|----------------------------|-------------------------------------|
| Band Priso | Nifer Eiddo Cyfatebol yn dilyn gostyngiadau | Lluosogydd Statudol | Nifer cyfatebol Eiddo Band D |
| A* | 9 | 5/9 | 4.72 |
| A | 7,230 | 6/9 | 4,820.04 |
| B | 13,236 | 7/9 | 10,294.80 |
| C | 10,535 | 8/9 | 9,364.80 |
| D | 9,209 | 1 | 9,209.32 |
| E | 7,315 | 11/9 | 8,940.08 |
| F | 3,560 | 13/9 | 5,142.58 |
| G | 1,165 | 15/9 | 1,940.83 |
| H | 162 | 18/9 | 324.50 |
| I | 54 | 21/9 | 126.00 |
| Cyfanswm | | | 50,167.67 |
| Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu | | | 49,665.99 |

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:-

| 2013/14 | | 2014/15 |
|-----------------|--------------------------------|-----------------|
| £'000 | | £'000 |
| (66,493) | Treth Cyngor a godwyd | (68,873) |
| 398 | Llai Darpariaeth dyledion drwg | 348 |
| (66,095) | | (68,525) |

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i Awdurdodau Lleol ar sail poblogaeth.

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (parhad)

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (47.3c yn 2014/15) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014/15 roedd yna 7,338 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £99,361,487.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:-

| 2013/14 | | 2014/15 |
|----------------|--|-----------------|
| £'000 | | £'000 |
| (34,716) | Trethi Annomestig a godwyd | (35,186) |
| 364 | Lwfans Costau Casglu | 368 |
| 284 | Darpariaeth Dyledion Drwg | 443 |
| 34,068 | Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol | 34,375 |
| 0 | | 0 |
| (38,209) | Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol | (38,991) |
| (38,209) | Incwm net o'r Trethi Annomestig | (38,991) |

NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwyllo ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu elw bychan yn 2014/15 a gweler fod elw cronedig dros gyfnod o 3 blynedd.

| 2014/15 | £'000 |
|---|--------------|
| Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ag eithrio TAW) | (479) |
| Cyfanswm gwariant | 478 |
| (Gweddill) / Diffyg ar gyfer 2014/15 | (1) |
| (Gweddill) / Diffyg ar gyfer 2013/14 | 1 |
| (Gweddill) / Diffyg ar gyfer 2012/13 | (10) |
| (Gweddill) / Diffyg ar gyfer y tair mlynedd diwethaf | (10) |

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Symudiadau ar Falansau

Symudiadau yn 2014/15:

| | Tir ac Adeiladau £'000 | Isadeiladwaith £'000 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedau Gweddilliol £'000 | Asedau heb eu cwbilhau £'000 | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £'000 |
|---|---------------------------|-------------------------|---|---------------------------|-----------------------------|------------------------------------|---|
| Gwerth | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.14 | 277,132 | 175,157 | 37,046 | 995 | 2,624 | 12,516 | 505,470 |
| Ychwanegiadau | 6,963 | 7,137 | 4,428 | 35 | 4 | 9,293 | 27,860 |
| Gwerthiannau | (919) | 0 | (6,548) | 0 | (101) | 0 | (7,568) |
| Trosglwyddiadau | 4,609 | 0 | 0 | 0 | (182) | (4,648) | (221) |
| Ailbriso - i'r Reserf Ailbriso | (20,382) | 0 | 0 | 6 | 302 | 0 | (20,074) |
| Ailbriso - i'r Gwasanaethau | (1,686) | 0 | 0 | 0 | 84 | 0 | (1,602) |
| Balans ar 31.03.15 | 265,717 | 182,294 | 34,926 | 1,036 | 2,731 | 17,161 | 503,865 |
| Dibrisiant | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.14 | 15,236 | 24,901 | 21,922 | 7 | 35 | 2 | 62,103 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 4,516 | 4,555 | 3,050 | 1 | 24 | 0 | 12,146 |
| Gwerthiannau | (36) | 0 | (6,407) | 0 | (3) | 0 | (6,446) |
| Trosglwyddiadau | (2) | 0 | 0 | 0 | (23) | (2) | (27) |
| Ailbriso | (14,305) | 0 | 0 | 0 | (12) | 0 | (14,317) |
| Balans ar 31.03.15 | 5,409 | 29,456 | 18,565 | 8 | 21 | 0 | 53,459 |
| Amhariad | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.14 | 61,536 | 63 | 80 | 230 | 63 | 0 | 61,972 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso | 3,705 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 3,707 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 2,822 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2,824 |
| Gwerthiannau | (197) | 0 | (12) | 0 | (1) | 0 | (210) |
| Trosglwyddiadau | (20) | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 0 |
| Ailbriso | (32,984) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (32,984) |
| Balans ar 31.03.15 | 34,862 | 63 | 68 | 230 | 66 | 20 | 35,309 |
| Gwerth Net 31 Mawrth 2015 | 225,446 | 152,775 | 16,293 | 798 | 2,644 | 17,141 | 415,097 |
| Gwerth Net 31 Mawrth 2014 | 200,360 | 150,193 | 15,044 | 758 | 2,526 | 12,514 | 381,395 |

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2013/14:

| | Tir ac Adeiladau £'000 | Isadeiladwaith £'000 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000 | Asedau Cymunedol £'000 | Asedau Gweddilliol £'000 | Asedau heb eu cwbilhau £'000 | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £'000 |
|---|---------------------------|-------------------------|---|---------------------------|-----------------------------|------------------------------------|---|
| Gwerth | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.13 | 254,200 | 166,267 | 34,077 | 991 | 819 | 12,157 | 468,511 |
| Ychwanegiadau | 15,720 | 8,865 | 4,303 | 4 | 0 | 5,100 | 33,992 |
| Ychwanegiadau - GwyrAD | 4,734 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4,734 |
| Gwerthiannau | (579) | 0 | (1,334) | 0 | 0 | 0 | (1,913) |
| Trosglwyddiadau | 3,280 | 25 | 0 | 0 | 1,805 | (4,741) | 369 |
| Ailbriso | (223) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (223) |
| Balans ar 31.03.14 | 277,132 | 175,157 | 37,046 | 995 | 2,624 | 12,516 | 505,470 |
| Dibrisiant | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.13 | 11,657 | 20,333 | 20,128 | 6 | 27 | 2 | 52,153 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 3,917 | 4,568 | 2,891 | 1 | 8 | 0 | 11,385 |
| Gwerthiannau | (23) | 0 | (1,097) | 0 | 0 | 0 | (1,120) |
| Trosglwyddiadau | (192) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (192) |
| Ailbriso | (123) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (123) |
| Balans ar 31.03.14 | 15,236 | 24,901 | 21,922 | 7 | 35 | 2 | 62,103 |
| Amhariad | | | | | | | |
| Balans ar 1.04.13 | 46,196 | 63 | 200 | 230 | 58 | 0 | 46,747 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso | 1,588 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,588 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 13,450 | 0 | 0 | 0 | 0 | 573 | 14,023 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | (120) | 0 | 0 | 0 | (120) |
| Trosglwyddiadau | 543 | 0 | 0 | 0 | 5 | (573) | (25) |
| Ailbriso | (241) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (241) |
| Balans ar 31.03.14 | 61,536 | 63 | 80 | 230 | 63 | 0 | 61,972 |
| Gwerth Net | 200,360 | 150,193 | 15,044 | 758 | 2,526 | 12,514 | 381,395 |
| 31 Mawrth 2014 | | | | | | | |
| Gwerth Net | 196,347 | 145,871 | 13,749 | 755 | 734 | 12,155 | 369,611 |
| 31 Mawrth 2013 | | | | | | | |

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) Cyngor Gwynedd ar 1 Ebrill 2014 yn unol â'r polisiau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o'r Polisiau Cyfrifo. Gweler y nodyn hwn hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol gategorïau o asedau.

Defnyddir 14 Ysgol Eglwysig gan y gwasanaeth addysg sydd heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Er gwybodaeth, mae'r Ysgol Cae Top newydd ym Mangor yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel ased y Cyngor yn ein cyfrifon, ac nid fel ysgol eglwysig. Mae statws cyfreithiol yr ased yn destun adolygiad cyfreithiol a all effeithio'r driniaeth yn y cyfrifon yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn y rhagymadrodd eglurhaol.

O fewn "Agedau heb eu cwblhau", mae elfen sy'n berthnasol i Bont Briwet. Cyfran Cyngor Gwynedd yn unig o gostau adeiladu y prosiect a adlewyrchir yma (yn seiliedig ar raniad amcangyfrifol o elfennau ffordd a rheilffordd y prosiect. Mae'r rhaniad hwn ar hyn o bryd yn 41% elfen ffyrdd (£2.91m yn 2014/15 a chyfanswm o £6.67m) a 59% elfen rheilffordd).

Ymrwymïadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymïadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2015 fel a ganlyn:

| | Swm | Taliadau | Balans |
|-----------------------------------|--------------|-----------------|---------------|
| | £'000 | hyd yma | £'000 |
| | | £'000 | |
| Ysgol Newydd Hafod Lon | 11,650 | 211 | 11,439 |
| Pont Briwet * | 16,450 | 12,406 | 4,044 |
| Ysgol Bro Lliffon | 3,795 | 1,544 | 2,251 |
| Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru | 4,198 | 2,468 | 1,730 |

* Gan mai Cyngor Gwynedd sydd yn arwain ar y prosiect hwn (ynghyd a Network Rail), mae'r ymrwymïad sydd heb ei dalu a'r ariannu cyfatebol yn adlewyrchu'r gost llawn o'r prosiect ac ddim yn unig elfen Cyngor Gwynedd.

NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2013/14 | 2014/15 |
|--|---------|---------|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 0 | 6 |
| Costau gweithredol uniongyrchol yn deillio o eiddo buddsoddi | 0 | 0 |
| Enillion / (colledion) net | 0 | 6 |

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl yr Awdurdod i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na gwella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| | 2013/14 | 2014/15 |
|--|------------|------------|
| | £'000 | £'000 |
| Balans 1 Ebrill | 824 | 100 |
| Elw / (colled) net o addasiadau gwerth teg | 0 | 16 |
| <u>Trosglwyddiadau:</u> | | |
| i/(o) Eiddo, Offer a Chyfarpar | (724) | 131 |
| Balans 31 Mawrth | 100 | 247 |

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL

(a) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

Ymrwymadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli dyletswydd cytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliadol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- gorddrafft gyda Banc Barclays ccc
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod neu offerynnau eraill neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhannu i'r tri dosbarth a ganlyn:

Benthyciadau a derbyniadau (asedau ariannol â thaliadau sefydlog neu benodedig, sydd heb eu rhestru mewn marchnad weithredol) yn cynnwys:

- arian parod

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

- cyfrifon banc
- adneuron cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- buddsoddiadau wedi'u hamharu ym manciau Gwlad yr Iâ
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu (sydd wedi'u rhestru ar farchnad weithredol), sy'n cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd ariannol a chynlluniau buddsoddi cyfunol eraill
- tystysgrifau adneuron a ddyroddir gan fanciau a chymdeithasau adeiladu
- bondiau a ddyroddir gan fanciau amlochrog a chwmnïau yn y DU

Asedau a ddelir ar werth teg drwy elw a cholled, yn cynnwys:

- buddsoddiad ecwiti mewn cwmni gwastraff lleol

(b) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymïadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| Ymrwymïadau Ariannol | Tymor Hir | | Tymor Byr | |
|--|----------------|----------------|---------------|---------------|
| | 31 Mawrth | 31 Mawrth | 31 Mawrth | 31 Mawrth |
| | 2014 | 2015 | 2014 | 2015 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Prifswm a fenthycwyd | 111,215 | 111,108 | 1,193 | 214 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 691 | 690 |
| Cyfanswm Benthyciadau | 111,215 | 111,108 | 1,884 | 904 |
| Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Gorddrafft banc | 0 | 0 | 19,496 | 21,397 |
| Cyfanswm Arian a Ordynnwyd | 0 | 0 | 19,496 | 21,397 |
| Ymrwymïadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Dyledion Masnachol | 100 | 49 | 0 | 0 |
| Prydlesau Cyllidol | 2,372 | 2,253 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Ymrwymïadau Tymor Hir | 2,472 | 2,302 | 0 | 0 |
| Ymrwymïadau ar gost wedi'i amorteiddio: | | | | |
| Dyledion Masnachol | 0 | 0 | 59,298 | 64,565 |
| Prydlesau Cyllidol | 0 | 0 | 112 | 119 |
| Cynhwyswyd o fewn Credydwyr* | 0 | 0 | 59,410 | 64,684 |
| Cyfanswm yr Ymrwymïadau Ariannol | 113,687 | 113,410 | 80,790 | 86,985 |

* Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £1,669,000 (£3,881,000 ar 31 Mawrth 2014) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymïad ariannol.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| Asedau Ariannol | Tymor Hir | | Tymor Byr | |
|---|--------------|--------------|---------------|---------------|
| | 31 Mawrth | 31 Mawrth | 31 Mawrth | 31 Mawrth |
| | 2014 | 2015 | 2014 | 2015 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau a Derbyniadau: | | | | |
| Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio | 17 | 17 | 27,000 | 37,002 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 83 | 234 |
| Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu: | | | | |
| Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio | 60 | 1,173 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Buddsoddiadau | 77 | 1,190 | 27,083 | 37,236 |
| Benthyciadau a Derbyniadau: | | | | |
| Arian | 0 | 0 | 61 | 60 |
| Cyferwerthoedd arian ar gost wedi'i amorteiddio | 0 | 0 | 20,825 | 18,420 |
| Cyfanswm Arian a Chyferwerthoedd Arian | 0 | 0 | 20,886 | 18,480 |
| Benthyciadau a Derbyniadau: | | | | |
| Derbyniadau Masnachol | 4,449 | 4,862 | 20,021 | 18,161 |
| Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr* | 4,449 | 4,862 | 20,021 | 18,161 |
| Cyfanswm Asedau Ariannol | 4,526 | 6,052 | 67,990 | 73,877 |

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £24,196,000 (£32,113,000 ar 31 Mawrth 2014) o ddyledwyr (nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

Benthyciadau Meddal Materol

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae Còd Ymarfer 2014/15 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2014/15 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.15 £3,234,042)
- Benthyciadau Ceir a Beic i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.15 £1,016,266)

Daethpwyd i benderfyniad nad yw'r ychydig o fenthyciadau "meddal" sydd gan y Cyngor yn ymofyn datgeliad ar wahân gan eu bod yn de-minimis.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gwrthbwysio Asedau a Ymrwymiadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwysio ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymiad yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar y fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

| | 2013/14 | | | 2014/15 | | |
|--------------------------------------|--------------------------------------|---|----------------------------------|--------------------------------------|---|----------------------------------|
| | Asedau gros (ymrwym- iadau) | (Ymrwymia- dau) asedau wedi eu gwrthbwysio | Sefyllfa net ar y fantolen | Asedau gros (ymrwym- iadau) | (Ymrwymia- dau) asedau wedi eu gwrthbwysio | Sefyllfa net ar y fantolen |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfrifon banc mewn credyd | 50,206 | (50,206) | 0 | 3,119 | (3,119) | 0 |
| Cyfanswm Asedau Ariannol | 50,206 | (50,206) | 0 | 3,119 | (3,119) | 0 |
| Gorddrafft banc | (69,702) | 50,206 | (19,496) | (24,516) | 3,119 | (21,397) |
| Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol | (69,702) | 50,206 | (19,496) | (24,516) | 3,119 | (21,397) |

(c) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| | Ymrwymiadau Ariannol | Asedau Ariannol | |
|--|--|----------------------------|------------------|
| | Costau'r ymrwymiadau wedi'u hamorteiddio | Benthyciadau a Derbyniadau | Cyfanswm 2014/15 |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau Llog | 6,585 | 0 | 6,585 |
| Llog taladwy a ffioedd tebyg | 6,585 | 0 | 6,585 |
| Incwm y llog | 0 | (418) | (418) |
| Incwm y llog a'r buddsoddiad | 0 | (418) | (418) |
| (Enillion) / colledion net y flwyddyn | 6,585 | (418) | 6,167 |

(d) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Mae asedau ariannol a ddynodir fel benthyciadau a derbyniadau a'r holl ymrwymiadau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol yn cael eu prasio yn y Fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Amcangyfrifwyd eu gwerthoedd teg drwy gyfrifo gwerth net presennol y llif arian oedd yn weddill o dan y gytundeb ar 31ain Mawrth 2015, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

- mae benthyciadau'r PWLB wedi'u disgowntio ar y cyfraddau llog a gyhoeddwyd ar gyfer benthyciadau newydd gyda'r un cyfnod ad-dalu a drefnwyd ar 31ain Mawrth.
- mae benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi'u disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb ar 31ain Mawrth.
- ni chydabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau.
- rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion masnachol a derbyniadau yn cyfateb yn agos i'r swm cario.
- yn achos ymrwymadau a ohirwyd (megis prydlesau ariannol) mae'r awdurdod yn tybio bod y swm cario yn amcangyfrif rhesymol o'r gwerth teg.

| | Gwerth i'w gario 31 Mawrth 2014 £'000 | Gwerth teg 31 Mawrth 2014 £'000 | Gwerth i'w gario 31 Mawrth 2015 £'000 | Gwerth teg 31 Mawrth 2015 £'000 |
|-------------------------------------|--|--|--|--|
| Ymrwymadau Ariannol: | | | | |
| Benthyciadau | (113,099) | (140,550) | (112,012) | (166,103) |
| Prydlesau cyllidol | (2,484) | (2,484) | (2,372) | (2,372) |
| Dyledion Masnachol | (59,298) | (59,298) | (64,565) | (64,565) |
| Cyfanswm Ymrwymadau Ariannol | (174,881) | (202,332) | (178,949) | (233,040) |
| Asedau Ariannol: | | | | |
| Buddsoddiadau tymor hir | 77 | 77 | 1,190 | 1,190 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 27,000 | 27,083 | 37,002 | 37,227 |
| Derbyniadau Masnachol | 20,021 | 20,021 | 18,161 | 18,161 |
| Cyfanswm Asedau Ariannol | 47,098 | 47,181 | 56,353 | 56,578 |

Mae gwerth teg yr ymrwymadau tymor hir yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen.

Roedd mwyafrif o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen yn adneuo cyfnod penodol gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, ac adneuo cyfrifon ar alw/ar rybudd. Roedd dyddiad aeddfedu'r buddsoddiadau hyn oll o fewn cyfnod o 12 mis i ddyddiad y Fantolen. Mae gan y Cyngor un buddsoddiad wedi ei warantu efo dyddiad hirach sy'n aeddfedu yn 2018.

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,778,353, sef 94% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2014.

Ni dderbyniwyd dosbarthiad yn ystod 2014/15. Derbyniwyd rhybudd o daliad didifend pellach ym mis Awst 2015, er nad yw'r swm yn wybyddus hyd yma. Mae'r weinyddiaeth yn parhau, ond disgwylir i'r holl swm gael ei adennill maes o law.

(e) Offerynnau Ariannol - Risgiau

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Côt Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys (ac addasiadau dilynol) CIPFA ac yn cydymffurfio â'r *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* (diwygwyd y ddau yn Nhachwedd 2011).

Fel rhan o fabwysiadu'r Côt Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

Risg Credyd: Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Yn ystod 2014/15 mae rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdlu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdlu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2014/15 gosodwyd uchafswm o 10% o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (wedi ei ostwng i £1m ar gyfer rhai cymdeithasau adeiladu). Mae'r Cyngor hefyd wedi gosod uchafswm cyfanswm buddsoddiad grŵp o 10% ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r un grŵp bancio. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £30m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Ni ellir cynnig asesiad cyffredinol o ba mor agored yw'r Cyngor i risg credyd mewn perthynas â'i fuddsoddiadau o £37m gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, gan fod y risg o unrhyw sefydliad yn methu talu'r llog neu ad-dalu'r prif swm yn benodol i bob sefydliad unigol. Dengys profiad diweddar mai prin iawn yw'r achosion pan fo endidau o'r fath yn methu cyflawni'u hymrwymadau. Mae'r risg o fethu adfer arian yn perthyn i holl adneuon y Cyngor, ond ar 31 Mawrth 2015 nid oedd unrhyw dystiolaeth y byddai'r risg yn debygol o gael ei wireddu.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

Ceir crynodeb yn y tablau isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

| Cyfradd Credyd | Tymor Byr | |
|-------------------------------|----------------|----------------|
| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 |
| | £'000 | £'000 |
| AAA | 0 | 0 |
| AA+ | 0 | 0 |
| AA | 0 | 0 |
| AA- | 10,000 | 22,485 |
| A+ | 0 | 7,000 |
| A | 37,825 | 24,937 |
| A- | 0 | 0 |
| Unrated | 0 | 1,000 |
| Cyfanswm Buddsoddiadau | 47,825 | 55,422 |

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| Cyfradd Credyd | Tymor Hir | |
|-------------------------------|----------------|----------------|
| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 |
| | £'000 | £'000 |
| AAA | 0 | 0 |
| AA+ | 0 | 0 |
| AA | 0 | 0 |
| AA- | 0 | 0 |
| A+ | 0 | 0 |
| A | 0 | 0 |
| A- | 0 | 1,121 |
| Unrated | 0 | 0 |
| Cyfanswm Buddsoddiadau | 0 | 1,121 |

Derbyniadau Masnachol

Mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hir gan gynnwys benthyciadau ceir i weithwyr a morgeisi i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir y benthyciadau ceir fel risg isel oherwydd y gallu i ddiwynnu'r ad-daliadau o gyflogau'r gweithwyr, trefniadau trosglwyddo cytbwys gydag awdurdodau lleol eraill parthed unrhyw weithwyr sy'n trosglwyddo gyda benthyciad ceir yn ddyledus, trefniadau penodol ar gyfer methdalwyr a threfniadau adennill dyled arferol ar gyfer unrhyw weithwyr sydd yn gadael cyflogaeth llywodraeth leol. Mae'r morgeisi yn risg isel oherwydd bod y Cyngor yn dal arwystl cyntaf dros yr eiddo a forgeisiwyd.

Etifeddodd y Cyngor nifer fach a gwerth bach o fenthyciadau tymor hir i gwmnïau a sefydliadau lleol gan y cyn-gynghorau. Dim ond un o'r benthyciadau hyn sy'n parhau'n ddyledus ac mae'r hanes ad-dalu yn ardderchog.

Mae'r Cyngor wedi lansio Cronfa Benthyciadau Busnes i fusnesau bychan a chanolig o ran maint yng Ngwynedd. Mae'r cyfraddau llog a gyfyd ar fenthyciadau o'r fath yn gyfesur â'r risg credyd uwch sy'n ymglymedig â'r math yma o fenthyciadau.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymïadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o aeddfedrwydd gwerth enwol dyled y Cyngor:

| Amser tan aeddfedrwydd (blynyddoedd) | 31 Mawrth | 31 Mawrth |
|--------------------------------------|----------------|----------------|
| | 2014 | 2015 |
| | £'000 | £'000 |
| Llai na blwyddyn | 1,193 | 214 |
| Dros 1 ond llai na 2 | 199 | 1,981 |
| Dros 2 ond llai na 5 | 4,625 | 4,657 |
| Dros 5 ond llai na 10 | 8,069 | 11,451 |
| Dros 10 ond llai na 20 | 39,305 | 34,003 |
| Dros 20 ond llai na 30 | 15,464 | 15,464 |
| Dros 30 ond llai na 40 | 0 | 0 |
| Dros 40 | 27,352 | 27,352 |
| Dyddiad ansicr* | 16,200 | 16,200 |
| Cyfanswm | 112,407 | 111,322 |

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

* Mae gan y Cyngor £16.2m o fenthyciadau “Lender’s option, borrower’s option” (LOBO) lle bo’r opsiwn gan y benthyciwr i gynnig codiad yn y gyfradd a delir; bydd gan y Cyngor hawl wedyn i dderbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu’r benthyciad heb gosb. Oherwydd y cyfraddau llog isel cyfredol, er nad yw’n debygol y bydd y benthyciwr yn ymarfer ei opsiwn, os yw hyn yn digwydd, mae’n debygol y byddai’r Cyngor yn ad-dalu’r benthyciadau hyn. Mae’r dyddiad aeddfedrwydd felly yn ansicr.

Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog

Mae’r Cyngor yn agored i risgiau sy’n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar yr awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai’r gwariant llog yn cynyddu.
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymadau benthycia yn disgyn.
- buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai’r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau a nodir fel “benthyciadau a derbyniadau” a benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i’w gwerth teg yn effeithio ar yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae’r newidiadau yn y llog sy’n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu’r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog a ddynodir fel “ar gael i’w gwerthu” eu hadlewyrchu yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau’r risgiau hyn drwy osod uchafswm ar y symiau net sy’n agored i gyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol. Ar 31 Mawrth 2015 roedd 100% o’r prif symiau net a fenthycwyd (h.y. dyled net o fuddsoddiad) yn agored i gyfraddau sefydlog a 0% i gyfraddau cyfnewidiol.

Petai’r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch neu is (gyda’r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

| | 1% yn uwch £’000 | 1% yn llai £’000 |
|--|---------------------|---------------------|
| Newid yn y llog sy’n daladwy ar fenthyciadau cyfradd newidiol | 0 | 0 |
| Newid yn y llog sy’n daladwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol | 150 | (71) |
| Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | 150 | (71) |
| Newid yng ngwerth teg yr asedau buddsoddiad cyfradd sefydlog | 0 | 0 |
| Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 |
| Newid yng ngwerth teg benthyciadau / ymrwymadau cyfradd sefydlog* | (21,085) | 21,085 |

*Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Risg y Farchnad : Risg Pris

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau’r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a’i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg marchnad sy’n gysylltiedig â’r offerynnau hyn ar y cyd â’r risg cyfraddau llog.

Nid yw’r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw’n agored i risg pris. Mae’r Cyngor yn berchen ar gyfranddaliadau yng Nghwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC). Mae’r gweithgareddau perthnasol wedi eu mewnnoli, a’r cwmni yn cael ei ddirwyn i ben ac felly wedi cael ei ddynodi fel “ased sydd ar gael i’w werthu” a’r gwerth teg wedi ei ddatgan ar y Fantolen. Derbyniwyd setliad rhannol am werth teg y cyfranddaliadau yn ystod 2008/09 a 2009/10 ac mae’r balans yn parhau’n ddyledus. Ni ellir cwblhau’r broses yma yn derfynol nes bod materion treth penodol a pherthnasol wedi eu datrys gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw’n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

NODYN 18 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | Dyledwyr NET o amhariad | |
|------------------------------------|-------------------------|----------------|
| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 |
| | £'000 | £'000 |
| Llywodraeth Cymru | 19,660 | 14,339 |
| Cyrrff Llywodraeth Ganolog Eraill | 5,206 | 4,408 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 6,152 | 6,338 |
| Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol | 2,113 | 1,129 |
| Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus | 45 | 586 |
| Treth Cyngor | 1,927 | 1,831 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 17,031 | 13,726 |
| Cyfanswm | 52,134 | 42,357 |

NODYN 19 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian ar adnau yn ôl y galw. Bydd arian parod hefyd yn cynnwys gorddrafft gan fanciau y mae'n rhaid eu had-dalu yn ôl y galw, ac sy'n greiddiol i reolaeth arian yr awdurdod.

Mae balansau a ddisgrifir fel 'Cyfwerthoedd Arian' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau tymor byr hylifol, y gellir eu trosi'n rhwydd i arian parod, ac nad oes llawer o risg iddynt newid yn eu gwerth.

Mae balans net yr Arian a Chyfwerthoedd Arian yn cynnwys yr elfennau a ganlyn ar ddyddiad y Fantolen:

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 |
|------------------------------------|----------------|----------------|
| | £'000 | £'000 |
| Arian mewn llaw | 14 | 13 |
| Cyfrif Banc Cyfredol | 47 | 47 |
| Cyfrif Galw | 20,825 | 18,420 |
| Arian a Chyfwerthoedd Arian | 20,886 | 18,480 |
| Gorddrafft Banc | (19,496) | (21,397) |
| Cyfanswm | 1,390 | (2,917) |

Er mwyn uchafu'r adenillion o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuon Banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn eu cyfrifon banc yn y tymor byr ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc Cronfa Bensiwn Gwynedd. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion ar fuddsoddiadau gyda'r Gronfa Bensiwn yn yr un modd. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw'r arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor ac felly mae rhan o'r Buddsoddiadau Tymor Byr (Nodyn 17) a'r Cyfrif Galw a Chronfeydd Marchnad Arian a ddangosir uchod yn cynrychioli arian sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad y fantolen. Oherwydd y ffaith fod y Buddsoddiadau Tymor Byr yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen. £13.7m (£12.1m ar 31 Mawrth 2014) oedd elfen Buddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuon Banc y Gronfa Bensiwn.

NODYN 20 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

| | 2013/14 | 2014/15 |
|--|--------------|--------------|
| | £'000 | £'000 |
| Balans 1 Ebrill | 2,905 | 2,488 |
| <u>Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:</u> | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 1,199 | 283 |
| Gwariant yn y flwyddyn | 16 | 2 |
| Colledion ailbriso | 0 | (6) |
| Enillion ailbriso | 0 | 0 |
| Colledion Amharu | (16) | (2) |
| <u>Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu:</u> | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | (1,062) | (220) |
| Asedau wedi eu gwerthu | (554) | (1,505) |
| Trosglwyddo o anghyfredol i cyfredol | 0 | 0 |
| Balans 31 Mawrth | 2,488 | 1,040 |

NODYN 21 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 |
|------------------------------------|----------------|----------------|
| | £'000 | £'000 |
| Llywodraeth Cymru | 1,815 | 2,217 |
| Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill | 4,307 | 4,667 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 19,837 | 24,137 |
| Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol | 587 | 255 |
| Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus | 136 | 135 |
| Treth Cyngor | 1,012 | 1,170 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 35,597 | 33,772 |
| Cyfanswm | 63,291 | 66,353 |

NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

| | Balans ar 31 Mawrth 2014 £'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000 | Defnydd yn y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2015 £'000 |
|--|---|--|--------------------------------------|---|
| <u>Darpariaethau Tymor Byr</u> | | | | |
| Darpariaeth Safle Gwastraff | (452) | (308) | 483 | (277) |
| Eraill | (27) | 0 | 20 | (7) |
| Adolygiad Tâl | (2,091) | (600) | 21 | (2,670) |
| | (2,570) | (908) | 524 | (2,954) |
| <u>Darpariaethau Tymor Hir</u> | | | | |
| Ad-daliad Trosglwyddiadau Treth y Cyngor | (250) | (250) | 10 | (490) |
| Darpariaeth Safleoedd Gwastraff | (7,984) | (127) | 0 | (8,111) |
| Darpariaeth Achosion Hawliadau Trydydd Parti | (188) | 0 | 85 | (103) |
| Darpariaeth Yswiriant MMI | (198) | 0 | 0 | (198) |
| Darpariaeth Pensiwn | 0 | (335) | 0 | (335) |
| Eraill | (113) | 0 | 0 | (113) |
| | (8,733) | (712) | 95 | (9,350) |
| Cyfanswm | (11,303) | (1,620) | 619 | (12,304) |

Darpariaeth Ad-daliad Trosglwyddiadau Treth y Cyngor - Darpariaeth gysylltiedig â'r colledion yn deillio o drosglwyddiadau eiddo o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig Cenedlaethol.

Darpariaeth Adolygiad Tâl – darpariaeth mewn perthynas ag achosion a hawliadau cyflog cyfartal yn erbyn y Cyngor.

Darpariaeth Safleoedd Gwastraff – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofal holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

Darpariaeth Achosion Hawliadau Trydydd Parti – mewn perthynas ag achosion a hawliadau trydydd parti yn erbyn y Cyngor.

Darpariaeth M.M.I. (Yswiriant Municipal Mutual) – darpariaeth gan fod yr Awdurdod yn agored i ymrwymadau yswiriant a etifeddwyd ac yn ymwneud â threfniadau yswiriant ei Awdurdodau blaenorol ac Yswiriant Municipal Mutual.

Darpariaeth Pensiwn – darpariaeth ar gyfer gofynion pensiwn i'r dyfodol.

Darpariaethau Eraill – Mân faterion yw'r darpariaethau unigol eraill.

NODYN 23 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Awdurdod.

NODYN 24 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2014 £'000 | | 31 Mawrth 2015 £'000 |
|-------------------------------------|--|-------------------------------------|
| 41,009 | Reserf Ailbriso | 62,580 |
| 60 | Reserf Offerynnau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu | 85 |
| 169,777 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 179,024 |
| (948) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (885) |
| 4 | Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig | 2 |
| (171,689) | Reserf Pensiynau | (248,721) |
| (3,766) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (3,819) |
| 34,447 | Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio | (11,734) |

Reserf Ailbriso

Mae'r Reserf Ailbriso yn cynnwys enillion wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- ailbriso i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli.
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- gwaredu a'r enillion yn cael eu cyflawni.

Dim ond enillion ailbriso sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2013/14 £'000 | | 2014/15 £'000 |
|--------------------------|---|--------------------------|
| 44,043 | Balans 1 Ebrill | 41,009 |
| 263 | Ailbriso asedau i fyny | 29,821 |
| (1,692) | Ailbriso asedau i lawr a cholledion amharu | (6,303) |
| (1,429) | Gwarged neu ddiffyg wrth ailbriso asedion | 23,518 |
| (1,066) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol | (1,205) |
| (539) | Elw cronedig ar asedion a werthwyd | (742) |
| (1,605) | Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (1,947) |
| 41,009 | Balans 31 Mawrth | 62,580 |

Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu

Mae'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu yn cynnwys yr enillion wnaed gan yr Awdurdod o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau sydd unai â phris marchnad a ddyfynnwyd, neu sydd heb daliadau penodol neu sefydlog. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- ailbriso i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli
- gwerthu a'r elw'n cael ei gyflawni.

NODYN 24 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

| 2013/14 £000 | 2014/15 £'000 |
|--|------------------|
| 60 Balans 1 Ebrill | 60 |
| 0 Ailbriso buddsoddiadau i fyny | 33 |
| 0 Ailbriso buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gweddill/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr | (8) |
| 0 Enillion cronedig ar asedau wedi eu gwerthu ac asedau aeddfed sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel Incwm Buddsoddi Arall | 0 |
| 60 Balans 31 Mawrth | 85 |

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella yr asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbriso i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan yr Awdurdod fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhoddi sydd heb eu treulio eto gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbriso wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y creuwyd y Reserf Ailbriso i gofnodi enillion o'r fath.

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

| 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|------------------|
| 163,466 Balans 1 Ebrill | 169,777 |
| <u>Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u> | |
| (25,426) Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | (16,564) |
| (6,222) Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (4,833) |
| (686) Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu | (1,676) |
| 1,066 Trosglwyddo o'r Reserf Ailbriso Cyfalaf | 1,205 |
| <u>Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:</u> | |
| 1,377 Derbyniadau Cyfalaf | 1,873 |
| 18,989 Grantiau a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf | 15,666 |
| 5,731 Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,692 |
| 10,516 Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol | 6,430 |
| 966 Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 1,454 |
| 169,777 Balans 31 Mawrth | 179,024 |

NODYN 24 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Sefydlwyd y Cyfrif Addasiadau i Offerynnau Ariannol (FIAA) ar 1 Ebrill 2007 pan fabwysiadwyd Safonau Adrodd Ariannol 25, 26 a 29 sy'n berthnasol i Offerynnau Ariannol gan y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP 2007). Mae'r balans yn y cyfrif FIAA ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Còd Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiwedd benthyciadau o 1 Ebrill 2006 ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw breimiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

Caiff premiymau a disgowntiau sy'n berthnasol i drafodion a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 eu dosbarthu'n rhai sydd yn grog a rhai nad ydynt yn grog. Mae premiymau a disgowntiau grog yn rhai na ellir eu cysylltu gyda benthyciad sy'n parhau. Cafodd y rhain eu dileu'n llawn fel addasiad i Falansau'r Gronfa Gyffredinol a Ddygir Ymlaen ar 1 Ebrill 2007.

Yn achos premiymau neu ddisgowntiau grog, neu'r rhai sy'n perthyn i ddyledion sydd wedi'u dileu, mae Darpariaethau Statudol yn bodoli sy'n anwybyddu darpariaethau'r Còd Ymarfer. Caiff y taliadau a godir eu gwrthdroi yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Reserfau a chaiff premiymau a disgowntiau eu hamorteiddio i Refeniw dros gyfnod o flynyddoedd. Lle nad yw premiymau a disgowntiau yn grog, neu lle maent yn gysylltiedig â thrafodion sy'n cwrdd â meini prawf cyfaddasu benthyciad, nid yw'r darpariaethau statudol yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol yn gymwys.

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'run bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr FIAA ar gyfer 2014/15 fel a ganlyn:

| 2013/14 | | 2014/15 |
|----------------|--|----------------|
| £'000 | | £'000 |
| (959) | Balans 1 Ebrill | (948) |
| 46 | Cyfran o breimiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gynwysiedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol | 46 |
| (35) | Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal | 17 |
| (948) | Balans 31 Mawrth | (885) |

Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn dal yr enillion cydnabyddedig sy'n deillio o werthu asedau anghyfredol, nad oes taliad ariannol wedi ei wneud amdanynt eto. Yn unol â threfniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn trin yr enillion hyn fel rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf newydd hyd nes y derbynnir yr arian amdanynt. Unwaith mae'r setliad ariannol yn digwydd, mae'r symiau yn cael eu trosglwyddo i'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf.

NODYN 24 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

| 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 |
|---|------------------|
| 6 Balans 1 Ebrill | 4 |
| (2) Ad-dalu Prifswm Morgeisi Hawl i Brynu | (2) |
| 4 Balans 31 Mawrth | 2 |

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd gael eu hariannu fel y mae'r Awdurdod yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n bennaf gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Awdurdod wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 |
|--|------------------|
| (168,179) Balans 1 Ebrill | (171,689) |
| 3,108 Ailfesuriad o'r ymrwymadau / (asedau) buddion diffiniedig net | (70,697) |
| (26,345) Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (26,533) |
| 19,727 Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 20,198 |
| (171,689) Balans 31 Mawrth | (248,721) |

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

NODYN 24 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

| 2013/14 £'000 | | 2014/15 £'000 |
|------------------|--|------------------|
| (3,201) | Balans 1 Ebrill | (3,766) |
| (565) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronïadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (53) |
| (3,766) | Balans 31 Mawrth | (3,819) |

NODYN 25a – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2013/14 £'000 | | 2014/15 £'000 |
|------------------|---|------------------|
| (11,386) | Dibrisiant | (12,145) |
| (14,039) | Amhariad ac ailbriso i lawr | (4,418) |
| (1,031) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd | (7,853) |
| 7,059 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyd | (9,626) |
| Oedolion o dan 65 oed gydag anabledau dysgu | 15,594 | (2,170) | 13,424 |
| Oedolion o dan 65 oed gydag anghenion iechyd meddwl | 3,681 | (407) | 3,274 |
| Gwasanaethau eraill i oedolion | 913 | (515) | 398 |
| | 62,671 | (16,907) | 45,764 |
| Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd | | | |
| <i>Rhaniaid Gwasanaeth</i> | | | |
| Casglu Trethi Lleol | 10,854 | (799) | 10,055 |
| Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau | 417 | (215) | 202 |
| Etholiadau | 453 | (287) | 166 |
| Cynllunio Argyfwng | 163 | (30) | 133 |
| Pridiannau Tir | 304 | (191) | 113 |
| Gwasanaethau'r Crwner | 507 | (187) | 320 |
| | 12,698 | (1,709) | 10,989 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd Craidd | | | |
| <i>Rhaniaid Gwasanaeth</i> | | | |
| Rheolaeth a Chynrychiolaeth Democrataidd | 3,032 | (39) | 2,993 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 6,104 | (4,240) | 1,864 |
| | 9,136 | (4,279) | 4,857 |
| Costau Heb eu Dosrannu | | | |
| <i>Rhaniaid Gwasanaeth</i> | | | |
| Costau Heb eu Dosrannu | 663 | 0 | 663 |
| | 663 | 0 | 663 |
| COST GWASANAETHAU | 349,552 | (122,179) | 227,373 |

Y GRONFA DEGWM

| 2013/14 £'000 | | 2014/15 | |
|------------------|---|---------|------------|
| | | £'000 | £'000 |
| 519 | Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill | | 834 |
| | Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn :- | | |
| 15 | Llog ar fuddsoddiadau | | 6 |
| 333 | Cynnydd yn y buddsoddiadau a werthwyd | | 0 |
| 0 | Cynnydd yng ngwerth tir | | 148 |
| | Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn :- | | |
| 0 | Trosglwyddo llogau blynyddol blaenorol Gwynedd | (27) | |
| (14) | Colled ar fuddsoddiadau a werthwyd | 0 | |
| (19) | Grantiau a chostau | (9) | |
| | | | (36) |
| 834 | Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth | | 952 |
| | A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol :- | | |
| 26 | Tir ac Adeiladau | | 365 |
| 23 | Dyledwyr | | 21 |
| 1,858 | Arian mewn llaw | | 1,831 |
| 1,907 | | | 2,217 |
| (1,054) | Llai - Eifen yn ddyledus i Gyngorau Môn a Chonwy | | (1,232) |
| 853 | | | 985 |
| (38) | Llai - Credydwyr | | (40) |
| 19 | Ychwaneger - Eifen yn ddyledus gan Gyngorau Môn a Chonwy | | 7 |
| 834 | Cyfanswm | | 952 |

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol - addysgol, cymdeithasol neu adloniadol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.
2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.
3. Mae'r cynnydd yng ngwerth y tir yn dilyn ail brisiad yn ystod 2014/15.

| |
|--|
| CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN |
|--|

| 2013/14 £'000 | | 2014/15 £'000 |
|------------------|---|------------------|
| 146 | Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill | 152 |
| | Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn | |
| 8 | Llog enillwyd gan yr asedau | 10 |
| | Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (2) | Grantiau | (2) |
| 152 | Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth | 160 |
| | Asedau | |
| 144 | Buddsoddiadau | 142 |
| 8 | Arian mewn llaw | 18 |
| 152 | | 160 |

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.
2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2015 oedd £329,724.60 (£311,766.98 ar 31 Mawrth 2014).
3. Mae'r Gronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiâu ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diwedd 31 Mawrth 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

- 3.1 Mae'r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg.
- 3.2 Mae'r Grŵp wedi adnabod y 31 o elfennau yn ffurfio fframwaith llywodraethu Cyngor Gwynedd, a rhoddir ystyriaeth arbennig i'r effaith y disgwylir i bob un o'r rhain eu cael wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus ar gyfer pobl Gwynedd. Cyn asesu effeithiolrwydd yr elfennau hyn, nodwyd sgôr Effaith ("Impact") i bob un o'r elfennau, i adlewyrchu pa mor gymharol fawr yw effaith pob un ohonynt (ym marn y Grŵp) wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus. Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 1 (effaith fychan iawn) i 10 (effaith uchel iawn). Mae'r sgoriau hyn wedi eu asesu, eu herio a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a Grŵp Rheoli'r Cyngor.

3.3 Nid oes yr un o'r elfennau wedi sgorio llai na 5 – pe byddent, byddai'n amheus os oeddent yn haeddu lle amlwg o fewn y fframwaith lywodraethu o gwbl.

3.4 Mae'r Cyngor o'r farn mai'r elfennau sy'n cael yr ardrawiad fwyaf wrth ei alluogi i gyflawni yw:

Sgôr 10:

| | |
|----------------------------|--|
| Gwerthoedd y Cyngor | Ein gwerthoedd sydd yn diffinio diwylliant y Cyngor, ar gyfer aelodau a staff. Mae'r gwerthoedd wedi eu sefydlu ers peth amser bellach. O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny orchafu popeth arall sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni. |
|----------------------------|--|

Sgôr 9:

| | |
|--|--|
| Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig | Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd am gael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd. |
| Cynllun Strategol y Cyngor | Dyma'r datganiad lefel uchel sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor am anelu i'w gyflawni yn ystod oes y Cyngor presennol. |
| Ymgysylltu | Mae ymgysylltu'n glir gyda Pobl Gwynedd, er mwyn sefydlu cyfathrebu clir a cael wir ddealltwriaeth o'u anghenion, yn un o elfennau pwysicaf o'r trefniadau llywodraethu. |
| Rhaglen Arweinyddiaeth | Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae pob aelod a gweithiwr yn y Cyngor yn ei ddilyn. Mae ei impact, felly, yn enfawr – gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n gwreiddio diwylliant y Cyngor. |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Mae bod â'r wybodaeth gywir yn hanfodol os yw'r Cyngor am ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r pobl gywir yn y ffordd gywir. Mae angen i'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu a'i gadw fod yn gyfredol a pherthnasol, nid yn unig er mwyn cydymffurfio â Deddf Diolgelu Data ond hefyd er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn rhai sy'n gwneud y pethau iawn. Llywodraethu Gwybodaeth dda yw sylfaen penderfyniadau da. |
| Strategaeth ariannol | Y Strategaeth Ariannol sy'n gosod cyd-destun allweddol ar gyfer popeth y mae'r Cyngor am ei wneud. Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn awgrymu y bydd rhaid darganfod arbedion sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Y Strategaeth Ariannol sydd yn gosod allan sut y byddwn yn gwireddu hyn, ac felly mae'n ddatganiad hollbwysig, sydd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn delio â'r sefyllfa. |

Sgôr 8:

| | |
|--|--|
| Trefniadau rheoli risg | Mae ein trefniadau rheoli risg yn rhan annatod o drefniadau rheoli'r Awdurdod. Mae trefniadau rheoli risg cadarn, cywir a chymesur yn cefnogi arloesi, nid ei lesteirio. |
| Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff | Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu ei dalent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lleadaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi. |

| | |
|---------------------------------|--|
| Y Côt Llywodraethu Lleol | Mae'r Côt Llywodraethu Lleol yn gonglfaen trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'n cwmpasu nifer fawr o'r elfennau sydd angen bod yn eu lle er mwyn 'r Cyngor allu gwireddu ar ran Pobl Gwynedd. |
| Y Cyfansoddiad | Fel y canllaw swyddogol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, mae'n anorfod fod y Cyfansoddiad, o ddiffiniad, yn cael impact arwyddocaol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. |
| Y gyfundrefn 'Cyflawni' | Dyma gyfundrefn cynllunio busnes a monitro perfformiad y Cyngor. Oherwydd hyn, mae effaith y gyfundrefn ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar ran Pobl Gwynedd yn allweddol. |
| Y drefn Craffu | Y drefn craffu yw'r broses sydd yn ei le i sicrhau fod Cabinet y Cyngor yn gweithredu ei bolisiau yn unol â'r haddewidion ac er lles Pobl Gwynedd. Mae felly'n rhan bwysig iawn o'r fframwaith llywodraethu. |

Yn ogystal, derbyniodd yr elfennau canlynol sgôr is o ran eu heffaith ar werth cyhoeddus:

| Elfen | Sgôr Impact (allan o 10) |
|--|---------------------------------|
| Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog Côt Ymddygiad Aelodau Côt Ymddygiad Swyddogion Y Pwyllgor Archwilio Polisi Gwrth-Dwyll a Gwrthlygredd Llythyr Blynyddol Yr Archwiliwr Allanol Archwilio Mewnol Y Strategaeth Gaffael Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd Cydraddoldeb | 7 |
| Y Pwyllgor Safonau Taflenni Penderfyniad Protocolau Swyddogion Statudol Cyberthynas Aelodau Côt Ymarfer "Canu'r Gloch" Hyfforddi a Datblygu Aelodau Y Drefn Gwynion | 6 |
| Datganiad o'r cyfrifon | 5 |

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

Mae'r Grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn barhaus, gan roi sylw i faterion sydd yn dod i'w sylw sy'n effeithio ar ei ganfyddiad o'r fframwaith llywodraethu. Wrth wneud hyn, mae wedi asesu effeithiolrwydd pob un o 31 elfen y fframwaith llywodraethu. Mae canlyniad yr asesiad yma wedi ei herio'r rheolaidd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

Mae'r canlynol hefyd wedi cyfrannu wrth gynnal yr asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu yn ystod y flwyddyn:

- Aseidiadau gan aelodau a prif swyddogion wrth ddatblygu cyfundrefn "Ffordd Gwynedd", sef yr un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor ynglŷn â'r diwylliant corfforaethol sydd ei angen os am sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Gwaith Archwilio Mewnol, wedi ei grynhoi yn Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefen 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sicrwydd cyffredinol canlynol: ***"Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2014/15, yn fy marn i mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol."***
- Ystyriaeth o ganlyniadau gwaith archwilwyr a rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae canlyniad yr asesiad o effeithiolrwydd elfennau'r fframwaith lywodraethu a ddisgrifir uchod, gan gynnwys sgôr cymharol allan o 10. Mae'r sgoriau hyn yn amrywio o 1 (aneffeithiol iawn) i 10 (hynod effeithiol), ac wedi eu harddangos yn y tabl sy'n dilyn.

| Elfen | Aseiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|---------------------|---|-----------------------------------|
| Gwerthoedd y Cyngor | <p>Datblygwyd Gwerthodd y Cyngor trwy waith gyda'r Colegau Rheolwyr, ac mae gwerthoedd y Cyngor wedi eu nodi ar gerbydau, llythyrau ac arwyddion yn swyddfeydd.</p> <p>Adroddwyd yn Natganiad 2014 mai prin yw'r dystiolaeth fod ein staff ac aelodau yn byw y gwerthoedd hyn ac mae tystiolaeth – o adolygiadau system – yn dangos nad yw'r Gwerthoedd wedi treiddio go iawn, i olygu gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd.</p> <p>Mae gwaith Ffordd Gwynedd eisoes wedi dechrau mewn rhai manau cyfyngedig o fewn y Cyngor ond mae gwaith pellach sylweddol yn angenrheidiol cyn y bydd y newid mewn diwylliant wedi treiddio trwy'r Cyngor.</p> <p>Mae yna arwyddion calonogol gan fod yna dystiolaeth fod y gwerthoedd yn dechrau ymddangos o'r newydd yn llefaredd staff. Er hyn, mae angen amser tan y bydd tystiolaeth o newid mewn ymddygiad fyddai'n caniatáu cynyddu'r sgôr.</p> | 3 |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|-------------------------|---|-----------------------------------|
| Y gyfundrefn 'Cyflawni' | <p>Adroddwyd yn 2014 fod hunan asesiad o'r gyfundrefn Cyflawni wedi dangos fod yna ddiffygion o hyd yn ein trefniadau gan gynnwys diffyg perchnogaeth go iawn gan unedau o fewn y Cyngor o'r wybodaeth perfformiad, a'i ddefnydd ar gyfer gwella, er fod y drefn wedi gwella ers blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Dengys arbrofion systemau a'r hunan asesiad a wnaed ar gyfer Ffordd Gwynedd fod angen bod yn gliriach ynglŷn a beth sydd yn fesur perfformiad a beth sydd yn wybodaeth rheoli – nid yw hyn bob amser yn glir gan pawb.</p> <p>Adroddwyd yn Natganiad 2014 fod adolygiad ar y gweill er mwyn cysoni'r drefn gyda Ffordd Gwynedd. Mae'r adolygiad cysoni yma bron â'i gwblhau, a bwriedir mewnosod y drefn newydd yn ystod 2015/16. Nid fyddwn mewn sefyllfa i newid y sgôr tan hynny.</p> | 3 |
| Ymgysylltu | <p>Adroddwyd yn Natganiad 2014 fod y Strategaeth Ymgysylltu a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 28 Ionawr 2014 yn ganlyniad i hunan asesiad oedd yn amlygu nad oedd trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau.</p> <p>Yng nghyd-destun yr hinsawdd yma, mae Her Gwynedd, sef cynllun i drafod y sefyllfa ariannol gyda trigolion Gwynedd wedi cael blaenoriaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, a felly nid yw rhannau eraill y Strategaeth wedi symud ymlaen fel a ddisgwylwyd.</p> <p>Dylid nodi fod y gefnogaeth a roddwyd i'r prosiect gwastraff wedi ei ganmol gan y Pwyllgor Craffu perthnasol, ond mae'r sgôr yn parhau i adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg yr hunanasesiad wreiddiol.</p> | 4 |
| Llywodraethu Gwybodaeth | <p>Er gwaethaf ymdrechion i wella trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth, mae'r Cyngor yn parhau i gadw llawer iawn o wybodaeth, ac mae angen parhau i weithio i sicrhau nad yw'n cynnal mwy o ddata na'r hyn sydd ei angen. Nid oes tystiolaeth fod y Cyngor, ar y cyfan, wedi gwella ei allu i ddefnyddio ei wybodaeth yn briodol er mwyn gwneud penderfyniadau mor effeithiol ag y gallai. Disgwylir y bydd y prosiect i gyflwyno system EDRMS yn cyfrannu at welliant arwyddocaol yn hyn.</p> <p>Bu achlysuron yn ystod 2014/15 lle bu methiant ar ran y Cyngor i ddiogelu'r wybodaeth bersonol oedd yn ei feddiant fel a ddisgwylir, sydd wedi dangos fod ein trefniadau yn llai effeithiol nag a feddylwyd ar adeg cynnal asesiad 2014. Mae hyn wedi amlygu'r angen i ail hyfforddi staff yn briodol am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes.</p> | 4 |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|---------------------------------------|---|-----------------------------------|
| Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff | <p>Mae trafferthion llenwi rhai swyddi uwch o fewn y Cyngor yn awgrymu fod angen gwella ein gallu i greu dilyniant ar gyfer uwch swyddi, o leiaf. Mae hyn wedi ei adnabod fel sail i ddatblygu talent fewnol.</p> <p>Mae'r drefn werthuso ffurfiol wedi ei rewi o fewn y Cyngor, tra bod adolygiad o'i gyfraniad i ddiwylliant Ffordd Gwynedd dan ystyriaeth.</p> <p>Mae tystiolaeth a gasglwyd mewn cyfweiliadau gadael yn dangos fod llawer o swyddogion yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a'r datblygiad maent yn ei dderbyn gan y Cyngor.</p> | 4 |
| Cyberthynas aelodau | <p>Mae yna rywfaifaint o dystiolaeth o densiwn yn bodoli yn y gorffennol rhwng aelodau wrth i'r trefniadau cabinet newydd gael eu gweithredu o fewn y Cyngor a'r newid rolau oedd yn gysylltiedig â hynny, a nid oes tystiolaeth i awgrymu fod y tensiynau hynny wedi diflannu.</p> <p>Mae tensiynau yn anorfod pa fydd unrhyw newidiadau arwyddocaol, ac i'w disgwyl.</p> | 4 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig | <p>Rhodddwyd sgôr o 3 yn 2014, ond mae cynnydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Mae Uned Partneriaethau wedi ei sefydlu gyda Cyngor Sir Ynys Môn, ac mae'r Cyngor ymysg y cyrff sydd wedi arwyddo Datganiad o Fwriad sydd wedi ei gytuno gyda'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar gyfer gwasanaeth integredig.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gwaith eto i'w wneud i ddatblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond mae Cynllun wedi ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2015 wedi adrodd fod y Bwrdd yn symud i'r cyfeiriad cywir.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae gwaith adolygiad system yn y maes Gofal, sy'n cynnwys cydweithio agos gyda rhanddeiliaid o gyrff allanol, yn dangos arwyddion addawol.</p> | 5 |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|------------------------|---|-----------------------------------|
| Trefniadau rheoli risg | <p>Mae trefniadau bellach yn eu lle er mwyn i bob adran gynnal cofrestr risg adrannol, ac mae cofrestrau traws-adrannol hefyd yn eu lle, gyda protocolau i'w cefnogi. Er hyn, mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn anghyson, a'r canfyddiad gyffredinol yw fod rheoli risg yn rwystr i wireddu amcanion, yn hytrach na chymorth.</p> <p>Hefyd, heblaw am risgiau lechyd a Diogelwch, mae arbrofion systemau yn dangos nad yw'r holl weithlu yn ymwybodol o'r risgiau all lesteirio cyflawni i bobl Gwynedd ac yn eu perchnogi – mae rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr.</p> <p>Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ym maes Cynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth, er mwyn paratoi'r awdurdod yn well ar gyfer digwyddiadau anrhagweladwy.</p> <p>Adroddwyd yn 2014 fod risgiau o gwmpas Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion yn derbyn sylw ar ôl i adroddiad gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn 2013 ddod i'r casgliad nad oedd trefniadau diogelu plant a phobl ifanc y Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol. Fodd bynnag, mae camau sylweddol wedi eu gwneud ers hynny. Mae Panel Strategol yn cwrdd yn chwarterol, a'r Panel Gweithredol yn fisol. Mae camau mawr wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau fod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn parhau'n ddilys, yn ogystal ag adolygiad blynyddol o'r rhai adrannol. Mae archwiliadau dilyniant gan Estyn wedi cadarnhau fod cynllun gweithredu wedi bod yn effeithiol, ond bydd angen cyfnod estynedig o weithredu cyn y byddwn yn newid y sgôr.</p> | 5 |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|---|--|-----------------------------------|
| Y Drefn Craffu | <p>Adroddwyd yn Natganiad 2014 fod Strategaeth Craffu ddiwygiedig wedi ei baratoi ar ffurf drafft ac yn barod i'w gyhoeddi. Cyhoeddwyd y Strategaeth yn ystod 2014/15.</p> <p>Yn dilyn y gwelliant a adroddwyd yn 2014, gwelwyd rhai enghreifftiau pellach yn ystod 2014/15 o graffu yn cael effaith positif ar wasanaethau, ond mae yna dipyn o ffordd i fynd eto hyd nes y bydd craffu yn uchafu'r amcan hwnnw.</p> <p>Ni fyddwn yn cynnwys gwelliannau i'r drefn fel cam gweithredu yn y datganiad yma a'r Cynllun Strategol gan ein bod eisoes yn cydweithredu gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gyflwyno newidiadau.</p> <p>Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn ystod 2014/15 i ddefnyddio Craffu i'n cynorthwyo i osod cyfeiriad yn hytrach nag olsyllu ar ôl penderfyniad wedi gwella'r berthynas waith rhwng y Cabinet a'r swyddogaeth Craffu.</p> | 5 |
| Llythyr blynyddol yr Archwiliwr Allanol | <p>Tra bod y llythyr yn cynnwys beirniadaeth adeiladol, bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu ar y materion a godir ond weithiau efallai fod yna wrthdaro rhwng ymdeimlad y Cyngor o beth ddylai gael sylw a rhai materion a godir yn y llythyr o ran yr ymdrech sydd ei angen ei roddi iddynt, a'r lefel risg y maent yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, nid yw'r enghreifftiau yma yn niferus; nid oedd argymhellion yn yr adroddiad diweddaraf, ac mae'r negeseuon yn gyffredinol bositif.</p> <p>Mae'r sgôr effeithiolrwydd wedi newid i 5, gan fod oedi cyn derbyn y llythyr yn 2015 yn golygu fod ei allu i gynorthwyo'r Cyngor i wella am fod yn llai effeithiol.</p> | 5 |
| Hyfforddi a Datblygu Aelodau | <p>Mae camau wedi eu gwneud yn y cyfnod ers etholiad 2012 i lunio rhaglen i hyfforddi aelodau, gyda'r Gwasanaethau Democrataidd yn arwain ar y gwaith.</p> <p>Cyflwynwyd Cyfweiliadau Datblygu Personol yn ystod 2014/15, gydag 20 o aelodau wedi manteisio arnynt.</p> | 5 |
| Y Drefn Gwynion | <p>Adroddwyd yn 2014 mai gwendid pennaf y drefn gwynion oedd diffyg trefniadau er mwyn caniatáu i'r Cyngor ddysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion.</p> <p>Yn ystod 2014/15 cyflwynwyd trefn newydd i fynd i'r afael yn benodol â hyn. Cyflwynwyd Trefn Gwynion Gorfforaethol newydd, a penodwyd Swyddog Gwella Gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau.</p> | 5 |

| Elfen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|----------------------------|---|-----------------------------------|
| Cynllun Strategol y Cyngor | Mae'r Cynllun Strategol yn ganllaw pwysig er mwyn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adnabod gwelliannau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod fod natur y Cynllun presennol yn golygu nad ydi hi'n hawdd dehongli ohono beth yw gwaith craidd y Cyngor. Mae'r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn gatalog o'r pethau sydd angen eu newid o fewn y Cyngor ac yn ardal Gwynedd, yn hytrach na chynllun busnes ar gyfer yr Awdurdod. | 6 |
| Y Pwyllgor Archwilio | Mae Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd wedi ei sefydlu ers 1999, ac mae ganddo gylch gorchwyl cytunedig. Adroddwyd yn 2014 fod y Pwyllgor Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu rhai o'r swyddogaethau y mae wedi ei arddel ers tro, ond mai parhau i ddatblygu y mae ei allu i ymdrin â chyfrifoldebau newydd a ddaeth i'w ran gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Nid oes tystiolaeth i awgrymu fod y sefyllfa wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf. | 6 |
| Archwilio Mewnol | Mae effeithiolrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac er fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl, mae angen ystyried ymhellach os yw'n adolygu'r pethau cywir, ac os yw'r gweithredu mewn dull sydd yn gydnaws â Ffordd Gwynedd. Mae capasiti'r gwasanaeth wedi lleihau'n arwyddocaol ers 1 Ebrill 2015, i lawr o 10 i 7 swyddog llawn amser. Disgwylir y bydd mabwysiadu egwyddorion Ffordd Gwynedd yn sicrhau fod effeithiolrwydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal, ond efallai y bydd peth gostyngiad yn y tymor byr. | 6 |
| Strategaeth Gaffael | Mae Strategaeth Gaffael yn ei le ers sawl blwyddyn, ond adroddwyd yn 2014 fod peth tystiolaeth nad yw ei egwyddorion yn treiddio yn gyson trwy'r Cyngor, ac fod lle i newid trefniadau i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio. Mewn ymateb i hyn, mae Prosiect Caffael ar y cyd gyda cynghorau Dinbych a Fflint wedi arwain at Strategaeth newydd fydd yn cael ei gyflwyno i'w graffu yn ystod 2015/16. Bydd y Cyngor yn symud ymlaen i ganolbwyntio ar reolaeth categori (derbyniodd hyn gymeradwyaeth y Cabinet yn ystod 2014/15), ac mae wedi buddsoddi'n briodol. | 6 |
| Cydraddoldeb | Er fod Cynllun Cydraddoldeb yn ei le, mae tystiolaeth nad ydi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb wedi ei wreiddio fel y dylai, a'r meddylfryd wedi treiddio. Er enghraifft, nid oes tystiolaeth i ddangos fod y Cyngor yn meddwl am gynnal Asesiad Impact Cydraddoldeb fel mater o drefn wrth wneud ei benderfyniadau. | 6 |

| Efen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|--------------------------------------|---|-----------------------------------|
| Rhaglen Arweinyddiaeth | <p>Mae yna dystiolaeth fod sgiliau Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor wedi gwella ar ôl i'r Cyngor fuddsoddi mewn hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer ei Uwch Swyddogion ac aelodau.</p> <p>Fodd bynnag dengys hunan asesiad Ffordd Gwynedd fod yr angen yn parhau i fynd â hyn nawr i'r haen nesaf, gan sicrhau fod holl arweinyddiaeth y Cyngor yn un wrth arddel egwyddorion Ffordd Gwynedd os yw am fod yn llwyddiant.</p> | 7 |
| Y Côt Llywodraethu Lleol | <p>Mae'r Côt Lleol, fel canolbwynt i holl elfennau unigol y fframwaith lywodraethu, yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei amcanion. Dyma yw gwraidd ein hasesiad o drefniadau llywodraethu.</p> <p>Fodd bynnag, mae lle i'w adolygu'n fwy rheolaidd nag sydd wedi ei wneud yn y gorffennol, ond mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn rhoi sylw i hyn.</p> <p>Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn gyfforddus gyda'r drefn bresennol, a disgwylir adroddiad adeiladol pan fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad corfforaethol yn ystod 2016/17. Fodd bynnag, yn ystod 2015/16 byddwn yn ystyried os bydd angen ymestyn yr hyn sydd yn bwydo i mewn i'r gyfundrefn llywodraethu. Ar yr un pryd, cydnabyddir fod angen i symleiddio a rhesymoli'r côd, gan fod 31 pennawd yn ymddangos yn ormodol.</p> | 7 |
| Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd | <p>Caiff Adroddiad Gwella'r Cyngor ei gyhoeddi'n flynyddol yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig. Mae'r Adroddiad yn nodi fod y Cyngor wedi cyflawni'r dyletswyddau adrodd ar welliant sy'n ofynnol o dan y mesur, ond gallai gydymffurfio'n llawnach ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Er fod hwn yn adroddiad sydd yn cyflawni ei bwrpas, mae'r risg yn parhau ei fod yn adroddiad sydd yn cael ei gynhyrchu er mwyn gwireddu gofynion statudol, yn hytrach nag er mwyn gwireddu'r nod o roi darlun cyflawn i Bobl Gwynedd. Mae gobaith y bydd yr adroddiad yn gwella wrth i ni wella ansawdd ein Cynllun Strategol.</p> | 7 |
| Y Pwyllgor Safonau | <p>Mae'r Pwyllgor Safonau yn ei le ac yn gweithredu gyda Cylch Gorchwyl cytunedig. Mae cofnodion y Pwyllgor yn dangos ei fod yn edrych ar achosion penodol wrth ymgymryd â'i waith. Mae'r Pwyllgor ei hun hefyd wedi cynnal hunan asesiad.</p> <p>Mae asesiad pellach gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn awgrymu bod y sgôr effeithiolrwydd o 5 a roddwyd yn 2014 yn ymddangos yn hallt, ac mae asesiad yn dangos gwelliant. Nodwyd fod y Pwyllgor yn cyflawni ei rôl plismona yn dda, ond fod lle i wella ei weithgareddau hyrwyddo safonau da.</p> | 7 |

| Efen | Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|--------------------------|--|-----------------------------------|
| Côd Ymarfer Canu'r Gloch | <p>Er mai ychydig o ddefnydd sydd wedi ei wneud o'r drefn, mae'r datganiadau hynny sydd wedi eu gwneud wedi bod yn destun ymchwiliadau trylwyr yn unol â'r Côd Ymarfer. Mae'r trefniadau wedi eu hadolygu'n ddiweddar gan SAC, fel rhan o adolygiad cenedlaethol.</p> <p>Mae tystiolaeth o'r adolygiad cenedlaethol, ac adolygiad o ymwybyddiaeth gan Archwilio Mewnol, wedi dangos fod y drefn yn effeithiol ar y cyfan, ac yn cyfiawnhau'r sgôr a roddwyd.</p> | 7 |


Derbyniodd yr elfennau eraill sgôr effeithiolrwydd o 8 neu fwy:

| Efen | Sgôr Effeithiolrwydd (allan o 10) |
|---|-----------------------------------|
| Strategaeth ariannol Protocol cyswllt aelod/swyddog Côd Ymddygiad Aelodau | 8 |
| Y Cyfansoddiad Côd Ymddygiad Swyddogion Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd Protocolau swyddogion statudol Datganiad o'r cyfrifon | 9 |
| Taflenni penderfyniad | 10 |

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL Wrth osod y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd yn y diagram isod, arddangosir y materion sydd angen sylw fel mater o flaenoriaeth, sef y meysydd hynny sy'n cael yr impact fwyaf, ond sydd lleiaf effeithiol ar hyn o bryd:

ASESIAD O ELFENNAU ALLWEDDOL Y SYSTEMAU A PHROSESAU SY'N RHAN O LYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD



Mae nifer o'r eitemau sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu yn rhan o brosiect arall sydd eisoes ar y gweill, ond y camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â gael Blaenoriaeth Uwch lawn ac Uchel yw:

Blaenoriaeth Uchel lawn

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|--|---|--|
| <p>Gwerthoedd y Cyngor. Mae yna arwyddion calonogol fod y gwerthoedd o roi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn dechrau ymddangos o'r newydd yn llefaredd staff. Er hyn, mae angen parhau â'r ymdrech i sicrhau fod pawb yn "gwneud" yn ogystal â "dweud".</p> | <p>Mae Gwerthoedd y Cyngor yn derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect C1 – Prosiect Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith.</p> <p>Mae 'Cyflawni' yn derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect C4 – Prosiect Gweithredu Cyfundrefn Berfformiad.</p> | Prif Weithredwr |
| <p>Y gyfundrefn 'Cyflawni'. Mae adolygiad ar y gweill (Mai 2015) er mwyn cysoni'r drefn gyda Ffordd Gwynedd.</p> | <p>Derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect C3 – Prosiect Ymgysylltu.</p> | Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol |
| <p>Ymgysylltu. Nid yw trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau.</p> | <p>Derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiectau C7 – Prosiect Electronic Document and Records Management (EDRMS) ac C8 – Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth.</p> | Prif Weithredwr / Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| <p>Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn cadw llawer iawn o ddata.</p> <p>Digwyddiadau yn ystod 2014/15 lle mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio'n llawn â safonau Diogelu Data.</p> | | |

Blaenoriaeth Uchel

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|--|--|--|
| <p>Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig. Mae gwaith eto i'w wneud i ddatblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond mae Cynllun wedi ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.</p> | <p>Parhau gyda'r ymdrechion a gychwynwyd yn ystod 2014/15.</p> | <p>Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol</p> |
| <p>Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff. Mae arbrofion wedi eu cynnal mewn gwahanol adrannau i edrych ar ffyrdd gwahanol er mwyn gwella'r drefn.</p> | <p>Cwblhau adolygiad o gyfraniad y drefn werthuso i ddiwylliant Ffordd Gwynedd</p> | <p>Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol</p> |
| <p>Cynllun Strategol y Cyngor. Mae pryder a yw holl staff y Cyngor yn rhoi'r flaenoriaeth dyledus i faterion sydd yn y Cynllun Strategol</p> | <p>Parhau i fireinio trefniadau cynllunio busnes holl unedau busnes y Cyngor, er mwyn rhoi sylw i'r blaenoriaethau cywir</p> | <p>Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid</p> |
| <p>Y Drefn Craffu Ni fyddwn yn cynnwys gwelliannau i'r drefn fel cam gweithredu yn y datganiad yma a'r Cynllun Strategol gan ein bod eisoes yn cydweithredu gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gyflwyno newidiadau.</p> | | |
| <p>Trefniadau Rheoli Risg. Mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn anghyson, a'r canfyddiad gyffredinol yw fod rheoli risg yn rwystr i wireddu amcanion, yn hytrach na chymorth. Rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr.</p> | <p>Adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd ers 2013/14, lle cafwyd sicrhad fod pob adran wedi paratoi cofrestr risg lefel adran. Parhau i gefnogi unedau busnes i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o rheolaeth risg yn eu gwaith dydd i ddydd, a hynny yng nghyd-destun cyfundrefn Ffordd Gwynedd.</p> <p>Cynnal rhaglenni gwaith Paneli Strategol a Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion, a monitro cynnydd yn erbyn y rhaglenni gwaith hyn.</p> | <p>Uwch Reolwr Refeniw a Risg</p> <p>Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol</p> |
| <p>Cydberthynas Aelodau. Tystiolaeth o densiynau</p> | <p>Gwaith parhaus o sicrhau parch a dealltwriaeth o wahanol rolau aelodau, yn arbennig Weithrediaeth a'r aelodau eraill</p> | <p>Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol</p> |

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|--|--|---|
| <p>Rhaglen Arweinyddiaeth. Angen sicrhau fod holl arweinyddiaeth y Cyngor yn un.</p> | <p>Derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect C2 – Prosiect Rhaglen Datblygu Arweinwyr.</p> | <p>Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol</p> |
| <p>Llythyr Blynyddol yr Archwiliwr Allanol. Ni dderbyniwyd adroddiad drafft ar 2013/14 tan Mai 2015, a nid yw wedi cael ei gyflwyno'n derfynol i aelodau ar adeg paratoi'r Datganiad yma.</p> | <p>Trafod gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn sefydlu, cytuno a monitro amserlen er mwyn paratoi'r adroddiad.</p> | <p>Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid</p> |

Rhan 6: BARN

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.



DILWYN O WILLIAMS
PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD 1/7/2015



Cyng. DYFED WYN EDWARDS
ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD 2/7/2015

Mae'r dudalen yma wedi ei gadael yn fwriadol wag



Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2014-15

Cyhoeddwyd: Medi 2015

Cyfeirnod y ddogfen: GC2015

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'w dwyn i'ch sylw cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

| | |
|--|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 | 6 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 6 |

Atodiadau

| | |
|---|----|
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 7 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd | 10 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Cyngor Gwynedd atynt | 12 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 | 13 |

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr fod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Gwynedd yw £3.837 miliwn. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2014-15, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

6. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar y dyddiad cau statudol o 30 Mehefin 2015, ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth.
7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid.

Adroddiad archwilio arfaethedig

8. **Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
9. Serch hyn, fe fydd addasiad yn cael ei wneud i'r adroddiad archwilio gan fod aelod o'r cyhoedd wedi lleisio gwrthwynebiad i'r cyfrifon yn ymwneud â gwariant Asiantaeth Cefnffyrdd. Felly, er y gallwn roi'r farn ar y datganiad ariannol, ni allwn gwblhau ein cyfrifoldebau archwilio eraill yn ffurfiol a chyflwyno'r dystysgrif i gau'r archwiliad.
10. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).

Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

11. Nodwn isod ddau gamddatganiad a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.

Mae darpariaethau'r Cyngor wedi'u gorddatgan gan £825,000

12. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaethau cyfrifyddu ar gyfer costau yn ymwneud â throsglwyddiadau eiddo treth gyngor a rhwymedigaethau pensiwn.
13. Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 - Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol (IAS37) yn nodi bod rhaid i endid gydnabod darpariaeth os yw'r canlynol yn berthnasol, a dim ond os hynny:
 - mae rhwymedigaeth gyfredol wedi codi o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (y digwyddiad sy'n rhwymo);
 - mae'r taliad yn debygol; ac
 - gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy
14. Mae'r Cyngor wedi darparu £490,000 ar gyfer y golled o ran y dreth Gyngor yn y dyfodol o ganlyniad i ddeiliaid tai ag eiddo na sy'n llawn drwy gydol y flwyddyn yn newid i Ardreth Annomestig Genedlaethol. Serch hyn, nid yw hyn yn cydymffurfio â'r diffiniad o ddarpariaeth gan nad yw'r digwyddiad sy'n rhwymo (y pwynt hwnnw y mae'r trosglwyddiadau o'r Dreth Gyngor i'r Ardreth Annomestig Genedlaethol yn cael eu cymeradwyo) wedi digwydd eto.
15. Mae'r Cyngor hefyd wedi darparu £335,000 i gyfrannu tuag at y diffyg sy'n bodoli o ran pensiwn. Er bod rhwymedigaeth wedi'i wneud yn y gorffennol mewn perthynas â'r costau hyn, nid yw'n briodol cael darpariaeth yn y cyfrifon gan fod y rhwymedigaeth eisoes wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon yn sgil Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 - Buddiannau Gweithwyr (IAS19).
16. Er fy mod yn gwerthfawrogi mai doeth yw neilltuo'r cyllid mewn termau cyllidebol, nid ydynt yn cydymffurfio o safbwynt cyfrifyddu technegol. Fe fyddai'n fwy priodol i'r symiau hyn gael eu neilltuo fel cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Camddatganiadau a gywirwyd

17. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Nodir y rhain, ynghyd ag esboniadau, yn [Atodiad 3](#).

Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

18. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Nid oes unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

Nid oes unrhyw faterion y mae angen i ni adrodd arnynt i chi

19. Nid oes unrhyw faterion eraill i'w hadrodd i chi. Yn benodol:
- nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ar faterion ariannol;
 - ni fu i ni ddod ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad;
 - ni fu i ni drafod na gohebu ar unrhyw faterion gyda'r tîm rheoli y mae angen i ni adrodd i chi arnynt;
 - nid oes unrhyw faterion eraill yn berthnasol i'r trosolwg o'r broses o adrodd ar faterion ariannol y mae angen i ni adrodd arnynt i chi;
 - ni wnaethom adnabod unrhyw wendidau materol yn eich rheolaethau mewnol; ac
 - nid oes unrhyw faterion penodol eraill y dylid eu cyfathrebu i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant yn ôl safonau archwilio.

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15

20. Mae un argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn [Atodiad 4](#).

Annibyniaeth a gwrthrychedd

21. Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
22. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydrberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ

24 Medi 2015

Annwyl Syr,

Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2014-15

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, - cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, i gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll, neu dwyll a amheuir, rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
rheolwyr;

cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.

- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

Mae paragraffau 12-17 o adroddiad yr archwilydd yn cyfeirio at ddau fater cyfrifyddu technegol. Neilltuwyd dwy gronfa yn ddarbodus, ond mae'r archwiliwr yn awgrymu ni ddylid trîn rheiny fel darpariaethau. Mae sail i fedru ystyried y cronfeydd hyn naill ai fel darpariaethau neu fel cronfeydd, ond byddwn yn eu trosglwyddo erbyn 2015/16.

Sylwadau gan Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 24 Medi 2015.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr

wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Yn gywir,

.....

DAFYDD L EDWARDS
PENNAETH CYLLID

Dyddiad

.....

CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS
CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Chronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilydd.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamdatganiadau materol berthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau materol berthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n faterol berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n faterol berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau neu anghysondebau materol berthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys camdatganiadau ffeithiol materol berthnasol neu mae'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwyf wedi cynnal yr archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni ellir cwblhau'r archwiliad yn ffurfiol na chyflwyno tystysgrif archwilio nes y bydd ymholiadau sy'n codi o gwrthwynebiad a godwyd gan aelod o'r cyhoedd wedi cael ei gwblhau'n ffurfiol. Rwyf yn fodlon na fydd y swm sy'n destun y gwrthwynebiad yn cael effaith sylweddol ar y datganiad o'r cyfrifon.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
30 Medi 2015

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Cyngor Gwynedd atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---------------------|--|--|
| £898,000 | Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar Roedd ailbrisiadau yn ymwneud â dau adeilad wedi eu nodi'n anghywir ar y gofrestr o asedau sefydlog Tir ac Adeiladau -£898,000 Cronfa ailbrisio wrth gefn +£898,000 | I adlewyrchu'r prisiadau ar dir ac adeiladau yn gywir |
| £153,000 | Nodyn 17 – Offer ariannol (c) I gynnwys cyllid benthyciad prydles Gwyrriad a oedd wedi'i hepgor Cost Llog £153,000 | I adlewyrchu'r datgeliad rhwymedigaethau ariannol yn gywir |
| £670,000 | Nodyn 13b – Ardreth Annomestig Genedlaethol I gyfrifo am nifer o gynlluniau Ardreth Annomestig Genedlaethol Talebau o'r Gronfa Genedlaethol +£670,000 Symiau a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol +£670,000 | I ddangos y symudiadau gros o ran y Gronfa Genedlaethol |
| £2,670,000 | Darpariaethau Nodyn 22 Aiddosbarthiad darpariaeth Cyflog Cyfartal o ddarpariaethau tymor hir i ddarpariaethau tymor byr | I adlewyrchu amseriad disgwylidig y gwariant ariannol |
| Naratif ychwanegol | Nodyn 4 - beirniadaethau Nodyn 5 – tybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd o ran yr amcangyfrif I ddarparu rhagor o fanylion | I hysbysu'r darllenwr |
| Addasiadau amrywiol | Nodyn 31 - Adroddiad cyflogau Fe wnaed nifer o addasiadau bach er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth yn gywir | I sicrhau fod y datgeliad yn gywir |

Atodiad 4

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15

Rydym yn nodi un argymhelliad yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt:

Mater sy'n codi 1 – Cyfrifyddu ar gyfer Darpariaethau

| | |
|---|---|
| Canfyddiadau | Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaethau nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion IAS37 |
| Blaenoriaeth | Uchel |
| Argymhelliad | Dylai'r Cynogr sicrhau bod darpariaethau a sefydlir ond lle mae'r amodau yn bodloni â gofynion IAS37 |
| Buddiannau gweithredu'r argymhelliad | I gydymffurfio â Chod Ymarfer ar Cyfrifyddu Llywodraeth Leol a IAS37 |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Ia, derbyn mewn perthynas â darpariaeth tuag at gyfraniad pensiwn y cyflogwr, a derbyn yn rhannol mewn perthynas â darpariaeth i ymdrin â cholli dreth gyngor ar drosglwyddo i NNDR. |
| Ymateb y rheolwyr | Mae adroddiad yr Archwilydd yn cydnabod ei bod yn ddoeth i neilltuo cronfeydd hyn, a bod yn fater cyfrifyddu technegol. Byddwn yn ymdrin â hyn yn 2015/16. Ymhellach, oedd y ddarpariaeth i ymdrin â cholli Treth Cyngor â rhywmydigaethau digwyddiadau'r gorffennol, sef eiddo yn cyfeirio at Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ystod ac mewn perthynas â 2014/15, ond heb eu datrys ar 31/03/2015. |
| Dyddiad gweithredu | Cyfrifon 2015-16. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2014-15

Cyhoeddwyd: Medi 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 499A2015

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'w dwyn i'ch sylw cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

| | |
|--|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 | 6 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 6 |

Atodiadau

| | |
|--|----|
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 7 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd | 10 |
| Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 | 12 |

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Gronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gronfa Bensiwn Gwynedd yw £14.974 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2014-15, y mae angen cyflwyno adroddiad amynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

6. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar y dyddiad cau statudol o 30 Mehefin 2015, ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth.
7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid.

Adroddiad archwilio arfaethedig

8. **Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).

Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

10. Nodwn isod y camddatganiad a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.

Mae'r Buddion Pensiwn wedi eu tan ddatgan o ganlyniad i ddau daliad yn cael eu cyfrifyddu yn y flwyddyn ariannol anghywir

- Mae buddion marwolaethau a lwmp symiau eraill wedi eu tan ddatgan gan £119,000. Mae dau daliad mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2014-15 wedi eu cyfrifyddu o dan 2015-16.

Camddatganiadau a gywirwyd

11. Nid oes unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt.

Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

12. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd un mater yn codi yn y meysydd hyn eleni.

Mae un mater yn berthnasol i'r trosolwg o'r broses o adrodd ar faterion ariannol

13. Mae un mater yn berthnasol i'r trosolwg o'r broses o adrodd ar faterion ariannol, i'w dynnu at eich sylw.

Nid yw'r Gronfa Bensiwn wedi diweddarau ei Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi o fewn cyfnod o dair blynedd yn unol â'r anghenion a nodir yn y Datganiad yr amserlen a osodwyd yn y Datganiad

- Mae gofyn i'r Gronfa Bensiwn baratoi a chyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi Ysgrifenedig (SIP). Mae'r datganiad hwn yn nodi'r egwyddorion sy'n llywodraethu ei benderfyniadau ynglŷn â pholisi buddsoddi'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Datganiad yn nodi y bydd yn destun adolygiad llawn bob tair blynedd, o leiaf, gyda datganiad diwygiedig yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi. Fe ddylai hyn fod wedi digwydd erbyn 31 Mawrth 2015, felly mae bellach yn hwyr.

Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni adrodd arnynt i chi

14. Nid oes unrhyw faterion eraill i'w hadrodd i chi. Yn benodol:

- nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ar faterion ariannol;
- ni fu i ni ddod ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad;
- ni fu i ni drafod na gohebu ar unrhyw fater gyda'r tîm rheoli y mae angen i ni adrodd i chi arnynt;
- ni wnaethom adnabod unrhyw wendidau materol yn eich rheolaethau mewnol; ac
- nid oes unrhyw faterion penodol eraill y dylid eu cyfathrebu i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant yn ôl safonau archwilio.

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15

15. Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn [Atodiad 3](#).

Annibyniaeth a gwrthrychedd

16. Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
17. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydbertnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chronfa Bensiwn Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ

24 Medi 2015

Annwyl Syr,

Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2014-15

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, i gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.

-
- Ein gwybodaeth am dwyll, neu dwyll a amheuir, rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
 - Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
 - Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
 - Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

Mae adroddiad yr archwiliwr, ym mharagraff 10, yn cyfeirio at gamddatganiadau nas cywirwyd. Mae'r rhain yn drafodion oedd yn perthyn i 2014/15, ond a weithredwyd gan uned weinyddol y Gronfa Bensiwn ar ôl 31/03/2015. Does dim newid wedi cael ei wneud i rhain, gan nad ydi'r newidiadau yn cael eu hystyried yn arwyddocaol yn nhermau lefel materoliaeth ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Ym mharagraff 13, mae'r adroddiad yn nodi'r angen i adolygu Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn (y "SIP"). Bydd hwn yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi mewn paratoad ar gyfer y prisiant teirblynyddol fel ar 31/03/2016.

Sylwadau gan Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 24 Medi 2015.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Yn gywir,

.....

DAFYDD L EDWARDS
PENNAETH CYLLID

Dyddiad

.....

CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS
CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Chronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau materol berthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n faterol berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n faterol berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol berthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys camddatganiadau ffeithiol materol berthnasol neu mae'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwyf wedi cynnal yr archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ni ellir cwblhau'r archwiliad yn ffurfiol na chyflwyno tystysgrif archwilio nes y bydd ymholiadau sy'n codi o gwrthwynebiad a godwyd gan aelod o'r cyhoedd wedi cael ei gwblhau'n ffurfiol. Rwyf yn fodlon na fydd y swm sy'n destun y gwrthwynebiad yn cael effaith sylweddol ar y datganiad o'r cyfrifon.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Xx Medi 2015

Atodiad 3

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2014-15

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf.

Mater sy'n codi 1 - Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

| | |
|---|--|
| Canfyddiadau | Nid yw'r Gronfa Bensiwn wedi adolygu ei Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi o fewn yr amserlen a osodwyd yn y Datganiad. |
| Blaenoriaeth | Canolig |
| Argymhelliad | Fe ddylai'r Gronfa Bensiwn adolygu ei Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi i sicrhau ei fod yn darparu fframwaith cyfredol ar gyfer gweithredu o fewn y tair blynedd nesaf. |
| Buddiannau gweithredu'r argymhelliad | Darparu set o Egwyddorion Buddsoddi cyfoes er mwyn gweithredu oddi mewn iddynt. |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Ie |
| Ymateb y rheolwyr | Byddwn ni yn cydymffurfio gyda'r argymhelliad uchod yn y dyfodol agos wrth baratoi ar gyfer y prisiad teirblyneddol fel ar 31/03/2016. |
| Dyddiad gweithredu | 2015-16 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Eitem 6

| | |
|---------------|---|
| CYFARFOD: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 24 MEDI 2015 |
| TEITL: | RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN |
| PWRPAS: | Mae Côt Ymarfer CIPFA yn argymhell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. |
| ARGYMHELLIAD: | DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH |
| AWDUR: | DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID |

CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ystod y cyfnod pum mis rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2015, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle roedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

1. CEFNDIR

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn).

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2015/16 gan y Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2015, a gellir ei weld ar y we yn [https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2014-15/Cyngor Llawm Full Council/2015-03-05](https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2014-15/Cyngor%20Llawn%20Full%20Council/2015-03-05).

Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddiwyd ac effaith referniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys a'r monitro risg a rheolaeth risg cysylltiedig.

2. Y CYD-DESTUN ALLANOL

Ar ddechrau'r flwyddyn, bu i ddigwyddiadau yng ngwlad Groeg wthio data economaidd i'r cysgod. Roedd sylw'r marchnadoedd yn canolbwyntio ar y broblem Roegaid ddi-diwedd ac fe drodd o fod yn helbul i fod yn argyfwng, gan beri risg o orfod gadael yr Ewro. Prin iawn oedd gwleidyddion y wlad a chynrychiolwyr 'Troika' ei chredydwyr - y Comisiwn Ewropeaidd (CE), Banc Canolog Ewrop (BCE) a'r *International Monetary Fund* (IMF) - yn cytuno. Methodd Groeg â thalu ad-daliad wedi'i drefnu i'r IMF ar 30

Mehefin. Nid yw hyn yn ei hun yn ddiffyg nes bod Rheolwr Gyfarwyddwr yr IMF yn ei alw'n ddiffyg. Bu i'r Prif Weinidog Tsipras ddychryn credydwr Groeg gan alw refferendwm ar 5 Gorffennaf ar gynigion diwygio, a oedd eisoes tu hwnt i ystyriaeth. Rhewodd Banc Canolog Ewrop gymorth hylifedd a ddarparwyd i fanciau Groeg, a bu i reolaethau cyfalaf o fewn y wlad gyfyngu mynediad unigolion a chorfforaethau at arian yn sylweddol.

Ar 12 Gorffennaf, yn dilyn Uwchgynhadledd o'r Undeb Ewropeaidd dros benwythnos, cyhoeddwyd fod telerau *bailout* Groeg wedi'u cytuno am y trydydd tro. Cytunwyd ar fargen, a oedd werth €86 biliwn, dan y telerau y byddai Groeg yn profi cynydd mewn trethi, diwygiadau pensiwn a phreifateiddio; yr union ddiwygiadau yr oedd Tsipras wedi addo gwrthsefyll yn eu herbyn. Ar 27 Awst, ymddiswyddodd Alexis Tsipras o'i swydd fel Prif Weinidog Groeg ar ôl dim ond wyth mis gan alw etholiad brys, i'w gynnal ar 20 Medi. Mae'n debyg mai ceisio cadarnhau grym ei lywodraeth ydoedd, ond mae arolygon barn yng Ngroeg yn awgrymu fod hyn wedi methu, gyda'r blaid ganol-dde *New Democracy* yn ennill cefnogaeth ac yn rhedeg am y gorau gyda *Syriza*. Mae'r ansicrwydd gwleidyddol yn parhau.

Yn ogystal, yn ystod yr haf gwelwyd y sylw yn symud tuag at Tsieina gan i fynegai cyfansawdd Shanghai (sy'n cynrychioli prif farchnad stoc Tsieina), a oedd wedi cynyddu mwy na 50% ers dechrau 2015, ddisgyn 43% mewn llai na thri mis gyda cholled o \$3.2 triliwn i fuddsoddwyr yn ôl y son. Digwyddodd hyn oherwydd pryderon am dwf ac ar ôl i reoleiddwyr dynhau gweithgarwch benthyg gorsymiant mewn ymdrech i atal buddsoddwyr rhag benthyg i fuddsoddi, a rhag ymchwyddo'r farchnad stoc. Bu i awdurdodau Tsieineaidd ddwysau eu hymyrraeth ym marchnadoedd gan atal masnachu mewn llawer o stociau er mwyn ceisio cynnal hyder y farchnad. Fe wnaethon nhw synnu marchnadoedd rhyngwladol ym mis Awst wrth i'r *People's Bank of China* newid y ffordd y mae'r yuan yn cael ei osod yn erbyn doler yr UDA a alluogodd dibrisiad mawr o'r arian cyfredol. Bu i hyn ddychryn marchnadoedd Asia, Ewrop a'r UDA gan effeithio ar arian, ecwiti, nwyddau, olew a metel. Ar 24 Awst, bu i stociau Tsieineaidd ddioddef y cwmp undydd mwyaf a adroddwyd erioed, gan wthio marchnadoedd ecwiti i lawr o gwmpas y byd. Cyn pen dim, cafodd y diwrnod hwn ei adnabod fel 'Black Monday' arall.

Economi'r DU: Mae'r economi wedi parhau'n wydn dros y chwech mis diwethaf. Er i dwf economaidd arafu yn Ch1 2015 i 0.4%, roedd twf blwyddyn/blwyddyn hyd at Mawrth 2015 yn 2.9%, sy'n weddol iach. Daeth twf GDP yn ôl at ei hun yn Ch2 2015, a chadarnhawyd hwnnw yn 0.7%, gyda twf blwyddyn/blwyddyn yn arafu mymryn, gan leihau i 2.6%. Erbyn hyn, mae GDP wedi cynyddu am ddeg chwarter dilynol, gan dorri patrwm o dwf araf a thwf afreolaidd ers 2009. Ym mis Ebrill, roedd cyfradd flynyddol chwyddiant prisiau defnyddwyr yn negatif am gyfnod, gan syrthio i 0.1%, cyn dychwelyd i 0.1%, 0.0% ac 0.1% ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf yn eu tro. Yn Adroddiad Chwyddiant Chwarterol mis Awst, bu i Fanc Lloegr rhagweld y byddai twf GDP yn parhau o gwmpas ei gyfradd gyfartalog ers 2013. Ni fu llawer o newid yn rhagamcanion chwyddiant Banc Lloegr ers adroddiad mis Mai; roedd disgwyl i chwyddiant gynyddu'n raddol i oddeutu 2% dros yr 18 mis nesaf ac yna parhau ar hynny yn y dyfodol agos. Bu i welliant pellach yn y farchnad lafur achosi i gyfradd ddiweithdra'r ILO ddisgyn i 5.5% yn ystod y tri mis yn arwain at mis Ebrill, er i hyn ddringo'n ôl i 5.6% yn y misoedd canlynol. Yn adroddiad mis Awst, bu i enillion cyfartalog (nad oedd yn cynnwys enillion bonws) gynyddu 2.8% blwyddyn/blwyddyn ar gyfer y tri mis hyd fis Mehefin.

Gwelwyd newidiadau mawr i'r dirwedd wleidyddol gyda chanlyniad yr etholiad cyffredin, a welodd frwydr dros ddulliau'r pleidiau o ddelio â chanlyniadau'r diffyg strwythurol a chyflymder ei ddiddymiad. Rhoddodd hyn y brif fater o berthynas y DU gyda'r UE wrth galon gwleidyddiaeth y dyfodol.

Arafodd economi'r UDA i 0.6% yn Ch1 2015 oherwydd tywydd drwg, toriadau gwariant cwmnïau ynni ac effeithiau doler gryf. Fodd bynnag, dangosodd GDP Ch2 welliant mawr, gan iddo gyrraedd 3.7% diwygiedig (blynyddol). I raddau helaeth, roedd hyn oherwydd gwelliant eang mewn buddsoddiad corfforaethol ynghyd â pherfformiad cryfach gwariant ac allforio cwsmeriaid a'r llywodraeth. Gan fod penderfyniad y Ffed ar gyfradd llog yr UDA yn ddibynnol ar ddata, mae'r GDP yn amlwg yn gefnogol. Fodd bynnag, nid yw mor syml â hynny, ac mae'r Ffed yn awyddus i weld chwyddiant yn cynyddu, ynghyd â'i dwf economaidd a'i farchnadoedd llafur. Nid oedd marchnadoedd yn gallu penderfynu ar ragweld cynnydd yng nghyfradd ym mis Medi neu ym mis Rhagfyr.

Ymateb y Farchnad: Yn gychwynnol, ymatebodd y marchnadoedd ecwiti'n bositif i'r cynnydd yn y disgwyladau ar amodau economaidd rhyngwladol, ond bu iddynt gael eu niweidio oherwydd methiant i negodi â chredydwr gwlad Groeg. Bu i Tsieina achosi helbul rhyngwladol yn y farchnad stoc ym mis Awst, gyda'r FTSE 100 yn disgyn oddeutu 8% dros nos ar 'Black Monday'. Nid yw indecsau wedi cyrraedd eu lefelau blaenorol, ond gwelwyd ychydig o welliant. Roedd marchnadoedd bond y llywodraeth yn eithaf cyfnewidiol gydag enillion yn cynyddu (h.y. prisiau'n gostwng) yn gychwynnol gan fod peryglon dadchwyddiant yn ymddangos i ostegu. Yna, bu i enillion ostwng yn sgil canlyniad etholiad cyffredin y DU ac wrth ailwerthuso ffactorau dadchwyddiant, cyn iddynt gynyddu unwaith eto. Gwelwyd enillion yn gostwng eto drwy fis Awst o ganlyniad i bryderon am Tsieina. Cafodd y farchnadoedd bondiau eu hystumio gan faint rhaglen QE Banc Canolog Ewrop, oedd mor fawr ei bod wedi achosi rhewiant yn y marchnadoedd hynny oedd eu hangen arni i gael y bondiau. Yn nodedig, digwyddodd hyn i fondiau llywodraeth yr Almaen (bunds) ble roedd gwerth enillion yn negatif.

Y Cyd-destun Lleol

Ar 31/3/2015, mesurwyd angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia er dibenion cyfalaf fel caiff ei fesur gan y Gofyn Benthycia Cyfalaf (CFR) yn £174.9m, tra roedd y cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio, sef yr adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi, yn £72.2m.

Ar 31/3/2015, roedd gan y Cyngor £113.7m o fenthyciadau a £56.5m o fuddsoddiadau. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir yn fenthycia mewnol.

Y Strategaeth Fenthycia

Ar 31/8/2015, roedd gan y Cyngor £113.5m o fenthyciadau (lleihad o £0.2m ers 31/3/2015), fel rhan o'i strategaeth i ariannu'r rhaglenni cyfalaf y flwyddyn flaenorol.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl benthyg yn ystod 2015/16.

Erys fforddiadwyedd a'r "gost cario" yn ddylanwadau pwysig ar strategaeth fenthycia'r Cyngor yn ogystal â'r ystyriaeth, o ran unrhyw fenthycia a wnaed cyn bod angen yr

arian, y byddai'n rhaid buddsoddi'r elw yn y marchnadoedd arian ar raddfa llog gymharol is na chost y benthyciad. Gan fod llog tymor byr wedi aros yn is na'r cyfraddau tymor hir, ac yn debygol o aros yn is, mae'r Cyngor wedi penderfynu ei bod o'n fwy cost effeithiol yn y tymor byr i ddefnyddio adnoddau mewnol yn lle benthycio.

Cafodd y buddion o fenthycia mewnol eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthycia tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthycia tymor hir yn codi. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw.

Gweithgareddau Benthycia 2015/16

| | Balans ar 01/04/15 £'000 | Dyled yn aedd- feddu £'000 | Benthycia newydd £'000 | Balans ar 31/05/15 £'000 | Cyfradd Gyfartal % a Bywyd Cyfartal (bl) |
|---|--------------------------------|-------------------------------------|------------------------------|--------------------------------|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf ("CFR") | 174,889 | | | | |
| Benthycia Tymor Byr ¹ | 214 | (106) | | 108 | 0 |
| Benthycia Tymor Hir | 111,107 | - | - | 111,107 | 5.78 |
| CYFANSWM BENTHYCA | 111,321 | (106) | - | 111,215 | 5.77 |
| Ymrwymadau Eraill Tymor Hir | 2,372 | (48) | - | 2,324 | 6.17 |
| CYFANSWM DYLED ALLANOL | 113,693 | (154) | - | 113,539 | 5.78 |
| Cynnydd/ (Gostwng) mewn Benthycia £'000 | | | | (154) | |

Diweddariad ar y Gyfradd Sicrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb): Roedd y Cyngor yn gymwys i fenthycia ar y 'Raddfa Sicrwydd' (0.20% islaw cyfradd safonol PWLB), am gyfnod o 12 mis o 01/11/2014. Ym mis Medi, cyflwynodd y Cyngor ei gais i'r Trysorlys er mwyn iddo gael mynediad at y raddfa ostyngedig hon am 12 mis arall, o 1 Tachwedd 2015.

LOBOs: Mae'r Cyngor yn dal £16.2m fel benthyciadau LOBO (*Lender's Option Borrower's Option*) lle mae gan y sawl sy'n rhoi'r benthyciad y dewis i gynnig cynnydd yn y gyfradd llog ar ddyddiadau penodedig, a byddai gan y Cyngor wedyn y dewis o un ai derbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r ddyled heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r dewis nesaf yn ystod 2018/19.

Aildrefnu Dyledion: Arhosodd y taliad premiwm ar gyfer ad-daliad cynnar o ddyled PWLB yn gymharol ddrud am fenthyciadau ym mhortffolio'r Cyngor ac felly nid oedd aildrefnu dyledion yn ddeniadol. O ganlyniad, ni fu unrhyw weithgarwch aildrefnu.

Mae newidiadau yn y portffolio dyledion dros y chwarter wedi llwyddo i leihau'r lefel o fenthyciadau, ynghyd â lleihau'r risg credyd, drwy ad-dalu'r benthyciadau o'r balansau buddsoddi.

¹ Benthyciada gyda aeddfeddrywd llai na flwyddyn.

Gweithgarwch Buddsoddi

Mae'r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant, ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn.

Mae'r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

Mae'r trawsddodiad y cyfarwyddebau Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth y DU yn rhoi baich achub banciau'r UE sydd yn methu ar fuddsoddwyr llywodraeth leol ansicredig trwy'r 'bail-in' dichonol ar adneuron banc ansicredig.

Oherwydd y risg cynyddol a pharhad dychweliadau isel ar fuddsoddiadau banc ansicredig tymor byr, mae'r Cyngor yn anelu i amryfalu i ddsbarthiadau asedau mwy diogel a/neu gyda dychweliad uwch yn ystod 2015/16. Yn y gorfennol buddsoddwyd mwyafrif arian dros ben y Cyngor mewn adneuron banc, tystysgrifau adneuron a chronfeydd marchnad arian ansicredig a thymor byr. Bydd arallgyfeirio i ernesau gyda chyfochrog a buddsoddiadau gyda sefydliadau nad ydynt yn destun 'bail-in' yn datblygu yn y dyfodol.

Gweithgareddau Buddsoddi yn 2015/16

| Buddsoddiadau | Balans ar 01/04/15 £'000 | Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Buddsoddiadau a ad-dalwyd £'000 | Balans ar 31/08/15 £'000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|--------------------------------|-----------------------------------|---------------------------------------|--------------------------------|-----------------------------|
| Buddsoddiadau ansicredig gyda sefydliadau ariannol wedi eu raddio A- neu uwch | | | | | |
| - cyfrifon alw | 18,420 | 56,470 | (69,765) | 5,125 | 0.42 |
| - adneuron a CDs | 37,002 | 42,000 | (46,002) | 33,000 | 0.70 |
| Buddsoddiadau sicr gyda sefydliadau ariannol | 1,121 | 1,102 | 0 | 2,223 | 1.75 |
| - Bondiau goryched | | | | | |
| - Bondiau corfforaethol gan cwmni wedi eu raddio A- neu uwch | 0 | 2,018 | 0 | 2,018 | 0.87 |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi eu cyfuno | 0 | 81,945 | (69,945) | 12,000 | 0.46 |
| CYFANSWM BUDDSODDIADAU | 56,543 | 183,535 | (185,712) | 54,366 | |
| Lleihad mewn Buddsoddiadau | | | | (2,177) | |

Diogelwch y cyfalaf sy'n parhau'n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartion y Cyngor, sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2015/16.

Aseswyd ansawdd credyd y gwrthbartion a'i fonitro drwy gyfeirio at y statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a benwyd gan y Cyngor oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's); prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol.

Oherwydd y risg gynyddol a pharhad dychweliadau isel o fuddsoddiadau banc ansicredig, mae'r Cyngor wedi arallgyfeirio i ddsbarthiadau asedau mwy sicr a gyda dychweliadau gwell fel bondiau gorchuddiedig sydd yn cael eu sicrhau gan asedau'r sefydliadau ariannol.

Risg Credyd

Crynohir isod ansawdd credyd y gwrthbartïon fel y'u mesurwyd trwy sgôr credyd:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd |
|----------|---------------------------------------|------------------------------------|--------------------------------------|-----------------------------------|
| 31/03/15 | 5.24 | A+ | 3.62 | 3.62 |
| 30/06/15 | 4.94 | A+ | 2.95 | 2.95 |

Sgorio:

- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.

- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.

-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1

-D = ansawdd credyd isaf = 26

Y nod = A- neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 7 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuron cyfnod cyfradd sefydlog a thystysgrifau adneuron, cronfeydd marchnad wedi'u cyfuno, bondiau gorchuddiedig a bond corfforaethol.

Diweddariad Gwrthbartïon

Yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r tair asiantaeth statysau credyd rhan fwyaf o sefydliadau ariannol wedi adolygu eu statysau i adlewyrchu colli cefnogaeth y llywodraeth, a'r potensial i golled amrywiol oherwydd methiant i ad-dalu wedi i nifer o wledydd gael trefniadau 'bail-in' newydd. Er gwaethaf y lleihad mewn cefnogaeth llywodraethol, bu i sawl sefydliad gael eu huwchraddio oherwydd gwelliant yn eu cryfder gwaelodol ac asesiad yn dangos fod lefel diffygion o ganlyniad i fethu â thalu yn isel.

Arolygodd Fitch statysau credyd sawl sefydliad ym mis Mai. Bu i'r rhan fwyaf o fanciau'r DU weld newid yn eu statws cefnogaeth o 1 (oedd yn dynodi tebygolrwydd uchel iawn o gefnogaeth) i 5 (oedd yn dynodi na ellir dibynnu ar gefnogaeth allanol). Canlyniad hyn oedd gostyngiad yn statws hir-dymor Royal Bank of Scotland (RBS) i BBB+ o A, *Deutsche Bank* i A o A+, *Bank Nederlandse Gemeeten* i AA+ o AAA ac ING i A o A+. Fodd bynnag, derbyniodd *JP Morgan Chase* a *Lloyds Banking Group* uwchraddiadau un-pwynt.

Caeodd Moody's ei arolwg ym mis Mehefin a bu iddo uwchraddio statysau hir-dymor *Close Brothers*, *Standard Chartered Bank*, *ING Bank*, *Goldman Sachs International*, *HSBC*, *RBS*, *Coventry Building Society*, *Leeds Building Society*, *Nationwide Building Society*, *Svenska Handelsbanken* a *Landesbank Hessen-Thuringen*.

Bu i S&P gynnal arolwg o fanciau'r DU a'r Almaen ym mis Mehefin, gan ostwng statws hir-dymor Barclays i A- o A, RBS i BBB+ o A- a *Deutsche Bank* i BBB+ o A. O ganlyniad i hyn, mae'r Awdurdod wedi penderfynu gwahardd *Deutsche Bank* fel gwrthran i fuddsoddiadau newydd heb eu gwarantu. Newidiodd S&P rhagolwg y DU

yn gyfangwbl i negatiff o sefydlog, gan nodi pryderon ynglŷn â refferendwm wedi'i gynllunio ar aelodaeth yr UE a'i effaith ar yr economi.

Cyhoeddodd National Australia Bank (NAB) ei gynlluniau i ddihatru Clydesdale Bank, ei is-fanc yn y DU. Mae NAB eisiau rhestru Clydesdale ar Farchnad Stoc Llundain, a throsglwyddo perchnogaeth i gyfranddalwyr cyfredol NAB. Rhoddodd Fitch statysau hir-dymor a byr-dymor y banc ar *rating watch negative*, ond mae disgwyl i'r asiantaeth ddatrys hyn unwaith bydd y gwerthiant wedi ei gwblhau. Mae S&P hefyd wedi rhoi statws hir-dymor Clydesdale Bank ar *credit watch negative* yn dilyn y cyhoeddiad.

Cyllidebu Incwm ac Alldro

Roedd y balansau arian cyfartalog yn ystod y cyfnod yn £57.3m. Cadwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Arhosodd cyfraddau marchnad arian byr dymor ar lefelau gweddol isel. Gwnaed adneuron newydd ar gyfradd cyfartalog o 0.70%. Cynhyrchodd buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian gyfraddau cyfartalog o 0.46%.

Amcangyfrifwyd byddai incwm buddsoddi'r Cyngor yng nghyllideb eleni yn £0.4m. Rydym yn rhagweld alldro buddsoddi o £0.53m ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Diweddariad ar Fuddsoddiad Banciau Gwlad yr Iâ

Bellach, mae'r Cyngor wedi adennill 98% o'i fuddsoddiad ym manc Heritable. Erbyn hyn £80,376 yw'r swm heb ei dalu. Mae'n debygol y bydd dosraniad pellach yn cael eu derbyn er nad yw'r gweinyddwyr wedi gwneud amcangyfrif swyddogol o'r adenillion terfynol eto.

Cydymffurfio â Dangosyddion Darbodus

Mae'r Cyngor yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'i Ddangosyddion Darbodus am 2015/16, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2015 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

Risg Cyfraddau Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|--|----------------|----------------|----------------|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Gwir | 100% | | |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |
| Gwir | 0% | | |

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Upper | Lower | Actual |
|---------------------------------|-------|-------|--------|
| Dan 12 mis | 25% | 0% | 1.74% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% | 2.25% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% | 16.24% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% | 10.06% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% | 32.00% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% | 13.62% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% | 1.56% |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100% | 0% | 22.53% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyt na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---------|---------|---------|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £30m | £25m |
| Gwir | £3.22m | £2.22m | £2.22m |

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwysu'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | Target | Actual |
|-----------------------------------|--------|--------|
| Sgor credyd cyfartal y portffolio | 6.0 | 4.06 |

Hyfforddiant Buddsoddi

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

Rhagolygon Ch3 a Ch4 2015/16

Mae Arlingclose yn parhau i ddisgwyl gweld y cynnydd cyntaf yng Nghyfraddau'r Banc (cyfradd sylfaenol) yn ystod ail chwarter 2016. Bydd cyflymder cynnydd yn y gyfradd llog yn raddol, a'r graddau o gynnydd yn gyfyngedig. Mae lefel addas y Cyfraddau Banc ar gyfer economi'r DU yn dilyn yr argyfwng yn debygol o fod yn sylweddol is na'r norm blaenorol. Awgrymwn fod hyn rhwng 2.0% a 3.0%. Mae hefyd momentwm sylweddol yn economi'r UDA i'r Gronfa Ffederal gynyddu cyfraddau llog yn 2015, er y gallai peryglon yn ymwneud â phroblemau Tsieina oedi hyn.

Mae'n debyg y bydd yr amgylchedd rhyngwladol gwan a'r rhagolygon chwyddiant isel o ganlyniad i hynny yn lleffetheirio cyfraddau llog hir-dymor. Rydym yn rhagweld y bydd enillion gilt yn dilyn llwybr am i fyny yn y tymor canolig, oherwydd pryderon parhaus am Ardal yr Ewro, a digwyddiadau daear-wleidyddol eraill, gan ddibynnu ar yr awch i gymryd risg, tra bod disgwyliadau chwyddiant yn parhau'n isel. Mae'n debyg y bydd yr ansicrwydd yn ymwneud â phryd y bydd cynnydd yng nghyfraddau llog y DU a'r UDA, a'r helbul ym marchnad stoc Tsieina, yn ysgogi enillion gilt anwadal yn y byr-dymor.

| | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 | Jun-18 | Sep-18 | Average |
|--------------------------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|---------|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.32 |
| Arlingclose Central Case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.50 | 1.50 | 1.75 | 1.75 | 1.08 |
| Downside risk | | | | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -0.70 |

Dangosyddion Darbodus 2015/16

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Cynghorau Lleol (y Cod Darbodus) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf a cynghorau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod y Cyngor wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf: Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Cyngor fel a gynlluniwyd fel hyn:

| Gwariant Cyfalaf a Chyllido | 2014/15 Gwir £m | 2015/16 Amcangyfrif £m | 2016/17 Amcangyfrif £m | 2017/18 Amcangyfrif* £m |
|-----------------------------|-----------------------|------------------------------|------------------------------|-------------------------------|
| Cyfanswm Gwariant | 32.4 | 41.3 | 16.9 | 8.6 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1.9 | 1.5 | 0.0 | 0 |
| Grantiau Llywodraeth | 15.5 | 13.2 | 4.3 | 2.9 |
| Cronfeydd | 6.4 | 8.1 | 1.2 | 2.9 |
| Refeniw | 4.1 | 4.5 | 6.6 | 0 |
| Benthyca | 4.5 | 14.0 | 4.8 | 2.8 |
| Cyfanswm Cyllido | 32.4 | 41.3 | 16.9 | 8.6 |

* Nid yw'r amcangyfrif ar gyfer 2017/18 yn cynnwys cynlluniau newydd gan nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo eto.

Amcangyfrif Gofyn Cyllido Cyfalaf: Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 31/03/15 Gwir £m | 30/03/16 Amcangyfrif £m | 31/03/17 Amcangyfrif £m | 30/03/18 Amcangyfrif £m |
|---------------------------|------------------------|-------------------------------|-------------------------------|-------------------------------|
| Cronfa Gyffredinol | 174.9 | 179.0 | 182.9 | 179.5 |

Rhagwelir y bydd y CFR yn cynyddu o £4.6m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled gynyddu'n uwch na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf: Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| Dyled | 31/03/15 Gwir £m | 31/08/15 Gwir £m | 31/03/16 Amcangyfrif £m | 31/03/17 Amcangyfrif £m | 31/03/18 Amcangyfrif £m |
|-----------------------|------------------------|------------------------|-------------------------------|-------------------------------|-------------------------------|
| Benthyciadau | 112.4 | 111.3 | 111.1 | 109.1 | 106.6 |
| Lesau Cyllidol | 2.5 | 2.5 | 2.3 | 2.2 | 2.1 |
| Cyfanswm Dyled | 114.9 | 113.8 | 113.4 | 111.4 | 108.7 |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

Mae gwir lefelau'r ddyled yn cael ei fonitro yn erbyn y Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol isod.

Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol: Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif y Cyngor o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib.

| Ffin Weithredol | 2014/15 £m | 2015/16 £m | 2016/17 £m | 2017/18 £m |
|-----------------------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Benthyciadau | 175 | 175 | 175 | 175 |
| Ymrwymadau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Dyled | 175 | 175 | 175 | 175 |

Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol: Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthycia fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all y Cyngor fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| Terfyn Awdurdodedig | 2014/15 £m | 2015/16 £m | 2016/17 £m | 2017/18 £m |
|-----------------------------|---------------|---------------|---------------|---------------|
| Benthyciadau | 195 | 195 | 195 | 195 |
| Ymrwymadau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm Dyled | 195 | 195 | 195 | 195 |

Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net: Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

| Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net | 2014/15 Gwir % | 2015/16 Amcangyfrif % | 2016/17 Amcangyfrif % | 2017/18 Amcangyfrif % |
|--|----------------------|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|
| Cronfa Gyffredinol | 5.08 | 5.68 | 5.81 | 5.73 |

Effaith Ychwanegol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddi Cyfalaf: Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb referniw y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol a'r gofyn cyllideb referniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf | 2015/16 Amcangyfrif £ | 2016/17 Amcangyfrif £ | 2017/18 Amcangyfrif £ |
|---|--------------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|
| Cronfa Cyffredinol- Cynnydd ym Mand D y Dreth Gyngor | 0 | 0 | 0 |

Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA: Ym mis Mawrth 2011, fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu *Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (Rhifyn 2011)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth.

Eitem 7

| | |
|---------------------|---|
| PWYLLGOR | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD | 24 MEDI 2015 |
| TEITL | ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIUYD AR 20 AWST 2015 |
| AWDUR | JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO |
| GWEITHREDIAD | DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION |

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 24 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Chwefror a 30 Mawrth 2015 (adroddiadau o gynllun archwilio 2014/15). Derbyniodd 5 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.
- 1.2 Ymhellach, cyflwynwyd 7 o grynodedau gweithredol i'r Pwyllgor Archwilio ar 16 Gorffennaf, 2015 sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2015 (adroddiadau o gynllun archwilio 2015/16). Derbyniodd 2 o'r adroddiadau hyn farn 'C',
- 1.3 Yn ogystal â'r 7 adroddiad yma, penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Gweithgor hefyd ystyried adroddiad Gorfodaeth Parcio oedd wedi derbyn barn 'B'.
- 1.4 Yn y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2015, tynnodd aelod sylw at fater oedd yn peri pryder iddo, sef Prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle Cyf. Awgrymais yn y Pwyllgor y gellid gwahodd y swyddogion perthnasol i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau i drafod y mater gyda'r aelod yn bresennol.

2. CYFARFOD Y GWEITHGOR

- 2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 20 Awst gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Angela Russell, Trefor Edwards a Dilwyn Morgan a Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio yn bresennol. Hefyd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol oedd Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg.
- 2.2 Yn ogystal â threfniadau prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu, yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN |
|--|--------------------------------|--|-------------|
| Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | C |
| Gorfodaeth Parcio | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | B |
| Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig | Corfforaethol | | C |
| Taliadau Cymorth Cyntaf | Corfforaethol | | C |
| System Swyddi | Corfforaethol | | C |
| Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gofal Cymunedol | C |
| Gwasanaethau Plant – Comisiynu Gofal | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | C |
| Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriol Gwynedd | Economi a Chymuned | Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau | C |

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod yr eitemau.

2.4 Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Un o'r prif wendidau a amlygwyd yn ystod yr archwiliad oedd nad oes gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth gynllun parhad gwasanaeth cyfredol. Mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer nifer o wasanaethau sydd ag anghenion gwahanol o fewn y Cyngor ac felly mae'n hanfodol bod eu hanghenion yn cael eu hamlygu a bod mesurau mewn lle ar gyfer adfer eu gwasanaeth penodol hwy. Gwelwyd bod dogfen 'IT Disaster Recovery Plan' wedi ei lunio ar gyfer adfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd o safbwynt Technoleg Gwybodaeth. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod cynllun parhad gwasanaeth yn unol â'r templed sydd wedi ei gynhyrchu gan fforwm cydweithio gwasanaethau awdurdodau Gogledd Cymru yn cael ei baratoi. Er nad oes cynllun mewn lle, mae trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer adolygu'r trefniadau yn yr wythnosau nesaf.

Gwendid arall a amlygwyd oedd nad oedd gwaith profi wedi cymryd lle ers sawl blwyddyn, gall hyn olygu nad yw prosesau'n gweithio'n effeithiol. Nodir bod trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer Hydref, 2015 erbyn hyn.

- 2.4.2 Croesawyd Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid, Cyllid, i'r cyfarfod.
- 2.4.3 Cyflwynwyd cefndir i'r adroddiad gan y Rheolwr Archwilio. Eglurodd bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y cynllun archwilio oherwydd y pwysigrwydd i ddarparu gwasanaeth i bobl Gwynedd o dan unrhyw amgylchiadau. I'r perwyl hyn, mae'n hanfodol bod cynlluniau priodol er mwyn sicrhau gwydnwch wedi ei sefydlu gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth oherwydd bod holl wasanaethau'r Cyngor yn ddibynnol ar y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i barhau i ddarparu gwasanaeth iddynt petai digwyddiad.
- 2.4.4 Mynegodd y Rheolwr Archwilio bod pwysau gwaith aruthrol ar y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, gyda sawl gwasanaeth yn cyflwyno ceisiadau iddynt am welliannu i'w systemau cyfredol ynghyd â datblygu datrysiadau yn sgil Adolygiadau Ffordd Gwynedd.
- 2.4.5 Ategodd y Rheolwr Archwilio bod archwiliad dilyniant wedi ei gynllunio ar gyfer chwarter 3 y flwyddyn gyfredol.
- 2.4.6 Eglurodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid bod y Gwasanaeth bellach yn atebol i'r Pennaeth Cyllid a'i fodlonrwydd gyda'r trefniant hyn. Mynegodd bod Tîm Rheoli Cyllid wedi adolygu eu cynlluniau parhad gwasanaeth a bod cynllun y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth eisoes wedi ei anfon at sylw'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant. Ymhelaethodd ei fod ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth newydd ar gyfer y Gwasanaeth a bydd y Strategaeth Ddrafft yn cael ei chyflwyno am gymeradwyaeth yn y dyfodol agos.
- 2.4.7 Holwyd yr Uwch Reolwr os oedd yn derbyn argymhellion yr adroddiad a mynegodd ei fod yn cytuno â'r holl argymhellion a bod gwaith eisoes ar y gweill i'w cyflawni. O safbwynt y gwaith profi gwydnwch, eglurodd y bydd cwmni trydydd parti yn profi gwydnwch Swyddfa'r Pencadlys ym mis Medi 2015 ac yna'r Ganolfan Gyswilt ym Mhenrhyndeudraeth a'r Pencadlys ym mis Hydref 2015.

- 2.4.8 Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid ei fod yn ymwybodol nad oedd y Gwasanaeth TG yn cyrraedd y gofynion disgwylidig yn llawn ond bod diffyg adnoddau wedi bod yn broblem. Roedd hefyd o'r farn bod yr adroddiad archwilio yn gwireddu ei bwrpas.
- 2.4.9 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau gweithredol sydd ar y gweill.

2.5 Gorfodaeth Parcio

- 2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gwelir fod y Bartneriaeth yn gweithredu'n llwyddiannus, a bod y Cyngor yn cael budd o fod yn rhan ohoni oherwydd bod arweiniad cadarn a chlir yn bodoli. Er llwyddiannau'r Bartneriaeth, teimlir y dylai'r uned fod â gweithdrefnau eu hunain wrth gefn rhag i ddigwyddiadau anrhagweledig orfodi i'r Bartneriaeth ddod i ben. Gwelir fod cydberthynas dda rhwng aelodau o'r tîm gorfodaeth parcio, a bod cyfathrebu cyson yn digwydd rhwng y Rheolwyr â'r staff rheng flaen. Teimlir bod yna le i ffurfioli'r cyfathrebu, drwy gynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Gwelir fod y staff yn gymwys i weithredu'n effeithiol yn eu rôl fel Swyddogion Gorfodaeth Sifil, ac mae trefniadau wedi eu sefydlu i'w diogelu wrth weithio o dan amodau ble mae risg uchel i'w iechyd a diogelwch. Ymddengys bod cefnogaeth gref iddynt gan y Rheolwyr. Mae'r modd yr adroddir ar y sefyllfa ariannol yn peri peth gofid, gan fod gwybodaeth anghywir ynglŷn â gwariant a'r gyllideb wedi ei anfon i'r Rheolwyr. Teimlir hefyd bod yr adroddiadau'n eithrio rhai manylion a allai fod o fudd i'r Rheolwyr.

- 2.5.2 Croesawyd Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Rheoleiddio i'r cyfarfod.
- 2.5.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio fod yr adroddiad wedi derbyn barn 'B' am fod y trefniadau a'r rheolaethau yn gyffredinol yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon. Er hyn, roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, o'r farn y dylai'r Gweithgor gael cyfle i drafod rhai elfennau penodol mewn mwy o ddyfnder.
- 2.5.4 Mynegodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi cwmpasu dyletswyddau gweithwyr a gweithio'n unig yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer incwm sy'n deillio o'r dirwyon parcio. Eglurodd bod elfennau o'r archwiliad yn gorgyffwrdd â materion yn yr adolygiad 'Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig'.
- 2.5.5 Cyfeiriodd y Pennaeth Rheoleiddio at un o'r prif risgiau a amlygwyd yn ystod yr archwiliad sef beth fyddai'r goblygiadau i Gyngor Gwynedd petai problem yn y bartneriaeth ac eglurodd y bydd hyn yn derbyn sylw serch bod trefniadau cyfredol y Bartneriaeth yn gweithredu'n dda gyda dau Gyngor arall wedi ymuno â'r Bartneriaeth yn ddiweddar. O safbwynt diogelwch y gweithwyr gorfodaeth, eglurodd bod Cyngor Gwynedd yn y broses o gynnal peilot gyda camerâu corff (bodycam) a bod ymateb y swyddogion yn amrywio gyda rhai yn teimlo eu bod yn gysur iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau ac eraill o'r farn bod eu gwisgo yn gallu cynddeiriogi rhai aelodau o'r cyhoedd.

- 2.5.6 Ymholwyd y Pennaeth os oedd gan y Swyddogion Gorfodaeth Sifil Gytundebau Cyflogaeth, ac os oes ganddynt a oeddynt yn manylu ar eu horiau gwaith. Eglurodd y Pennaeth Rheoleiddio fod ganddynt gytundebau, ond nad oeddynt yn gweithio oriau sefydlog oherwydd yr angen iddynt weithio oriau hyblyg sydd yn ddibynnol ar yr angen i orfodi a ddaw rhan amlaf fel ymateb i gwynion. Mynegodd y cynhyrchir rotas ar gyfer y swyddogion sydd yn manylu ar eu horiau.
- 2.5.7 Holodd yr aelodau os oedd gan y Swyddogion Gorfodaeth Sifil yr hawl i weithio unrhyw oriau y dymument ac a oedd polisi yswiriant y Cyngor yn eu gwarchod bryd hynny. Eglurodd y Rheolwr Archwilio fod gan y Cyngor bolisi yswiriant 24 awr ac ategodd y Pennaeth Rheoleiddio bod rheolwyr llinell y Swyddogion Gorfodaeth Sifil yn ymwybodol o oriau gweithio'r swyddogion. Cytunodd ei bod yn hanfodol bod atebolrwydd os oes swyddog yn gweithio y tu hwnt i oriau'r rotas heb gyfarwyddyd.
- 2.5.8 Diolchwyd i'r Pennaeth Rheoleiddio am fynychu'r cyfarfod ac am ei atebion clir i egluro'r sefyllfa.

2.6 Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig

- 2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Edrychwyd ar sampl o 6 gwasanaeth ar draws y Cyngor. Gwelwyd nad oedd asesiad risg cyfredol ar gyfer gweithio'n unig mewn dros hanner y sampl, gyda rhai heb asesiad risg o gwbl. Mae'n bwysig sicrhau bod risgiau sy'n wynebu gweithwyr y Cyngor yn cael eu lliniaru cyn belled ag sy'n ymarferol bosib. Bydd adnabod y risgiau yn gymorth i wneud hynny ac i wneud penderfyniadau addas dros sut i'w lliniaru. Yn ogystal â hyn, mae angen nodi trefn waith ar gyfer gweithio'n unig sy'n cynnwys y camau y dylid eu dilyn a beth sy'n ddisgwyliedig o'r swyddogion sy'n gweithio'n unig. Mae cael y rhain yn ysgrifenedig yn cryfhau'r broses ac yn sicrhau fod y swyddogion yn ymwybodol o'r drefn ac nad oes camddealltwriaeth o beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae hefyd yn dystiolaeth bod y Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb i gymryd gofal rhesymol dros iechyd a diogelwch ei weithwyr o ddifrif. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg bod y Rheolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i sicrhau trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer eu gweithwyr.

Gwelwyd yn ogystal y byddai'n fuddiol i Reolwyr edrych i mewn i'r adnoddau a thechnoleg sydd ar gael i gefnogi gweithwyr unig fel y gellid gwneud y mwyaf ohonynt.

- 2.6.2 Croesawyd Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i'r cyfarfod ac arhosodd Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Rheoleiddio ar gyfer yr eitem.
- 2.6.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio yn sgil y penderfyniad i waredu system gorfforaethol gweithio'n unig. Er bod penderfyniad wedi ei gymryd i waredu'r system, mae'r Cyngor yn cymryd gofal rhesymol dros iechyd a diogelwch y gweithlu.

- 2.6.4 Pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio mai cyfrifoldeb y gwasanaethau yw sefydlu a chynnal asesiadau risg gweithio'n unig ac nid cyfrifoldeb y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant. Rôl ymgynghorol sydd gan y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant ond mae eu cyfrifoldebau'n ymestyn i gynnal gwiriadau cyfnodol o'r asesiadau risg ac i gynnig cyngor ac opsiynau petai angen.
- 2.6.5 Mae dyletswyddau rhai aelodau o staff yn golygu eu bod yn ymdrin â phobl mewn amgylchiadau anodd a sensitif ar adegau, boed hynny yn eu cartrefi neu ar y stryd. Felly, mae'n hanfodol bod rheolwyr y swyddogion hyn yn adnabod ac yn cofnodi sefyllfaoedd o risg uchel i ddiogelwch y gweithwyr hyn ac yn sicrhau eu bod wedi derbyn hyfforddiant berthnasol ar ddiogelwch personol.
- 2.6.6 Croesawodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yr hyn a fynegodd y Rheolwr Archwilio o safbwynt cyfrifoldebau ac ymhelaethodd mai prin iawn oedd y defnydd o'r system gweithio'n unig flaenorol a bod y polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi ei adolygu, a bydd yn derbyn sylw yn yr Hydref.
- 2.6.7 Eglurodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol bod tîm o swyddogion y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn y flwyddyn ddiwethaf wedi paratoi:
- Taflen gweithio'n unig
 - Aseiad risg generig ar gyfer gweithio'n unig
 - Gweithdrefn ar ddiogelwch personol
- Dywedodd bod 30 aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant diogelwch personol yn 2012-13, 100 yn 2013-14 a 268 yn 2014-15. Mae hyn yn gyfanswm o oddeutu 400 o staff. Fodd bynnag, eglurodd bod tua 1,000 o staff wedi eu hadnabod yn gweithio'n unig sy'n golygu mai ond oddeutu 40% sydd wedi derbyn hyfforddiant.
- 2.6.8 Gofynnodd aelod i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol os oedd yn cydweld â'r argymhellion a mynegodd ei fod yn croesawu'r argymhellion ac efallai y bydd posibilrwydd y buasai Archwilio Mewnol yn ystyried cynnal archwiliad ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol.
- 2.6.9 Mynegodd aelod y pwysigrwydd o godi ymwybyddiaeth gwasanaethau am ddiogelwch personol a gweithio'n unig a'r angen i staff fod yn ymwybodol o'r angen iddynt fynychu hyfforddiant
- 2.6.10 Diolchwyd i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol am amlinellu'r trefniadau a'r sefyllfa ddiweddaraf.

2.7 Taliadau Cymorth Cyntaf

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Dengys canlyniadau profion yr archwiliad a'r dystiolaeth gefnogol nad oes gweithdrefnau priodol mewn lle er mwyn sicrhau mai swyddogion cymwysedig yn unig sy'n derbyn yr taliadau misol. Gwelwyd fod nifer o enghreifftiau ble mae swyddogion yn derbyn taliadau, ond nad oes tystysgrif cymorth cyntaf cyfredol i gefnogi'r taliadau. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod dyletswyddau ar gyfer trefniadau cymorth cyntaf wedi eu hadnabod a bod hyfforddiant priodol ar eu cyfer. Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion yr Adran Adnoddau Dynol, daeth i'r amlwg nad oedd "Cymorth Cyntaf" wedi ei adnabod fel rhan o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr safle.

Gwelwyd fod y rhestrau o swyddogion cymorth cyntaf sydd yn cael eu harddangos yn y swyddfeydd yn cynnwys enwau'r swyddogion, rhifau ffôn, adran a lleoliad (gan gynnwys rhif ystafell os yn briodol). Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai rhestrau heb eu diweddarau ers peth amser ac felly yn cynnwys manylion anghywir, sy'n golygu na fuasai gan berson sydd angen cymorth cyntaf y gallu i ddod o hyd iddynt.

- 2.7.2 Roedd Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, yn bresennol i drafod yr eitem yma.
- 2.7.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio mai amcan yr archwiliad oedd sicrhau mai swyddogion gyda thystysgrifau hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol oedd yn derbyn taliadau. Nid oedd yr archwiliad yn cwmpasu staff canolfannau hamdden a chartrefi preswyl oherwydd bod unrhyw daliad mewn perthynas â chymorth cyntaf eisoes wedi ei adlewyrchu yn eu cyflog.
- 2.7.4 Mynegodd y Rheolwr Archwilio mai'r prif wendid oedd nad oedd Rheolwyr Safle prif swyddfeydd y Cyngor yn ymwybodol mai eu dyletswyddau hwy oedd sicrhau digonolrwydd Cymhorthion Cymorth Cyntaf. Eglurodd y bydd hyn yn cael sylw eto yn ystod y gwaith dilyniant sydd wedi ei gynllunio ar gyfer chwarter 3 2015-16.
- 2.7.5 Eglurodd y Rheolwr Archwilio, bod Archwilio Mewnol yn gwirio presenoldeb blwch cymorth cyntaf, ei gynnwys a'i leoliad ynghyd â gwirio manylion personau cymwys yn ystod pob archwiliad mewn sefydliadau ers Ebrill 2015. Cytunwyd hyn gyda Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol wrth drafod Cynllun Archwilio 2015-16.
- 2.7.6 Mynegodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ei fod yn croesawu'r cydweithio gydag Archwilio Mewnol a bod y gwiriadau a wneir gan Archwilio Mewnol mewn sefydliadau yn enghraifft wych o gydweithio ac yn gam i'r cyfeiriad cywir.
- 2.7.7 Eglurodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ei fod yn derbyn sylwadau'r adroddiad am fethiant rheolwyr safle'r prif swyddfeydd i gyflawni eu cyfrifoldebau'n llawn serch y ffaith eu bod yn cael cydnabyddiaeth ariannol am hyn ond ers rhyddhau'r adroddiad bod y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi canolbwyntio ar gynorthwyo'r rheolwyr safle hyn.

- 2.7.8 Ymhelaethodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol bod yr Adran Addysg wedi codi ymwybyddiaeth Penaethiaid ysgolion ond mai penderfyniad corff llywodraethol yr ysgol os telir y cymhorthyddion cymorth cyntaf ai peidio. Eglurodd ei fod yn anghenraid y swydd o fewn y Canolfannau Hamdden i feddu ar dystysgrif Cymorth Cyntaf a mynegodd bod y trefniadau o safbwynt tystysgrifau yn ddiffygiol. Dywedodd y dylai'r Rheolwyr Safle ysgwyddo eu cyfrifoldebau ond bod y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant ar gael i'w cefnogi.
- 2.7.9 Ymholodd aelod os oes 'defibrillator' yn swyddfeydd y Cyngor. Eglurodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y prynwyd un o arian wrth gefn y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a'i bod wedi ei leoli yn Siop Gwynedd a bod 'defibrillator' ym mhob canolfan hamdden.
- 2.7.10 Diolchwyd i'r Pennaeth Corfforaethol am ei sylwadau adeiladol.

2.8 System Swyddi

2.8.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Datblygwyd System Swyddi Gwynedd fel sail ar gyfer cynorthwyo gyda datrysiadau arfaethedig yn sgil adolygiadau Ffordd Gwynedd, e.e. hunanwasanaeth ar gyfer cyflwyno costau teithio a chynhaliaeth. Fodd bynnag, ar gyfer y gwasanaethau a ddetholwyd i'w gwirio, darganfuwyd bod gwendidau sylweddol yn bodoli, yn arbennig o safbwynt cywirdeb y fframwaith reoli hierarchaidd. Mae sawl ffactor yn cyfrannu at y methiant yma, gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth am y system o safbwynt rheolwyr, diffyg hyfforddiant priodol ar gyfer swyddogion y Gwasanaeth Cefnogol, a diffyg ymwybyddiaeth rheolwyr/uwch reolwyr o'r angen i gyflwyno unrhyw newidiadau mewn strwythur ac atebolrwydd at y gwasanaethau perthnasol o fewn yr Adran Adnoddau Dynol.

Gwelwyd bod manylion y system gyflogau yn cael eu cymharu â'r manylion yn y system swyddi yn ddyddiol (dros nos) - caiff y data ei gydweddu ar sail rhif swydd. Rhedwyd adroddiad "Swyddi Coll" a oedd yn manylu ar weithwyr oedd ar gyflogres ond nad oedd cofnod ohonynt yn y system swyddi. Darganfuwyd nad oedd ymchwiliadau yn cael eu cynnal i'r achosion hyn a gall methiant i wirio'r manylion arwain at y posibilrwydd bod gweithiwr ffug (ghost employee) ar y gyflogres. Mae manylion System Swyddi Gwynedd hefyd yn bwydo i'r Ddolen Dysgu, ac felly golyga nad yw manylion y basdata hynny yn gywir ychwaith ac felly gyda goblygiadau i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Nid oedd y system ychwaith yn cofnodi'n gywir yr oriau cytundebol ar gyfer gweithwyr oedd ar gytundeb dros dro ar bob achlysur. Mae'r mater hwn eisoes wedi ei adnabod ac yn derbyn sylw.

Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o waith ac ymdrech wedi ei roi at ddatblygu System Swyddi Gwynedd ac nid oes unrhyw feirniadaeth o safbwynt gweithrediad y system ond yn hytrach y manylion a fewnbynwyd i'r basdata. Os yw'r system am fod yn sail i ddatrysiadau mae'n hanfodol fod y data yn gywir, a bod trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer ymdopi gyda'r gweithwyr hynny sydd gyda swyddi lluosog.

- 2.8.2 Roedd Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, yn bresennol i drafod yr eitem yma.
- 2.8.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio mai basdata sydd yn cofnodi manylion strwythur y Cyngor yw'r System Swyddi – mae'r basdata yn cynnwys manylion yr hol swyddi sydd ar y strwythur ynghyd â deilydd pob swydd. Datblygiad mewnol yw y System Swyddi wedi ei ddatblygu ar gyfer gweithredu datrysiadau yn sgil Adolygiadau Ffordd Gwynedd. Y gobaith yw y bydd gweithdrefnau a systemau ar sail hunanwasanaeth, h.y. bydd staff gyda'r gallu i gyflwyno eu costau teithio/cais am wyliau/oriau hyblyg a.y.b. ar lein, gydag awdurdodiad/ardystiad minimal gan eu rheolwr llinell. Ar gyfer gweithredu hyn, mae'n hanfodol bod y goeden neu'r gadwyn reoli'n gywir ar unrhyw system a ddatblygir. Yn anffodus, trwy gynnal gwiriadau realiti, gwelwyd bod gwendidau sylweddol yn bodoli yng nghywirdeb y data.
- 2.8.4 Mynegodd y Rheolwr Archwilio bod gwendidau eraill wedi eu hamlygu, megis y goblygiadau ar fasdata y Gwasnaeth Dysgu a Datblygu sef y Ddolen Dysgu sydd yn darllen gwybodaeth o'r system swyddi, cofnodi oriau gweithwyr achlysurol a hefyd gweithwyr oedd mewn swyddi lluosog. Mae gwaith wedi ei wneud adroddiad i lanhau'r data ers rhyddhau'r adroddiad ond 'roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn bod llawer iawn o waith angen ei wneud cyn y gellir cyflwyno unrhyw ddatblygiad sydd yn ddibynnol ar gywirdeb manylion y system swyddi.
- 2.8.5 Eglurodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ei bod yn greiddiol i gael un basdata cyflawn a chywir yn sgil y penderfyniad i beidio caffael system gyflogau ac adnoddau dynol integredig. Eglurwyd i'r Gweithgor bod sawl gwasanaeth yn ddibynnol ar y wybodaeth graidd sydd yn y system swyddi, megis y Ddolen Dysgu a'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch.
- 2.8.6 Ers rhyddhau'r adroddiad, mae swyddog o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn y broses o ymweld â phob Uwch Reolwr yn y Cyngor i'w hyfforddi ar sut i wirio'r system ynghyd ag adolygu eu strwythurau. Cytunodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol bod angen rhoi sylw i staff sydd ar gytundebau dros dro ac achlysurol a bod 'swyddi coll' eisoes wedi derbyn llawer o bwyslais.
- 2.8.7 Diolchwyd i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol am fynychu'r cyfarfod.

2.9 Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol

- 2.9.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Dengys ganlyniadau profion yr archwiliad a'r dystiolaeth gefnogol nad oes gweithdrefnau priodol a chyson mewn lle ar draws y tair ardal er mwyn sicrhau cywirdeb yr hawliadau costau teithio. Yn anffodus, gall hyn gyfrannu at y ffaith bod cyllideb teithio 'Gofal Cymunedol' wedi gorwario oddeutu £128k yn ystod 2014-15. Gwelwyd fod y gwiriadau a wnaethpwyd ar y ffurflenni costau teithio yn canolbwyntio ar ddarlleniadau cloc milltiroedd y cerbydau yn hytrach na'r cyfanswm gaiff eu hawlio a sut mae hyn yn cymharu â'u rota gwaith. Fodd bynnag, gwelwyd yn ddiweddar bod un ardal wedi cymryd camau i gryfhau eu trefniadau yn dilyn darganfod bod y milltiroedd gaiff eu hawlio yn amheus o uchel.

- 2.9.2 Croesawyd Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r cyfarfod.

- 2.9.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yng nghynllun archwilio 2015-16 ar gais yr Uwch Reolwr Gweithredol, y Gwasanaethau Darparu (Gwenno Williams), oherwydd y gorwariant ar gyllideb costau teithio'r gweithwyr gofal cymunedol. Ymhelaethodd y Rheolwr Archwilio bod hyn wedi bod yn broblem gynyddol, gyda'r gorwariant yn cael effaith andwyol ar y gyllideb y Gwasanaethau Darparu.
- 2.9.4 Eglurwyd mai un o argymhellion yr archwiliad oedd lleihau'r pwyslais ar archwilio darlleniadau'r cloc milltiroedd a chanolbwyntio ar o ble i ble y teithiwyd. Mae hyn yn cydfynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd. Bu i'r Uwch Reolwr Gweithredol gytuno â'r argymhelliad ac mae hyn eisoes ar waith ar draws y Sir.
- 2.9.5 Mynegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant bod yr archwiliad yn ddarn o waith hynod o effeithiol. Eglurodd y gall y gorwariant fod yn gyfuniad o sawl ffactor gan gynnwys y posibilrwydd bod y gyllideb yn anghywir yn y lle cyntaf, ond ers derbyn yr adroddiad archwilio bod trefniadau newydd wedi eu mabwysiadu gan gynnwys sefydlu rotas a chofnodi'r milltiroedd sydd i'w hawlio ynghyd a thacluso'r rotas yn gyffredinol a bod canlyniad y gwaith yma'n galonogol.
- 2.9.6 Roedd un o'r aelodau yn bryderus am y gorwariant yn Ardal Dwyfor. Mynegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant nad oedd yn amlwg beth oedd y rheswm am hyn ond bod recriwtio gofalwyr yn ardal Meirionnydd yn broblemus.
- 2.9.7 Gofynnodd aelod faint o ofalwyr sydd yn gyflogedig gan y Cyngor. Mynegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant bod dros 800 o ofalwyr yn gyflogedig ar hyn o bryd.
- 2.9.8 Ymholodd aelod a gaiff y pecynnau gofal eu hadolygu. Eglurodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant y caiff y pecynnau eu hadolygu a'u bod yn ystyried darparu cyfarpar i'r unigolyn yn hytrach na darparu gofal os yw hynny'n berthnasol a bod rhai cynlluniau arbedion yr Adran yn seiliedig ar adolygiadau o'r pecynnau gofal hyn.
- 2.9.9 Diolchwyd i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant am fynychu'r cyfarfod ac am ddiweddarau'r Gweithgor o'r datblygiadau a'r cynlluniau sydd ar y gweill.

2.10 Gwasanaethau Plant – Comisiynu Gofal

2.10.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Darganfuwyd rhai enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn i'r Gwasanaeth Adnoddau Gofal/Comisiynu - Tîm Ôl-16. Gwelwyd bod trefniadau da mewn derbyn ac asesu ceisiadau a bod y cytundebau / cytundeb lefel gwasanaeth yn ddigon manwl a phenodol. Gwelwyd bod fframwaith ar gyfer comisiynu gofal i blant ôl-16. Fodd bynnag, ymddengys nad oes llawer o ddarparwyr yn cynnig y gwasanaeth angenrheidiol yn lleol. Gwelwyd nad oedd monitro cadarn ar ddarparwyr y gwasanaeth a bod yr elfen gyllid angen ei monitro yn rheolaidd. Yn anffodus, ni dderbyniwyd rhai dogfennau ar gyfer rhai o'r profion gan y Gwasanaeth yn dilyn nifer o ymdrechion a cheisiadau am y dystiolaeth. Dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn maes yr archwiliad.

2.10.2 Croesawyd Kevin Thomas, Rheolwr Tîm Ôl-16, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i'r cyfarfod.

- 2.10.3 Rhoddwyd cefndir i'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Prif argymhelliad yr archwiliad oedd yr angen i sefydlu "Individual Placement Agreement" neu Gytundeb Lleoli Unigol. Mae hyn wedi ei weithredu'n rhannol - gwelwyd bod Cytundeb Lleoli Unigol wedi ei gynhyrchu a'i ddyrannu i aelodau o staff gyda chyfarwyddyd iddynt sicrhau gweithrediad erbyn diwedd Awst.
- 2.10.4 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod archwiliad dilyniant eisoes wedi ei chynnal, gyda'r canlyniad bod gweithrediad yn dderbyniol gydag 8 argymhelliad un ai wedi eu gweithredu neu eu gweithredu'n rhannol.
- 2.10.5 Rhoddwyd ychydig o gefndir i'r maes gwaith gan y Rheolwr Tîm Ôl-16 a mynegodd bod eu trefniadau wedi bod yn anffurfiol ac adhoc a'i fod yn cytuno gyda'r archwilwyr o'r angen i gael mwy o strwythur i'r trefniadau. Eglurodd mai'r 'Cynllun Llwybr' sydd yn manylu ar anghenion yr unigolyn a bod elfennau o'r 'Cynllun Llwybr' bellach wedi eu hymgorffori yn y 'Cytundeb Lleoli Unigol'.
- 2.10.6 Ymholodd aelod os oedd y Rheolwr Tîm Ôl-16 yn derbyn argymhellion yr adroddiad archwilio. Mynegodd y Rheolwr Tîm Ôl-16 ei fod yn derbyn yr argymhellion yn llawn.
- 2.10.7 Gofynnodd aelod pam fod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio 2014-15. Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod yr archwiliad yn y Cynllun Archwilio blynyddol yn sgil trafodaeth yn Nhîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol (fel yr oedd ar y pryd) oherwydd bod hwn yn faes gydag elfennau o risg uchel.
- 2.10.8 Diolchwyd i'r Rheolwr Tîm Ôl-16 am fynychu'r cyfarfod ac amlinellu'r datblygiadau ers rhyddhau'r adroddiad archwilio.

2.11 Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriol Gwynedd

- 2.11.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Er bod camau wedi eu gwneud i gryfhau'r rheolaethau mewnol wrth i'r cynllun datblygu fynd yn ei flaen, gwelwyd fod gwendidau yn y trefniadau rheoli risg yn gynnar yn y prosiect. Y pennaf o'r rhain oedd methiant i sefydlu cytundeb ysgrifenedig o dan sêl yn unol â'r disgwyliadau, er bod y ddogfen tendr a gyflwynwyd yn lliniaru nifer o'r risgiau hyn. Gwelwyd hefyd na sefydlwyd bond gyda'r contractwr ar un cam o'r prosiect.

Erbyn rhyddhau'r adroddiad yma, roedd y materion hyn wedi cael eu cywiro.

- 2.11.2 Croesawyd Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned a Roland Evans, Uwch Reolwr Twristiaeth a Threftadaeth i'r cyfarfod.

- 2.11.3 Rhoddwyd cefndir i'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Rhan o raglen a gaiff ei ariannu gan Môn Menai a Cronfa Treftadaeth y Loteri yn ogystal ag arian gan Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor yw Amgueddfa ac Oriel Gwynedd. Lleolir yr Amgueddfa a'r Oriel yng nghyn-adeilad Neuadd y Dref, Bangor. Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y prif faterion a amlygwyd yn yr archwiliad - sef methiant i sefydlu cytundeb ysgrifenedig dan sêl a sefydlu bond gyda chontractwr - wedi derbyn sylw yn ystod y cyfnod rhwng cyhoeddi'r adroddiad drafft a'r adroddiad terfynol, sydd yn ganmoladwy
- 2.11.4 Mynegodd y Rheolwr Archwilio bod archwiliad dilyniant wedi ei gynllunio ar gyfer chwarter 4 y flwyddyn gyfredol a bydd yr archwiliad hynny yn cwmpasu elfennau cau'r prosiect gan gynnwys cynhyrchu adroddiad cau prosiect, adroddiad gwersi a ddysgwyd ynghyd ag adroddiadau cyllidebol yn ogystal â gwirio bod gweithrediad priodol ar argymhellion yr adroddiad gwreiddiol.
- 2.11.5 Eglurodd yr Uwch Reolwr Twristiaeth a Threftadaeth mai Adran Economi a Chymuned ofynnodd i Archwilio Mewnol gynnal archwiliad ar y prosiect hwn oherwydd mai dyma'r grant mwyaf mae Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi ei ddyfarnu yng Nghymru. Eglurodd bod y prosiect yn uchelgeisiol ac nad oedd y Gwasanaeth yn gyfarwydd â rheoli prosiectau o'r raddfa hyn. Mynegodd bod Archwilio Mewnol wedi adnabod bylchau yn sgil yr archwiliad ond mai'r pwrpas oedd sicrhau bod trefniadau yn gweithredu'n effeithiol.
- 2.11.6 Ymholodd aelod pam y gwnaethpwyd taliad cyn i'r gwaith gael ei orffen a pham nad arwyddwyd y cytundeb pan ddyfarnwyd y contractwr. Eglurodd yr Uwch Reolwr Twristiaeth a Threftadaeth y bu'n anorfod i wneud y taliad neu gollir arian grant. Mynegodd bod y cytundeb wedi ei arwyddo yn ddiweddarach ac nad oedd hynny yn unigryw i gynlluniau cyfalaf.
- 2.11.7 Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bwysigrwydd cydbwysu risg - beth yw'r risg o weithredu yn erbyn y risg o beidio gwneud, a'r pwysigrwydd bod popeth yn cael ei ystyried. Mynegodd y Pennaeth Economi a Chymuned bod log gwersi a ddysgwyd wedi ei baratoi ynghyd â chofrestr o'r risgiau.
- 2.11.8 Ymholodd aelod os oedd y gwaith wedi ei gwblhau. Eglurodd y swyddogion Economi a Chymuned bod yr adeilad wedi ei drosglwyddo ar 20 Awst, 2015 ac anelir i agor yn ystod gwyliau hanner tymor Hydref 2015.
- 2.11.9 Eglurodd y swyddogion Economi a Chymuned eu bod yn gweithio'n agos gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a bod yr Adran Cyllid yn paratoi adroddiadau monitro ar eu cyfer. Hefyd, eglurwyd bod Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi amlygu'r risg nad oedd tîm llawn amser ynghlwm â'r prosiect. Eglurodd yr Uwch Reolwr Twristiaeth a Threftadaeth eu bod yn y broses o werthuso ymgwymerwyd i werthuso'r prosiect.
- 2.11.10 Diolchwyd i'r Pennaeth Economi a Chymuned a'r Uwch Reolwr Twristiaeth a Threftadaeth am fynychu'r cyfarfod ac am eu sylwadau.

2.12 Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu - Trefniadau Prydlesu

- 2.12.1 Roedd Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned, yn bresennol i drafod yr eitem yma.
- 2.12.2 Yn y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2015, tynnodd aelod sylw at fater oedd yn peri pryder iddo, sef Prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle Cyf. Awgrymodd y Cadeirydd yn y Pwyllgor y gellid gwahodd y swyddogion perthnasol i gyfarfod nesaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau i drafod y mater gyda'r aelod yn bresennol.
- 2.12.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus am arian grant Cyfenter - grant i fuddsoddi yn adnewyddu adeilad Tŷ'r Ysgol, Rhyd Ddu. Mae Cyfenter yn cynnig buddsoddiad i Fentrau Cymdeithasol, felly, roedd yn angenrheidiol i adlynu i amodau a thelerau'r grant. Busnes sy'n masnachu am bwrpas cymdeithasol a/neu amgylcheddol cryf yw Menter Gymdeithasol ac nid cynhyrchu elw yw ei brif amcan. Rhoddwyd hysbysiad ar Gwerthwch i Gymru yn chwilio am ddarparwyr i ymgymryd â'r gwaith o ddarparu llety yng Nghanolfan Awyr Agored Rhyd Ddu a gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb. Yn dilyn ail hysbysiad ar Gwerthwch i Gymru, daeth i'r amlwg mai Antur Nantlle oedd yr unig ddarpar bartner.
- 2.12.4 Eglurodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud pob ymdrech i geisio sefydlu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu yn hunangynhaliol ond nad oedd hynny wedi dwyn ffrwyth ac o ganlyniad, pan ddaeth y cyfle i brydlesu, o safbwynt ariannol 'roedd yn gefnogol o'r penderfyniad.
- 2.12.5 Mynegodd y Pennaeth Economi a Chymuned bod y Ganolfan yn safle hanesyddol a'i bwysigrwydd i ddisgyblion ysgolion Gwynedd. Yn sgil y ffaith nad oedd y Ganolfan yn hunangynhaliol, roedd tri dewis ar gael sef, gwerthu'r adeilad am dderbyniadau cyfalaf; prydlesu i fentrau cymdeithasol ond dim ymrwymiad i ysgolion ac yn olaf, prydlesu i fentrau cymdeithasol ond parhau i gynnal darpariaeth ar gyfer ysgolion. Penderfynwyd, oherwydd pwysigrwydd yr adeilad, mai'r opsiwn delfrydol oedd ei brydlesu i fentrau cymdeithasol gydag ymglymiad i barhau darpariaeth i ysgolion.
- 2.12.6 Eglurodd y Pennaeth Economi a Chymuned bod swyddog o'r Adran Strategol a Gwella wedi cysylltu â mentrau cymdeithasol yn yr ardal yn sgil diffyg diddordeb pan hysbysebwyd ar Gwerthwch i Gymru. Un fenter gymdeithasol yn unig oedd â diddordeb sef Antur Nantlle Cyf.
- 2.12.7 Mynegodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bwysigrwydd atgoffa aelodau bod ganddynt gyfnod o bum diwrnod i gynnig sylwadau ar daflenni penderfyniad aelod unigol cyn y daw'r penderfyniad yn weithredol ac na dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn yr achos hwn.
- 2.12.8 Mynegodd yr aelodau eu bod yn siomedig nad oedd yr aelod oedd wedi ymholi am y mater wedi mynychu'r cyfarfod.
- 2.12.9 Diolchwyd i'r Pennaeth Economi a Chymuned am fynychu'r cyfarfod ac egluro'r penderfyniad.

Mae'r dudalen yma wedi ei gadael yn fwriadol wag

Eitem 8

| | |
|---------------------|---|
| PWYLLGOR | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD | 24 MEDI 2015 |
| TEITL | CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 11 MEDI 2015 |
| AWDUR | LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO |
| GWEITHREDIAD | DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD |

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2015 hyd at 11 Medi 2015.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 11 Medi 2015:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|-------|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 8 |
| Archwiliadau Dilyniant | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 11 Medi 2015, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|-----------------------------|----------------------|------|-----------|
| Cyfathrebu gydag Ysgolion | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| Cronfa'r Cadeirydd | Cefnogaeth Gorfforaethol | Democratiaeth | B | Atodiad 2 |
| Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 3 |
| System Refeniw – Cau i Lawr 2014-15 | Cyllid | Refeniw | B | Atodiad 4 |
| Rhyngwyneb Siebel – eFinancials | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | A | Atodiad 5 |
| Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG | Corfforaethol | | C | Atodiad 6 |
| Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Oedolion | B | Atodiad 7 |
| Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 8 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

- Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.
- Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.
- Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.
- Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|--------------------|--------------------|----------------|
| Gwasanaethau Plant - Comisiynu Gofal | Plant a Theuluoedd | Plant | Derbyniol |
| Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch | Rheoleiddio | Gwarchod y Cyhoedd | Derbyniol |

2.3.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

Rhagorol - pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl.

Derbyniol - y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

Anfoddhaol - nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

Annerbyniol - y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2015

Taliadau Uniongyrchol

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2015

System Swyddi – Diogelwch a Chywirdeb

TG – Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth

Taliadau Cymorth Cyntaf

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2016

Iechyd Diogelwch – Gweithio'n Unig

Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd

Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2016

Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi

Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 14 Medi 2015.

3.2 Archwiliadau yn mynd rhagdynt

- Defnydd Ymgynghorwyr (*Corfforaethol*)
- Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw (*Corfforaethol*)
- Asesiad Corfforaethol (*Corfforaethol*)
- Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel (*Corfforaethol*)
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol (*Corfforaethol*)
- Llywodraethu Gwybodaeth – Deddf Diogelu Data (*Corfforaethol*)
- Y Fenter Twyll Genedlaethol (*Corfforaethol*)
- Arlwyaeth Ysgolion (*Addysg*)
- Ysgolion – Llywodraethu (*Addysg*)
- Modelu'r Gweithlu (*Addysg*)
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- System Dyledwyr – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- System Taliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Cysoni Banc – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- System Gyflogau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Cronfa Bensiwn – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Treth Cyngor – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Trethi Busnes – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Canolfannau Hamdden – Casglu Incwm (*Economi a Chymuned*)
- Academi Hwyllo (*Economi a Chymuned*)
- Gofal Cartref (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r trydydd sector (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Plas y Don, Pwllheli (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Plas Hedd, Bangor (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Hafod Mawddach, Abermaw (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Cefn Rodyn, Dolgellau (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
- Arolygiadau (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
- Pont Briwet (*Rheoleiddio*)
- Trafnidiaeth Gyhoeddus (*Rheoleiddio*)
- Incwm Meysydd Parcio (*Rheoleiddio*)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2015 i 11 Medi 2015, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

CYFATHREBU GYDAG YSGOLION

Addysg

Cefndir

Mae'n hanfodol bod trefniadau cadarn a chlr ar gyfer cyfathrebu rhwng Adran Addysg y Cyngor a'r ysgolion, ac mae nifer o drefniadau mewn lle ar hyn o bryd. Un o'r trefniadau sydd yn bodoli yw cylchlythyr wythnosol, a gaiff ei reoli a'i ddsbarthu gan Swyddog o'r Gwasanaethau Cefnogol – Cefnogaeth Gorfforaethol.

Caiff cyfarfodydd GYDCA (Grŵp Ysgolion Dalgylch Cynradd ac Arbennig) eu cynnal bob hanner tymor. Mae 13 dalgylch ysgolion Cynradd ac Arbennig yn y Sir, sef dalgylch yr ysgolion Uwchradd (ac eithrio Ysgol Friars a Tryfan sy'n gynnwysedig fel un dalgylch). Yn ddelfrydol, dylai bod cynrychiolydd o'r ysgolion uwchradd yn mynychu'r cyfarfodydd GYDCA. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, dylai bod y cynrychiolydd dalgylch yn cynnal cyfarfodydd gyda'r ysgolion yn y dalgylch er mwyn dosbarthu'r wybodaeth a rannwyd yn y cyfarfod GYDCA. Y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n cadw cofnodion y cyfarfodydd GYDCA.

Bydd newyddlen yn cael ei dosbarthu i ysgolion cynradd/arbennig yn dilyn cyfarfodydd GYDCA yn manylu ar unrhyw wybodaeth bwysig a drafodwyd yn y cyfarfodydd, neu unrhyw wybodaeth bwysig a dderbyniwyd gan Estyn, Llywodraeth Cymru a.y.b. yn ystod y cyfnod. Mae'r trefniant o anfon newyddlen i ysgolion cynradd ac arbennig yn dilyn cyfarfodydd GYDCA yn drefniant newydd, ac wedi disodli'r trefniant o gael dwy gynhadledd yn ystod y flwyddyn ysgol.

Yn yr un modd, caiff cyfarfodydd Grŵp Strategol Uwchradd eu cynnal pob hanner tymor. Dylai bod cynrychiolydd o bob ysgol uwchradd yn y Sir yn mynychu'r cyfarfodydd. Y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n cadw cofnodion y cyfarfodydd yma hefyd.

Mae fersiwn newydd o fewnrwyd yr Adran Addysg wedi ei gyhoeddi i'r ysgolion yn Hydref 2014, ac yn ddull arall a ddefnyddia'r Adran Addysg i gyfathrebu gydag ysgolion. Cafodd cynnwys y fewnrwyd ei drafod yn y cyfarfodydd GYDCA a'r Grŵp Strategol Uwchradd.

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod cyfathrebu effeithiol gydag ysgolion, er mwyn sicrhau bod y swyddogion priodol yn cael mynediad at ganllawiau, cyngor ac arweiniad, yn arbennig gwybodaeth bwysig ac allweddol a bod unrhyw fater allweddol yn cael ei amlygu.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd sut mae'r Adran Addysg yn cyfathrebu gydag ysgolion, gwiriwyd sampl o ohebiaeth a newyddlenni a gylchredwyd ynghyd â dylunio a dosbarthu holiadur electronig at holl benaethiaid ysgolion Gwynedd er mwyn darganfod gwir sefyllfa cyfathrebu gydag ysgolion a chael eu barn ar feysydd megis ansawdd, amllder a chynnwys newyddlenni a thudalennau fewnrwyd yr Adran Addysg.

Prif Ddarganfyddiadau

Fe luniwyd holiadur anhysbys i gyd-fynd â'r archwiliad hwn yn cynnwys nifer o gwestiynau i ofyn i Benaethiaid ysgolion Gwynedd am eu barn ar drefniadau cyfathrebu rhwng yr Adran Addysg a'r Ysgolion. Derbyniwyd 39 o holiaduron yn ôl wedi eu cwblhau fel rhan o'r ymateb i'r holiadur.

Mae rhai meysydd penodol wedi eu hamlygu yn sgil yr archwiliad ac sydd angen sylw pellach. Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â fformat a defnydd y cylchlythyr wythnosol. Mynegodd rhai nad oedd yn hawdd ei ddefnyddio i ddarganfod pethau o flaenoriaeth neu bwysigrwydd. Ymholwyd hefyd ar ffyrdd o gylchredeg y cylchlythyr i staff. Siomedig oedd darganfod nad oedd pob Pennaeth yn cylchredeg y cylchlythrau gyda'u staff. Derbyniwyd un sylw nad oedd yn hwylus trosglwyddo gwybodaeth i'r Llywodraethwyr o'r cylchlythyr wythnosol gan fod y cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth berthnasol yn ogystal ag amherthnasol i Lywodraethwyr. Nododd y Pennaeth y byddai'n rhaid chwyntu'r wybodaeth berthnasol allan o'r cylchlythyr.

Wrth ddadansoddi'r wybodaeth o'r holiaduron, daethpwyd i'r amlwg nad oedd pob Pennaeth yn ymwybodol o'r fewnwyd a hefyd nad oedd rhai Benaethiaid wedi hysbysu eu staff o fodolaeth y fewnwyd. Mae angen hysbysu staff ynglŷn â bodolaeth y fewnwyd, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r polisiau a'r dogfennau sydd ar gael pe baent angen unrhyw wybodaeth. Cafwyd gwybodaeth/sylwadau defnyddiol iawn ynglŷn â pha ddogfennau / gwybodaeth y gellir eu ychwanegu i'r fewnwyd, barn ynglŷn â'r cylchlythyr a'r ffyrdd o wella cyfathrebu rhwng yr Adran Addysg ac Ysgolion. Mae angen ystyried gweithredu ar ddarganfyddiadau'r archwiliad hwn er mwyn gwella'r drefn cyfathrebu rhwng yr Adran Addysg ac Ysgolion Gwynedd.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Cyfathrebu gydag Ysgolion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Dylid ystyried newid fformat y cylchlythyr wythnosol gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a ddatgelwyd yn yr holiadur.
- Dylid ystyried ffyrdd eraill o geisio cylchredeg a dosbarthu'r cylchlythyr wythnosol fel ei fod yn cyrraedd sylw staff a Llywodraethwyr yr Ysgolion.
- Dylid sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o fodolaeth fewnwyd yr Adran Addysg fel gallent ei defnyddio fel canolbwynt i ddogfennau a pholisïau maent eu hangen.
- Dylid ystyried sylwadau'r ysgolion sy'n deillio o'r holiadur ynglŷn â'r ffyrdd i wella'r fewnwyd a pha ddogfennau / gwybodaeth i'w hymgorffori.
- Dylid ystyried sylwadau'r ysgolion sy'n deillio o'r holiadur ynglŷn â'r ffyrdd i wella'r cyfathrebu rhwng yr Adran Addysg a'r Ysgolion.

CRONFA'R CADEIRYDD **Cefnogaeth Gorfforaethol**

Cefndir

Mae Cronfa'r Cadeirydd yn gronfa hanesyddol sydd wedi bod mewn lle ers dechrau Cyngor Gwynedd yn 1996. Mae'n bodoli er mwyn caniatáu i Gadeirydd y Cyngor groesawu ymwelwyr i'r Awdurdod, cyfrannu arian at Apeliadau; prynu anrhegion corfforaethol a.y.b. yn ystod ei flwyddyn/blwyddyn yn y swydd. Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb llawn am benderfynu pa eitemau o wariant a ddylid eu talu o'r Gronfa.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd gwirio bod trefniadau cadarn a phrosesau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r Gronfa'r Cadeirydd.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio fod cyfrifon terfynol y gronfa yn cysoni â'r datganiadau banc a bod trefniadau priodol mewn lle i ddelio gyda'r ceisiadau am nawdd. Archwilio cyfrifon y gronfa ar gyfer blynyddoedd ariannol 2013/14 a 2014/15.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae cyfrifoldeb llawn gan y Cadeirydd am benderfyniadau ar wariant o'r gronfa. Y Swyddog Dinesig sydd â chyfrifoldeb am weinyddiaeth y gronfa o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod anfonebau yn cael eu talu, a chofnodi'r holl drafodion sy'n ymwneud â'r gronfa. Mae'r gronfa yn hanesyddol ac nid oes llawer o drefniadau ffurfiol mewn lle ar ei chyfer. Yr unig risg gyda hyn yw nad oes gwybodaeth ffurfiol ar gael i roi arweiniad ar sut ddylid/ac ar beth y gellid gwario arian y gronfa. Mae trefniadau cyllidebol cadarn mewn lle ar gyfer y Gronfa gyda chyfrifoldeb awdurdodedig am y gronfa. Gwelwyd nad oedd cyswllt ffurfiol gyda'r Adran Gyllid, fodd bynnag roedd swyddogion awdurdodedig yn ardystio gwariant y gronfa. Gwelir bod cysondeb rhwng cyfriflen banc y gronfa a'r daenlen a gedwir gan y Swyddog Dinesig ynglŷn â gwariant y gronfa. Cedwir tystiolaeth ynglŷn â gwariant y gronfa sef derbynebau ac anfonebau. Gwiriwyd bod gwybodaeth gywir a pherthnasol yn cael eu cadw gyda'r ceisiadau a dderbynnir am arian y gronfa, a gwelwyd eu bod yn cael eu hasesu'n gyflawn ac mewn modd teg. Mae'n draddodiad erbyn hyn y bydd y Cadeirydd yn cynnal digwyddiad/cyngerdd i godi arian at elusen/elusennau ym mlwyddyn ei gadeiryddiaeth/chadeiryddiaeth – gwelwyd bod y gost o gynnal y cyngerdd yn 2014 wedi gorbwyso yr elw a ddaeth i law, felly dylid bod yn wylidwrus wrth drefnu digwyddiadau yn y dyfodol.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Cronfa'r Cadeirydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Dylid ystyried cael dogfennau / ymwybyddiaeth ffurfiol mewn lle ar gyfer rhoi arweiniad ar ba fath o wariant gellir ei wneud gyda Cronfa'r Cadeirydd.
- Dylid pwysu a mesur y costau sydd ynghlwm â chynnal unrhyw ddigwyddiad, e.e. cyngerdd gyda'r elw disgwylidig cyn ymrwymo i unrhyw wariant.

PRIF SYSTEM GYFRIFO - ADOLYGIAD O'R RHEOLAETHAU ALLWEDDOL
Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilio Archwilwydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."

Caiff y prif system gyfrifo ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad

'Roedd yr adolygiad yma yn canolbwyntio ar reolaethau cynnal y prif system gyfrifo a thrafodion 2014/15.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaeth gref yn y prosesau sydd ynghlwm â gweinyddu'r Brif System Gyfrifo. Fodd bynnag, gwelwyd fod gwendid yn y drefn o hysbysu'r Technegydd System Ariannol am aelodau o staff sydd ddim angen mynediad i'r Cyfriflyfr mwyach. Gwelwyd bod y Technegydd System Ariannol yn anfon rhestr o ddefnyddwyr yn flynyddol i'r Rheolwyr Cyllid Adrannol i'w wirio. Gwelwyd nad oeddynt bob amser yn derbyn ymateb gan yr Unedau Cyllid Adrannol. Gwelwyd ar restr defnyddwyr a anfonwyd ym mis Mehefin 2014 fod un aelod o staff wedi gadael ei swydd o fewn y Cyngor ers 30/06/2011, ond gwelwyd bod yr Uned Gyllid perthnasol wedi ymateb i'r e-bost y tro hwn a bod y defnyddiwr wedi ei ddileu erbyn amser yr archwiliad. Gan fod y swyddog yma wedi gadael cyflogaeth y Cyngor, mae'n annhebygol y byddai gyda mynediad i rwydwaith y Cyngor ac o ganlyniad yn methu cael mynediad i'r cyfriflyfr ariannol. Mae'r risg ohono'n cael mynediad anawdurdodedig i'r cyfriflyfr felly yn isel.

Barn yr Archwiliad

- (A) **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth y Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**
- **Dylai'r Rheolwyr Cyllid Adrannol sicrhau eu bod yn hysbysu'r Technegydd System Ariannol o newidiadau i anghenion hawliau mynediad i'r system gyfrifo yn dilyn derbyn rhestr flynyddol o ddefnyddwyr.**

SYSTEMAU REFENIW - CAU I LAWR 2014-15

Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Ebrill 2010 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru) wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu lle bosibl ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn mae'r protocol ar y cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan

"Fel rhan o'u rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda'r datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".

Caiff y systemau Budd-dal, Treth Cyngor a Trethi Busnes eu hystyried yn "systemau ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y systemau hyn.

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cau i lawr y flwyddyn ariannol, drwy gadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio bod y cysoniadau sy'n rhan o'r ymarferiad o gau'r flwyddyn flaenorol yn cael eu cynnal yn amserol a'u bod yn gyflawn a chywir.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae trefniant o ymarfer da yn bodoli yn y broses o gysoni a chau lawr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan fod yr holl brosesau cysoni disgwylidig yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyl. Gwelwyd bod arian yn parhau i fod yng nghyfrif dros dro Trethi Cyngor a Threthi Busnes ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan nad oes modd o adnabod pa gyfrif mae'r arian yn perthyn. O ran y system budd-daliadau, mae cod SERR (System Error) wedi ei sefydlu ond ymddengys nad yw hwn wedi ei ymgorffori yn ymholiad 'SQL' - felly mae'r eitemau yn parhau ar y cysoniad fel eitemau 'gwahaniaeth' sydd angen eu datrys. Petai SERR yn rhan o'r ymholiad ni fuasai'r eitemau yn ymddangos.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol systemau refeniw - cau i lawr 2014-15 gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:

- Dylid ymgorffori cod SERR yn ymholiad SQL.

RHYNGWYNEB SIEBEL AC EFINANCIALS**Cyllid**Cefndir

Fel rhan o adroddiad archwiliad mewnol 'System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol' (Chwefror 2015), daethpwyd i'r amlwg bod anfonebau a baratowyd gan swyddogion Galw Gwynedd (drwy system Siebel) yn creu rhif dyledwr o'r newydd ar system eFinancials ym mhob achos, hyd yn oed os yw'r dyledwr eisoes yn bodoli ar y system a bod rhif dyledwr ar ei gyfer yn barod. Argymhelliad yr adroddiad archwilio oedd:

Dylid cynnal trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer sefydlu sgript pwrpasol ar gyfer allforio y manylion yn gywir i'r modiwl dyledwyr er mwyn osgoi y niferoedd o gyfrifon dyblyg.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod camau wedi eu cymryd i gryfhau'r rhyngwyneb rhwng dwy o systemau allweddol y Cyngor, sef Siebel a eFinancials fel y gellir allforio manylion yn gywir o Siebel i'r modiwl dyledwyr yn eFinancials ac osgoi creu cyfrifon dyblyg.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda swyddogion perthnasol o Galw Gwynedd, y Gwasanaeth TG a'r Gwasanaeth Incwm er mwyn trafod pa gamau sydd wedi eu cymryd i gryfhau'r rhyngwyneb rhwng systemau Siebel ac eFinancials. Roedd yr archwiliad yn ogystal yn dilyn sampl o geisiadau am waith penodol a brosesir drwy system Siebel, ble mae angen i godi anfoneb am y gwaith drwy system eFinancials, er mwyn sicrhau nad oes cyfrifon dyblyg yn cael eu creu ar gyfer cwsmeriaid sydd eisoes gyda rhif dyledwr.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn dilyn ymholiadau gyda swyddogion o Galw Gwynedd a'r Gwasanaeth TG, mynegwyd fod gwaith wedi mynd rhagddo i wella'r rhyngwyneb rhwng y ddwy system a rhyddhawyd y swp cyntaf o anfonebau yn unol â'r drefn newydd diwedd mis Mehefin 2015.

Fel rhan o'r archwiliad, echdynwyd manylion o system eFinancials er mwyn adnabod os cynhyrchwyd cyfrifon dyledwyr dyblyg o fis Gorffennaf 2015 ymlaen, a gwelwyd un achos o hyn. Yn yr achos yma, gwelwyd fod anfoneb wedi ei chreu gan Galw Gwynedd ar gyfer unigolyn ym mis Mai 2015 gan gynhyrchu rhif dyledwr 751601 ac yna codwyd anfoneb arall i'r un unigolyn gan Galw Gwynedd ym mis Gorffennaf gan greu rhif dyledwr 751715.

Wrth ymchwilio i hyn, darganfuwyd fod rhestr o rifau cwsmer wedi eu copïo drosodd i Siebel cyn cyflwyno'r drefn newydd, ond nad oedd rhif cwsmer 751601 yn gynwysedig ynddo. Pan godwyd anfoneb arall ar y cwsmer ar ôl cyflwyno'r drefn newydd, nid oedd Siebel yn gallu adnabod bod y cwsmer yn bodoli yn barod ac felly cynhyrchwyd rhif cwsmer newydd, sef 751715. Os bydd anfonebau yn cael eu codi ar gyfer y cwsmer yn y dyfodol, bydd y rhyngwyneb yn defnyddio'r rhif yma o hyn ymlaen.

Fodd bynnag, gwelwyd bod rhif dyledwr arall wedi ei greu ar gyfer yr un unigolyn, sef rhif dyledwr 751760 ond nad oes trafodion ynghlwm a'r cyfrif. Mynegodd y Gwasanaeth TG y bu problem gydag un swp o anfonebau yn fuan wedi cyflwyno'r drefn newydd a bu rhaid newid y sgriptiau ar 20 Gorffennaf 2015 er mwyn eu prosesu. Ni chynhyrwyd anfonebau oherwydd y broblem ond roedd rhifau dyledwyr newydd wedi eu sefydlu a dengys bod y cwsmer yma yn un o'r rhain a grëwyd heb gynhyrchu anfoneb.

Mynegodd y Gwasanaeth TG bod y broses i weld wedi gwella ar ôl y newid ar 20 Gorffennaf 2015 ac nad oes problem arall wedi cael ei adrodd. Yn dilyn gwiriadau o'r adroddiadau eFinancials, ni ddarganfuwyd unrhyw beth i awgrymu i'r gwrthwyneb.

Barn yr Archwiliad

(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Rhyngwyneb Siebel a eFinancials gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Fodd bynnag, dylid parhau i fonitro'r sefyllfa yn amserol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y rhyngwyneb.

TERFYNU GWEITHWYR ODDI AR SYSTEMAU TG Corfforaethol

Cefndir

Mae'n hanfodol bod trefniadau mewn lle ar gyfer terfynu hawliau gweithwyr oddi ar systemau TG y Cyngor petaent yn gadael eu swyddi gyda'r Cyngor. Petai gweithiwr yn newid swydd o fewn y Cyngor mae'n hanfodol sicrhau bod yr hawliau i systemau TG sydd ganddynt yn briodol i'r swydd newydd. Mae anghenion technolegol gweithwyr y Cyngor yn amrywio ond er mwyn lliniaru'r bygythiad diogelwch i ddata sensitif mae'n anochel bod y trefniadau yn cael eu rheoli.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau mewn lle ar gyfer terfynu mynediad swyddogion i systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor petai unrhyw newidiadau i'w swyddi neu petaent yn gadael y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar adolygu'r prosesau sydd mewn lle ar gyfer terfynu swyddogion oddi ar systemau TG. Roedd yr archwiliwr yn gwirio os oes modd adnabod defnyddwyr y dylid cael eu terfynu oddi ar systemau TG h.y. petaent wedi gadael y Cyngor neu wedi newid swydd. Yn ogystal, detholwyd sampl o systemau TG a sicrhau bod hawliau'r defnyddwyr yn briodol a bod unrhyw derfyniadau wedi eu gweithredu'n amserol.

Prif Ddarganfyddiadau

Nid oes dogfen swyddogol ar gyfer y trefniadau o derfynu hawliau swyddogion oddi ar systemau TG/rhwydwaith y Cyngor. Fodd bynnag mae'r ddogfen, 'Human Resources Information Security Standards' a gafodd ei lunio yn 2009 ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Mae'r ddogfen yn nodi'r pwysigrwydd o'r angen i ddiddymu mynediad gweithwyr petai unrhyw newid yn eu cyflogaeth h.y. "*Termination of employment may be due to resignation, change of role, suspension or the end of a contract or project.*", gan fod y Cyngor yn dal llawer o ddata personol a gwybodaeth gyfyngedig. Mae'r polisi hefyd yn cyfeirio at weithwyr allanol. Yn unol â'r polisi, cyfrifoldeb y Rheolwyr Llinell yw hysbysu'r Ddesg Gymorth o ddefnyddwyr newydd, newidiadau mewn rolau, ac unrhyw derfyniadau mewn perthnasedd a mynediad i systemau TG. Hefyd y Ddesg Gymorth fyddai'n hysbysu gweinyddwyr y systemau perthnasol bod angen diddymu hawliau'r defnyddwyr. Nid yw hon yn ddogfen swyddogol.

Gwiriwyd adroddiad o swyddogion sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn erbyn adroddiadau o ddefnyddwyr sampl o systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. Gwelwyd bod sawl swyddog yn parhau i fod â hawliau mynediad i'r systemau er eu bod wedi gadael cyflogaeth y Cyngor.

Mae gan rai o'r gweinyddwyr drefniadau eu hunain ar gyfer gwirio'r defnyddwyr sydd â mynediad i'r systemau. Nid ydynt yn derbyn cais i ddiddymu hawliau ym mhob achos. Os ydynt yn darganfod bod swyddog wedi newid swydd neu bellach ddim yn gweithio i'r Cyngor buasent yn diddymu'r hawliau. Hefyd mae modd i rai o'r gweinyddwyr wirio 'last login' y defnyddwyr, gyda threfniadau eu hunain o dynnu'r hawliau os nad ydynt yn mewngofnodi i'r system o fewn y 6 mis/blwyddyn ddiwethaf.

Mae gan yr Uned TG drefniadau ar gyfer adnabod cyfrifon sydd ddim yn cael eu defnyddio h.y. ddim yn mewngofnodi i'r rwydwaith. Fel arfer mae hyn yn digwydd oherwydd bod swyddog wedi gadael cyflogaeth y Cyngor ond bod yr Uned TG heb dderbyn hysbysiad o hyn. Gwneir hyn hefyd mewn achlysuron o absenoldeb tymor hir e.e. salwch, cyfnod mamolaeth, absenoldeb di-dâl. Derbyniwyd adroddiad o gyfrifon oedd wedi eu hanablu a gwelwyd bod rhai o'r cyfrifon wedi eu hanablu ers 2005 - dylai bod y cyfrifon yma wedi cael eu dileu yn unol â'r broses. Eglurwyd bod y broses o greu adroddiadau o'r math yma yn llafurus ac yn cymryd amser swyddogion oddi wrth waith arall.

Yn ogystal, derbyniwyd adroddiad o weithwyr allanol sydd gyda chyfrifon ar rwydwaith y Cyngor. Caiff y gweithwyr yma fynediad at systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. Ar hyn o bryd mae 353 cyfrif gweithredol ar gyfer gweithwyr allanol. Nid oes gan y gweithwyr yma rifau cyflog gan nad ydynt yn gyflogedig gan y Cyngor ac felly nid oes modd adnabod os ydynt wedi gadael y Cyngor yn yr un modd a gyda gweithwyr arferol. Mae'n ddibynol ar y rheolwyr llinell/swyddogion perthnasol i hysbysu nad yw'r gweithwyr hyn angen mynediad bellach. Nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos.

Er bod trefniadau mewn lle, daeth i'r amlwg nad oedd llawer o reolwyr yn ymwybodol o'r angen i hysbysu'r swyddogion perthnasol o'r angen i ddiwygio hawliau gweithwyr petai angen. Nid oedd y drefn yn glir ac nid oeddynt wedi cael eu hysbysu o'r drefn. Hefyd, credir fod elfen o ddyblygu yn y ffurflenni 'Defnyddiwr Newydd' wrth ddefnyddio'r rhain i hysbysu 'newid swydd', gan fod angen cwblhau'r ffurflen gyda'r holl fanylion e.e. rhif cyflog, rhif yswiriant gwladol ar gyfer swyddogion sydd o fewn cyflogaeth y Cyngor yn barod er bod gan y Cyngor y wybodaeth yma gan eu bod yn weithwyr mewnol. Mater arall a amlygwyd oedd bod cyn-swyddogion o un adran sydd yn parhau yng nghyflogaeth y Cyngor yn parhau i gael mynediad at ffeiliau cyfrinachol.

Barn yr Archwiliad

(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Dylid ystyried ail ymweld â'r polisi Technoleg Gwybodaeth 'Human Resources Information Security Standards' neu yn hytrach lunio dogfen swyddogol o'r newydd gyda'r trefniadau sydd eu hangen.
- Dylid ystyried trefn o hysbysu perchnogion/gweinyddwyr systemau o'r angen i dynnu hawliau swyddogion oddi ar systemau wrth dderbyn cais i ddiwyddu cyfrif swyddog oddi ar rwydwaith y Cyngor - dylid ystyried defnyddio'r daenlen 'Cofrestr Meddalwedd Busnes 2015'.
- Dylid sicrhau bod trefniadau ar gyfer delio a chyfrifon sydd bellach yn anweithredol h.y. cyfrifon sydd wedi eu hanablu, yn ogystal â sicrhau bod gweithrediad cyson.
- Dylid atgyfnerthu'r neges fod angen i reolwyr llinell/swyddogion awdurdodedig hysbysu'r Uned TG neu'r Tîm Cyfarwyddiadur Mewnol os nad yw gweithwyr allanol angen mynediad i rwydwaith y Cyngor, gan mai'r swyddogion yma sydd wedi gwneud y cais cychwynnol i sefydlu'r hawliau.

DILYSRWYDD ANFONEBAU DARPARWYR PREIFAT
Oedolion, Iechyd a Llesiant

Cefndir

Yn sgil y ffaith bod gwariant arwyddocaol ar ddarparwyr gofal trydydd parti, tybir y byddai archwiliad i adolygu'r rheolaethau mewnol yn amserol. Ar gyfer sampl yr archwiliad yma, roedd y gwasanaeth a brynir yn cwmpasu gofal cartref personol i bobl nad ydynt yn gallu darparu'r gofal iddynt hwy eu hunain heb gymorth oherwydd salwch, gwendid neu anabledd yn ogystal â gofal dydd.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau priodol mewn lle wrth wirio cywirdeb anfonebau am gostau gofal cartref a dydd preifat cyn eu cymeradwyo am daliad.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dilyn sampl o anfonebau am ofal preifat yn ôl i'r archeb a chynllun gofal y cleient, yn ogystal a'r cytundeb rhwng yr Awdurdod a'r darparwyr gofal er mwyn sicrhau bod y costau a gaiff eu hawlio yn briodol ac yn unol â'r hyn sydd eisoes wedi ei gytuno. Roedd yr archwiliad hefyd yn cwmpasu gwirio trefniadau talu 'Tai Gofal Ychwanegol'.

Prif Ddarganfyddiadau

Uned Contractau'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sy'n gyfrifol am y cytundebau rhwng y Cyngor a'r darparwyr gofal. Er mwyn i ddarparwyr gael eu cynnwys ar restr darparwyr gofal cartref cymeradwy'r Cyngor, mae'n ofynnol iddynt gytuno i'r amodau a'r thelerau sy'n gynwysedig yng nghytundeb swyddogol Gofal Cartref Gogledd Cymru, y 'pre-placement contract'. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r darparwyr gytuno i gynnal y gwasanaeth am bris sy'n unol â uchafswm cost uned a osodwyd gan y Cyngor.

Yn ôl Taflen Benderfyniad Aelod Cabinet (18/03/15) sy'n crybwyll ffioedd dibreswyl y 'Gwasanaethau Cymdeithasol' ar gyfer 2015/16, "*ar hyn o bryd (gan gyfeirio at 2014/15), mae cost y gwasanaeth Gofal Cartref yn amrywio rhwng £14.35 a £18.05 yr awr.*" Wrth archwilio sampl o anfonebau gofal cartref, gwelwyd bod pob pris o fewn yr amrediad yma, oni bai am un cwmni oedd yn codi ffi uwch. Darganfuwyd fod hyn yn deillio o'r ffaith bod diffyg darparwyr yn yr ardal mewn cwestiwn ar adegau yn gorfodi'r gwasanaeth i gytuno i gomisiynu gofal gan y cwmni. Fodd bynnag, gwelwyd nad yw'r cwmni wedi cytuno i arwyddo cytundeb swyddogol 'Gofal Cartref Gogledd Cymru' ac i'r perwyl yma, mynegwyd gan yr Uned Contractau nad yw'r cwmni wedi derbyn pecyn gofal newydd gan y Cyngor ers hynny.

Wrth archwilio sampl o anfonebau, cymharwyd y wybodaeth arnynt gyda'r cynllun gofal a derbyniwyd esboniadau am unrhyw anghysondebau. Er mwyn sicrhau bod pob ymweliad ychwanegol i'r arfer wedi eu cytuno, ymholwyd y Gweinyddwyr Ardal perthnasol am wybodaeth i'w cefnogi. Gwelwyd fod 'case notes' i gefnogi y rhain ond mewn un achos allan o'r naw yn y sampl gwelwyd nad oedd ychwanegiad wedi ei nodi fel 'additional' ar y 'Service Placement'.

Barn yr Archwiliad

- (B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb 'Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat' gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn:
- Dylid sicrhau bod unrhyw wasanaeth ychwanegol wedi ei nodi ar 'service placements' cyn cymeradwyo taliad ar ei gyfer.

ARWYSTL AR EIDDO PRESWYLWYR CARTREFI
Oedolion, Iechyd a Llesiant

Cefndir

Derbyniwyd cais gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau i ymchwilio i'r cyfnod mae'n cymryd i roi arwystl cyfreithiol ar eiddo unigolion sy'n derbyn gofal mewn cartrefi preswyl. Mae hyn yn deillio o gyfanswm y dyledion sy'n gysylltiedig â phreswylwyr sy'n cael eu diddymu. Dan Ddeddf Cymorth Wladol 1948, mae disgwyl i awdurdodau lleol drefnu darpariaeth ar gyfer gofal preswyl i'r unigolion hynny sydd, o gael eu hasesu, angen gofal o'r math hwn ac sy'n diwallu meini prawf yr awdurdod lleol ar gyfer hyn.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd ymchwilio i'r posibilrwydd o leihau'r dyledion sy'n cael eu diddymu, sy'n gysylltiedig â phreswylwyr cartrefi, gan arwain at leihau'r golled incwm sy'n wynebu'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu edrych ar ddyledion y Cyngor sydd dros £5,000 ac wedi eu diddymu, ac sy'n gysylltiedig â phreswylwyr cartrefi. Ymchwiliwyd pam nad oes arwystli cyfreithiol wedi eu rhoi ar yr eiddo dan sylw, a pha gamau y dylid eu cymryd er mwyn lleihau diddymiadau o'r fath yn y dyfodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ddelfrydol, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud gan y Cyngor i gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i breswylwyr yn gyntaf fel bod gan y Cyngor ganiatâd i roi arwystl cyfreithiol ar yr eiddo. Os nad yw'r unigolyn neu'r cynrychiolydd yn cytuno, neu yn anwybyddu'r cynnig ac yn gwrthod gwneud taliadau am y gofal sy'n cael ei dderbyn, yna gall y Cyngor roi arwystl heb ganiatâd ar yr eiddo drwy ddefnyddio deddf HASSASSA (Health & Social Services And Social Security Adjudications Act 1983).

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau lleoliad i'r unigolyn mewn cartref preswyl neu nyrsio, felly bydd y Cyngor yn cychwyn talu am y gofal heb gadarnhad bod y preswlydd yn deilwng i gymorth ariannol. Gall oediadau i gynnal asesiadau ariannol a gwirio'r wybodaeth arwain at oedi pellach cyn y gellir sefydlu cytundeb, ac yn y cyfamser gall dyled sylweddol gronni. Felly, nid yw'r Cyngor yn cynnig cytundeb i'r preswylwyr, ond yn hytrach gwelwyd (fel rhan o archwiliad 'Asedau Preswylwyr Cartrefi', Mawrth 2015) y defnyddir HASSASSA cyn gynted ag y bo modd gan nad oes ffordd arall o warchod y ddyled yn yr amser mae'n cymryd i gynnal asesiadau.

Gwelir mai gwraidd y dyledion yw anallu neu anfodlonrwydd y preswylwyr neu eu perthynas agosaf i dalu'r cyfraniadau. Teimlir mai un broblem sylfaenol yn y rhan fwyaf o achosion oedd yr anawsterau oedd y Gwasanaeth Busnes yn eu profi wrth geisio derbyn ymatebion am wybodaeth gan berthnasau agosaf y preswylwyr. Fe welir bod y Gwasanaeth wedi ymdrechu i adfer y dyledion, boed hynny drwy alwadau ffôn neu drwy lythyru'r unigolion perthnasol, ond bod cysylltu â chynrychiolydd i'r cleient - boed gyda Power of Attorney neu beidio - yn profi i fod yn anodd.

Yn ogystal â'r Gwasanaeth Busnes, mae'r Gwasanaethau Incwm a Chyfreithiol yn rhan o'r broses o adennill y dyledion. Gwelwyd nad oes strategaeth cydweithio wedi ei sefydlu, ac o ganlyniad nid yw'n amlwg pwy sydd â pherchnogaeth dros y gwahanol ddyledion ar unrhyw bryd na phwy sy'n atebol. O ystyried y dystiolaeth, teimlir bod y ddyled yn cronni i swm sylweddol cyn y cymerir camau penodol i'w adfer, gan fod yr amser a gymerir i ymateb i ymholiadau rhwng swyddogion neu i drydydd parti yn weddol hir mewn rhai achosion.

Yn gyffredinol, gwelir fod cymhlethdod a sensitifrwydd y maes dan sylw yn rhoi cryn bwysau ar y Gwasanaeth Busnes wrth iddynt geisio rheoli ac adfer y sawl ddyled sydd wrth law, sydd i gyd yn wahanol yn eu natur. Heb strategaeth benodol o ran cydweithio rhwng y gwasanaethau (Busnes, Incwm a Chyfreithiol), nid oes perchnogaeth ac atebolrwydd amlwg. Ystyrir bod posibilrwydd y byddai'r buddiannau a geir trwy lwyddo i adfer y dyledion yn gorbwysu'r costau a ddaw yn sgil sefydlu'r strategaethau. Yn ogystal, darganfuwyd bod mân gamgymeriadau mewn dogfennau, gan gynnwys rhai llythyrau a anfonwyd yn allanol, a allai fod wedi cyfrannu at gynyddu'r amser a gymerir i adennill y dyledion.

Barn yr Archwiliad

- (C) **Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb trefniadau rheoli dyledion preswylwyr cartrefi gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau sydd mewn lle. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**
- **Dylid sefydlu trefn o adnabod dyledion yn gynt a chymryd camau priodol i atal y ddyled rhag cronni yn sylweddol.**
 - **Dylid monitro taliadau yn fwy rheolaidd ac ymlid taliadau hwyr yn syth.**
 - **Mae angen i swyddogaethau fod yn glir ynglŷn â phwy sydd â chyfrifoldeb/perchnogaeth dros daliadau ac unrhyw ddyled sy'n cronni, drwy sefydlu gweithgor sy'n cynnwys aelodau o'r Gwasanaethau Busnes, Incwm a Chyfreithiol, i gyfarfod yn rheolaidd i roi sylw i'r mater.**

Mae'r dudalen yma wedi ei gadael yn fwriadol wag

Eitem 9

| | |
|---------------------|---|
| PWYLLGOR | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD | 24 MEDI 2015 |
| TEITL | CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16 |
| AWDUR | LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO |
| GWEITHREDIAD | ER GWYBODAETH |

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

- 2.1 Mae Cynllun Archwilio 2015/16 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 11 Medi 2015 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|-------------------------|-----------|
| Wedi ei gynllunio | 16 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 4 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 22 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 4 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad Terfynol | 15 |
| Cyfanswm | 63 |

- 2.2 Targed perfformiad 2015/16 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2016. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|-------------------|-----|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

- 2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 11 Medi 2015 oedd **23.81%** - allan o'r **63** archwiliad unigol yng nghynllun 2015/16 roedd **15** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|--------------------------|---|--------------------|----------|--------------------|---------------|-------------------------|
| CORFFORAETHOL | | | | | | |
| 1-CORFF-02/2016 | Defnydd Ymgynghorwyr | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 15.78 | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| 1-CORFF-09/2016 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 1.09 | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-12/2016 | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw | 25.00 | 0.00 | 25.00 | 1.45 | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-14/2016ccy | Taliadau Cymorth Cyntaf | 7.00 | 0.00 | 7.00 | 7.72 | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2016cor | Asesiad Corfforaethol | 25.00 | 0.00 | 25.00 | 5.91 | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2016lle | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 4.77 | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-02/2016 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 4.45 | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2016 | Llywodraethu Gwybodaeth - Deddf Diogelu Data | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 4.41 | Crewyd Papurau Gwaith |
| 2-ADN-X-GRANT/2016 | Grantiau Amrywiol | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 1.05 | Wedi ei gynllunio |
| AO-ARL-05/2016 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | 50.00 | 0.00 | 50.00 | 23.45 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-12/2016def | Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 16.82 | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-12/2016tg | Diogelwch Systemau TG | 30.00 | 0.00 | 30.00 | 0.38 | Wedi ei gynllunio |
| ADDYSG | | | | | | |
| Adnoddau | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2016eig | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 0.47 | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2016par | Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn | 10.00 | 0.00 | 10.00 | | Wedi ei gynllunio |
| EADDA03/2016 | Cyfathrebu gydag Ysgolion | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 13.53 | Adroddiad Terfynol |
| Ar draws yr adran | | | | | | |
| EADDA06/2016hlon | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 0.47 | Wedi ei gynllunio |
| Arlwyo | | | | | | |
| M-GMG-A04/2016 | Arlwyaeth Ysgolion | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 4.33 | Gwaith Maes ar y gweill |
| GwE | | | | | | |
| 4-GWE/2016 | GwE | 20.00 | 0.00 | 20.00 | | Wedi ei gynllunio |
| Ysgolion | | | | | | |
| EADDA18/2016dol | Ysgol Gynradd Dolgellau | 5.00 | 0.00 | 5.00 | 9.43 | Adroddiad Terfynol |
| EADDA35/2016 | Ysgolion Cyffredinol | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 1.87 | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|--|--|-----------------------|----------|-----------------------|------------------|-------------------------|
| EADDAY4007/2016 | Ysgol Dyffryn Nantlle | 8.00 | 0.00 | 8.00 | 12.22 | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016a | Ysgolion - Llywodraethu | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 11.49 | Disgwyl Adolygiad |
| EADDAYC/2016b | Modelu'r Gweithlu | 17.00 | 0.00 | 17.00 | 6.11 | Gwaith Maes ar y gweill |
| ASiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2016 | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 50.00 | 0.00 | 50.00 | 62.77 | Gwaith Maes ar y gweill |
| CEFNOGAETH GORFFORAETHOL | | | | | | |
| Democratiaeth | | | | | | |
| BB-YSG-18/2016 | Hyfforddi a Datblygu Aelodau | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 0.31 | Wedi ei gynllunio |
| BE-POL-14/2016 | Cronfa'r Cadeirydd | 5.00 | 0.00 | 5.00 | 7.58 | Adroddiad Terfynol |
| Iechyd a Diogelwch | | | | | | |
| BC-PER-02/2016 | Ysgolion - Iechyd a Diogelwch triplau ysgol | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 0.34 | Wedi ei gynllunio |
| CYLLID | | | | | | |
| Arjannol | | | | | | |
| AD-DY-01/2016 | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | 12.00 | 0.45 | Crewyd Papurau Gwaith |
| AE-TAL-01/2016kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | 12.00 | 3.41 | Crewyd Papurau Gwaith |
| Cyfrifeg | | | | | | |
| AN-ACY-02/2016kc | PSG - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 10.38 | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-02/2016kcx | PSG gan gynnwys Dyledwyr a Taliadau - Cau i Lawr 2014-15 | 8.00 | 0.00 | 8.00 | 10.62 | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2016kc | Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 0.73 | Crewyd Papurau Gwaith |
| AN-ACY-13/2016kcx | Cysoni Banc - Cau i Lawr 2014-15 | 5.00 | 0.00 | 5.00 | 6.34 | Adroddiad Terfynol |
| Pensiynau a Chyflogau | | | | | | |
| AL-CYF-01/2016kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | 12.00 | 3.16 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AL-CYF-01/2016kcx | System Gyflogau - Cau i Lawr 2014-15 | 5.00 | 0.00 | 5.00 | 5.05 | Adroddiad Terfynol |
| AP-PEN-01/2016 | Cronfa Bensiwn - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 2.77 | Gwaith Maes ar y gweill |
| Refeniw | | | | | | |
| AB-BD-01/2016dhp | Taliadau Tai Dewisol | 10.00 | 0.00 | 10.00 | | Wedi ei gynllunio |
| AB-BD-01/2016kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 1.70 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AB-BD-01/2016kcx | Systemau Refeniw - Cau i Lawr 2014-15 | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 10.76 | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2016ipo | System Treth Cyngor - Connect & Serve | 10.00 | 0.00 | 10.00 | | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|------------------------------------|---|-----------------------|----------|-----------------------|------------------|-------------------------|
| AC-TR-01/2016kc | Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | 8.00 | 2.09 | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-11/2016 | Trethi Busnes - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | 8.00 | 6.70 | Gwaith Maes ar y gweill |
| Technoleg Gwybodaeth | | | | | | |
| AW-TG-06/2016 | Rhyngwyneb Siebel - eFinancials | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 5.55 | Adroddiad Terfynol |
| ECONOMI A CHYMUNED | | | | | | |
| Adfywio Cymunedol | | | | | | |
| EADDZ-01/2016 | Cronfa Degwm | 5.00 | 0.00 | 5.00 | | Wedi ei gynllunio |
| Hamdden | | | | | | |
| E-DGO-01/2016 | Canolfannau Hamdden - Casglu Incwm | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 30.27 | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| Prosiectau Sylweddol | | | | | | |
| DDAT-AH-01/2016 | Academi Hwyllo | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 15.49 | Gwaith Maes ar y gweill |
| OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | | | | | | |
| Ar draws yr adran | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-GC/2016 | Gofal Cartref | 25.00 | 0.00 | 25.00 | 2.64 | Gwaith Maes ar y gweill |
| GCC-03/2016 | Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r 3ydd Sector | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 15.45 | Gwaith Maes ar y gweill |
| GRH-GW04/2016 | Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 1.93 | Wedi ei gynllunio |
| Gofal Cymunedol | | | | | | |
| GDAPR-GC04/2016 | Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 12.93 | Adroddiad Terfynol |
| Oedolion | | | | | | |
| GDAPR-H03/2016 | Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 15.33 | Adroddiad Terfynol |
| GGWAS-C01/2016 | Newidiadau i ILF | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 1.22 | Wedi ei gynllunio |
| Preswyl a Dydd | | | | | | |
| 5-GOF-CART1341/2016 | Plas y Don, Pwllheli | 12.00 | 0.00 | 12.00 | 10.98 | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| 5-GOF-CART1345/2016 | Plas Hedd, Bangor | 12.00 | 0.00 | 12.00 | 10.64 | Gwaith Maes ar y gweill |
| 5-GOF-CART1350/2016 | Hafod Mawddach, Abermaw | 12.00 | 0.00 | 12.00 | 7.43 | Gwaith Maes ar y gweill |
| 5-GOF-CART1356/2016 | Cefn Rodyn, Dolgellau | 12.00 | 0.00 | 12.00 | 17.96 | Disgwyl Adolygiad |
| GDAPR-H01/2016 | Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 5.99 | Adroddiad Terfynol |

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Fflyd

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|-----------------------------------|--------------------------------------|-----------------------|----------|-------------------------------|--------------------------|-------------------------|
| PGW-TR-02/2016 | Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd | 10.00 | 0.00 | 10.00 | 9.16 | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| Gwaith Priffyrdd | | | | | | |
| PPR-CYN-03/2016 | Arolygiadau | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 5.42 | Gwaith Maes ar y gweill |
| RHEOLEIDDIO | | | | | | |
| Trafnidiaeth a Gofal Stryd | | | | | | |
| 3-PROJ-TRAF/2016briw | Pont Briwet | 15.00 | 0.00 | 15.00 | 1.57 | Gwaith Maes ar y gweill |
| DDAT-CC-01/2016 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 25.00 | 0.00 | 25.00 | 11.33 | Gwaith Maes ar y gweill |
| PPE-P-01/2016 | Incwm Meysydd Parcio | 20.00 | 0.00 | 20.00 | 5.72 | Gwaith Maes ar y gweill |
| YMGYNGHORIAETH GWYNEDD | | | | | | |
| Adeiladau ac Amgylcheddol | | | | | | |
| PYM01/2016 | Recriwtio a Phenodi | 15.00 | 0.00 | 15.00 | | Wedi ei gynllunio |

Mae'r dudalen yma wedi ei gadael yn fwiadol wag